UK Government
Llywodraeth y DU

# Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Swyddfa Cymru)

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22

HC 295

UK Government
Llywodraeth y DU

# Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Swyddfa Cymru)

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22

(Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022)

Cyfrifon a gyflwynir i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 6(4) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Adroddiad Blynyddol a gyflwynir i Dŷ'r Cyffredin Trwy Orchymyn Ei Mawrhydi

**Gorchmynnwyd eu hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin**

18 Gorffennaf 2022

HC 295

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau Adrannol sydd, ynghyd â Phrif Amcangyfrifon 2022-23, y ddogfen Public Expenditure: Statistical Analyses 2021, and the Supply Estimates 2021-22: Supplementary Budgetary Information, yn cyflwyno alldro'r Llywodraeth ar gyfer 2021-22 a gwariant arfaethedig ar gyfer 2022-23.

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2022**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-Government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/Government/publications ac ar ein gwefan: www.walesoffice.gov.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn correspondence@ukgovwales.gov.uk

ISBN 978-1-5286-3485-4

E02761218 07/22

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys 75% o ffibr wedi'i ailgylchu o leiaf

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp APS ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


**Pennod - 1 Yr Adroddiad Perfformiad** 1

Rhagair y Gweinidog 1

Cyflwyniad y Cyfarwyddwr 3

Trosolwg Adrannol 4

Mae Trosolwg Strategol yr Adran wedi rhannu ein gwaith o dan dair blaenoriaeth strategol 4

Datblygu Cynaliadwy 29

Adolygiad Ariannol 30

**Pennod - 2 Yr Adroddiad Atebolrwydd** 34

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol 34

Adroddiad y Cyfarwyddwr 34

Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 36

Datganiad Llywodraethu 38

Adroddiad Tâl a Staff 49

Adroddiad Staff 59

Atebolrwydd Seneddol ac adroddiad archwilio 66

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolywr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin 75

**Pennod - 3 Datganiadau Ariannol** 82

Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 86

**Atodiad 1: Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus** 105

# 1 Yr Adroddiad Perfformiad

## Rhagair y Gweinidog

Mae'n anrhydedd ac yn fraint cael fy mhenodi'n Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Fel Cymro wedi ei eni a'i fagu yng Nghymru, ac a fu'n byw ac yn gweithio yng Nghymru am flynyddoedd lawer, gwn pa mor bwysig yw fy rôl newydd o ran hyrwyddo Cymru wrth fwrdd y Cabinet a chyflawni rhaglen y Llywodraeth ar gyfer swyddi a thwf economaidd yng Nghymru.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn dangos y sylfaen gadarn yr wyf yn bwriadu adeiladu arni. Gweithio ar seilwaith ynni Cymru yn y dyfodol gyda'r bwriad o ennill mewn pedwar maes – creu swyddi, lleddfu costau byw, diogelwch ynni hirdymor, ac ymrwymiad i Sero Net. Gweithio gydag Ystâd y Goron i hyrwyddo prydlesu gwely'r môr ar gyfer ynni gwynt yn y Môr Celtaidd a gweithio i wneud y gorau o botensial Cymru ar gyfer ynni niwclear - yn unol â'n nod o gynhyrchu hyd at chwarter pŵer Prydain Fawr o'r ffynhonnell honno erbyn 2050.

Gan edrych ymhellach, mae gan Gymru'r potensial i estyn allan i farchnadoedd newydd a rhai sy'n datblygu ledled y byd, gan fanteisio ar gytundebau masnach newydd y Deyrnas Unedig a'r farchnad newydd enfawr sydd ar gael i ffermwyr Cymru ar ôl codi gwaharddiad yr Unol Daleithiau ar gig oen o'r DU.

Mae codi'r gwastad a chryfhau'r Undeb yn nodau strategol allweddol i'r Llywodraeth hon - a raison d'être ein Swyddfa  yw sicrhau Cymru lewyrchus o fewn Teyrnas Unedig gref. Mae Awdurdodau Lleol yn cael eu grymuso drwy Gronfa Codi'r Gwastad y DU o £4.8 biliwn, sydd ar hyn o bryd yn ei hail gylch ceisiadau. Mae fy Swyddfa'n gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i'w harwain drwy'r broses fuddsoddi uniongyrchol hon, yn ogystal â'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol gwerth £220 miliwn a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin sydd werth £585 miliwn, sy'n disodli cyllid blaenorol yr UE. Mae Swyddfa Cymru yn gweithio'n agos gydag adrannau Llywodraeth y DU a'n partneriaid yng Nghymru i gyflawni ein cenhadaeth i godi'r gwastad yn y DU erbyn 2030.

Dim ond rhai enghreifftiau yw'r rhain o'r gwaith y mae fy Swyddfa'n ei wneud ar draws y Llywodraeth i sicrhau bod Cymru'n cael y budd mwyaf posibl o lunio polisïau ac i deilwra polisïau sy'n addas i Gymru drwy gydgysylltu â Llywodraeth Cymru a'n partneriaid ar hyd a lled Cymru.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio o Hwb newydd y Llywodraeth yng Nghaerdydd – Tŷ William Morgan. Mae'r Hwb yn darparu canolfan ar gyfer llawer o adrannau Llywodraeth y DU sy'n gweithio yng Nghymru fel rhan o'n rhaglen Lleoedd Twf, gan gynnwys tîm newydd adran Masnach Ryngwladol Cymru a thîm Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau Cymru. Byddwn yn gweithio law yn llaw â'r timau hyn i helpu i gynyddu allforion Cymru a dod o hyd i gyfleoedd yn sgîl Brexit - un o'r rhain yw ein haddewid ar

gyfer o leiaf un porthladd rhydd yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at adolygu ceisiadau cryfion, siŵr o fod.

Rydym yn dal i weithredu i yrru economi Cymru yn ei blaen – boed hynny yn achos Prosiect Gigabit, sicrhau buddsoddiad i dyfu diwydiannau'r dyfodol a rhoi Cymru ar flaen y gad o ran economi sero-net, neu gefnogi sectorau traddodiadol sy'n hanfodol i economi Cymru, megis amaethyddiaeth, twristiaeth a lletygarwch.

Hoffwn ddiolch i'm swyddogion a'm tîm Gweinidogol – David TC Davies AS a'r Farwnes Bloomfield – mae gennyf gefnogaeth, brwdfrydedd a lefelau ynni anhygoel yn gefn imi ar gyfer hyrwyddo buddiannau Cymru. Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm rhagflaenydd, y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS. Mae'r adroddiad hwn yn tystio i'w waith caled a'i ymroddiad i Gymru.

**Y Gwir Anrhydeddus Syr Robert Buckland KBE CF AS**
**Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

## Cyflwyniad y Cyfarwyddwr

Yn fy nghyflwyniad i Adroddiad Blynyddol y llynedd, mi siaradais am ddatblygiadau a oedd datgan pennod newydd a chyffroes i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghymru. Er gwaetha'r heriau parhaus a ddaeth yn sgil pandemig byd-eang COVID-19, adeiladwyd ar y datblygiadau hynny ymhellach eleni mewn nifer o feysydd, er enghraifft y cynnydd rydym yn ei wneud gyda phorthladdoedd rhydd, yn y sector ynni gydag ynni niwclear a chynhyrchu ynni gwynt ar y môr a chodi'r gwaharddiad ar gig oen yn yr Unol Daleithiau. Mae llwyddiant Cymru yn y cynigion am arian y Gronfa Adfywio Cymunedol a rownd gyntaf Y Gronfa Ffyniant Bro yn rhesymau pellach dros fod yn obeithiol ar gyfer y dyfodol.

Unwaith eto, mae Swyddfa Cymru wedi bod yn ganolog i ymdrechion a gweithgareddau'r Llywodraeth yng Nghymru. Mi wnaethom helpu i siapio Papur Gwyn y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli, ac mi wnaethom nodi ein huchelgeisiau a'n blaenoriaethau yn y Cynllun i Gymru cyntaf i gael ei gyhoeddi a'n Cynllun Cyflawni Deilliannau. Ond mae hyn wirioneddol yn ymdrech ar ran y Llywodraeth gyfan ac mae Tŷ William Morgan – swyddfeydd newydd Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd – ynghyd ag ymrwymiad gan un ar ddeg o adrannau i gynyddu niferoedd staff yng Nghymru, yn brawf o benderfyniad y Llywodraeth i fod yn bresenoldeb cadarn a gweladwy. Mae'r berthynas sydd gennym ag awdurdodau lleol, busnesau, prifysgolion a'r trydydd sector yn well nag erioed o'r blaen, ac mae ein presenoldeb cynyddol yn golygu fod yna nawr ehangder a dyfnder i'r perthnasau hynny.

Fel erioed, ni fyddai dim o hyn wedi gallu bod yn bosib heb arweinyddiaeth ein Ysgrifennydd Gwladol a'i dîm o Weinidogion a chyfraniad hynod cydweithwyr ar draws yr adran. Mae'r ffaith ein bod wedi cael ein sgôr gorau erioed eleni yn ein Arolwg Pobl a'n bod wedi'n hasesu fel bod yn sefydliad sy'n gweithio mewn ffyrdd clyfrach yn siarad cyfrolau, nid o ran yr hyn rydym wedi'i gyflawni'n unig, ond hefyd sut y gwnaethom hynny. Ni faswn i'n gallu cael tîm gwell i weithio ag o.

**Glynne Jones CBE**
**Cyfarwyddwr**

# Trosolwg Adrannol

## Mae Trosolwg Strategol yr Adran wedi rhannu ein gwaith o dan dair blaenoriaeth strategol

Mae Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ('y Swyddfa') yn cefnogi Ysgrifennydd Gwladol Cymru i hyrwyddo buddiannau Cymru mewn Teyrnas Unedig gref. Ni yw wyneb Llywodraeth y DU yng Nghymru a llais Cymru yn Whitehall.

Mae gan y Swyddfa dair blaenoriaeth strategol:

### *Blaenoriaeth 1 – Cefnogi Twf Economaidd yng Nghymru*

### *A - Ysgogi twf a chreu swyddi cynaliadwy drwy gefnogi economi gref yng Nghymru mewn Prydain fyd-eang ffyniannus, a marchnad fewnol y DU.*

***i. Gweithio gydag adrannau eraill Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i sicrhau bod Bargeinion Dinesig a Thwf yn cyflawni eu cynlluniau.***

Y Swyddfa sy'n arwain y pedair Bargen Ddinesig a Thwf yng Nghymru ar ran Llywodraeth y DU, ac yn ystod 2021-22 mi wnaeth y Swyddfa weithio'n agos iawn â Llywodraeth Cymru a'n partneriaid rhanbarthol i sicrhau bod y Bargeinion ar y trywydd iawn i fod yn llwyddiannus.

Mi wnaeth Bwrdd Gweithredu y Fargen Ddinesig a Thwf yng Nghymru, sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan uwch swyddogion yn Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru, gyfarfod bob chwarter yn ystod y flwyddyn i adolygu cynnydd pob Bargen yn erbyn cerrig milltir perfformiad ac i nodi'r risgiau allweddol. Ym mhob cyfarfod mi wnaeth partneriaid rhanbarthol o un o'r Bargeinion roi cyflwyniad ar gynnydd y Fargen, gan alluogi trafodaeth ar y prif faterion. Mi wnaeth swyddogion Swyddfa Cymru hefyd gynrychioli Llywodraeth y DU yng nghyfarfodydd rheolaidd byrddau rhaglen bob un o'r Bargeinion.

Hefyd, roedd Swyddogion Swyddfa Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â Swyddfeydd Rheoli Portffolio y rhanbarthau, a hynny yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Mi wnaeth yr ymgysylltiad positif hwn alluogi Tîm Twf Rhanbarthol y Swyddfa i ddatblygu'r berthynas gynyddol lwyddiannus a phositif sydd gennym gyda'n partneriaid rhanbarthol yn ystod y flwyddyn.

**Bargen Ddinesig Bae Abertawe (SBCD)**

Mi wnaeth y Swyddfa weithio gydag adrannau arweiniol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sicrhau y cafwyd cymeradwyaeth Weinidogol ar gyfer pum prosiect yn ystod y flwyddyn. Mae pob prosiect a rhaglen sydd o fewn portffolio SBCD nawr yn y cam cyflawni, a bydd y Gweinidogion yn cymeradwyo'r prosiect olaf ym mis Rhagfyr.

Trwy gydol y flwyddyn mi wnaeth y Swyddfa gefnogi Gweinidog Davies i ymgysylltu â thimau cyflawni a buddiolwyr prosiectau drwy ymweld â'r safleoedd nifer o weithiau a chynnal cyfarfodydd diweddaru (rhithiol ac yn bersonol). Mae'r ymgysylltiad hwn wedi bod yn fodd o feithrin perthynas ac ymdeimlad o ymdrech ar y cyd rhwng y Swyddfa a'n partneriaid rhanbarthol.

Y mis Mawrth, mi wnaeth y Gweinidog roi anerchiad mewn Digwyddiad SBCD a drefnwyd yn Llanelli i ddathlu bod y Fargen wedi cyrraedd y cam cyflawni llawn. Ar yr un diwrnod mi wnaeth y Gweinidog fynychu agoriad Arena Abertawe, sy'n rhan o brosiect Ardal Dinas Abertawe a'r Glannau SBCD. Mae'r arena newydd hwn sy'n arloesol a thrawiadol yn lleoliad i gynnal cyngherddau a digwyddiadau yng nghanol dinas Abertawe, gan greu swyddi a denu pobl i'r ardal.

**Bargen Dwf Gogledd Cymru (NWGD)**

Mi wnaeth y Swyddfa weithio gyda NWGD i gefnogi'r rhanbarth i lunio achosion busnes llawn ar gyfer ei brosiectau sefydledig. Cafodd achos busnes llawn y cyntaf o'r rhain, prosiect Canolfan Prosesu Signalau Digidol, ym Mangor, ei gymeradwyo (gan y rhanbarth) ym mis Rhagfyr. Mae'r gwaith o gaffael offer ar gyfer y prosiect hwn nawr ar y gweill, ac maent yn parhau i weithio tuag at ei gyflawni yn ystod haf 2022.

Mae'r Swyddfa wedi parhau i gefnogi datblygiad achosion busnes prosiectau a rhaglenni eraill o fewn y portffolio, gan ddarparu cyngor a chyfarwyddyd a rhannu arferion da gan fargeinion twf rhanbarthol eraill ar draws y DU.

Ym mis Mai, mi wnaeth y Gweinidog fynychu nifer o safleoedd prosiectau yn y rhanbarth, ac mi wnaeth gyfarfod rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r portffolio yn ffurfiol. Mi wnaeth yr ymweliadau hyn alluogi'r Gweinidog i ddeall yn well dibenion a buddiannau'r prosiectau sy'n ganlyniad uniongyrchol i fuddsoddiad llywodraeth y DU yn y rhanbarth.

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR)

Yn ystod haf 2021, mi wnaeth y Swyddfa weithio gyda phartneriaid rhanbarthol a Thrysorlys EM i ailbroffilio cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer y Fargen Ddinesig. Mae'r ailbroffilio, a gyhoeddwyd yn Adolygiad o Wariant 2021, wedi arwain at gyflymu'r broses o ryddhau cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gyda £105miliwn yn cael ei roi i gefnogi'r rhanbarth i gyflawni ei gynlluniau uchelgeisiol.

Ym mis Mawrth, mi wnaeth CCR gwblhau'r broses o gaffael cyn gorsaf bŵer Aberddawan. Mae CCR wedi ymrwymo i roi £36.4miliwn i'r prosiect, gyda £8miliwn yn cael ei dalu am y safle, a bydd gweddill yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddymchwel, adfer ac ail-ddatblygu'r safle. Mae gan y safle y potensial i greu 5,000 o swyddi yn yr hirdymor fel parc ynni gwyrdd.

Bellach mae Bargen CCR wedi buddsoddi mewn tri ar ddeg o brosiectau a rhaglenni, ac maent i gyd yn cyfrannu tuag at y nod o greu rhanbarth hydwyth, cystadleuol a chysylltiedig ar gyfer y dyfodol.

**Bargen Dwf Canolbarth Cymru (MWGD)**

Mi wnaeth y Swyddfa weithio'n agos â phartneriaid rhanbarthol a Llywodraeth Cymru i allu arwyddo Cytundeb y Fargen Derfynol (FDA) ar gyfer Canolbarth Cymru ym mis Ionawr 2022. Arwyddwyd y FDA mewn digwyddiad rhithiol a fynychwyd gan y Gweinidog Davies, Gweinidog Cymru Gething ac arweinwyr cynghorau Powys a Cheredigion.

Mae arwyddo'r FDA yn galluogi MWGD i ddatblygu'r cynlluniau sydd ganddo ar gyfer rhaglenni a phrosiectau i gyflawni'r buddiannau economaidd a chymdeithasol a amlinellwyd yn y FDA, ac i wreiddio ei strwythurau llywodraethu ar gyfer y Fargen.

Mae MWGD wedi blaenoriaethu pum maes twf strategol ar gyfer eu datblygu o fewn y portffolio; Ymchwil Gymhwysol ac Arloesi, Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod, Digidol, Twristiaeth a Chynorthwyo Menter. Disgwylir i brosiectau o fewn pob un o'r meysydd hyn ddechrau o 2023 ymlaen.

***ii. Hyrwyddo cyfleoedd cyllid ar gyfer twf lleol sy'n hybu swyddi a thwf yng Nghymru a chefnogi cynlluniau'r llywodraeth i godi'r gwastad yng Nghymru***

Yn ystod Cyllideb Mawrth 2021, mi wnaeth Canghellor y Trysorlys gyhoeddi cyfres o raglenni buddsoddi newydd i hyrwyddo twf economaidd a chodi'r gwastad mewn cymunedau ar draws y DU. Roedd y cronfeydd twf lleol hyn yn cynnwys Cronfa Adfywio Cymunedol y DU (UKCRF), Y Gronfa Ffyniant Bro (LUF) a'r Gronfa Perchnogaeth Gymunedol (COF). Mi wnaeth y Swyddfa weithio'n agos ag Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau (DLUHC) ac adrannau eraill y Llywodraeth i gefnogi cyflawniad y cronfeydd newydd hyn ac i sicrhau eu bod yn cyflawni eu hamcanion yng Nghymru.

Yn dilyn lansio'r cronfeydd newydd hyn, mi wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol[1] gynnal cyfres o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Aelodau Seneddol ac arweinwyr awdurdodau lleol i drafod sut ellid mwyhau effaith y llifoedd arian newydd hyn yng Nghymru a sut dylai partïon â diddordeb ymgysylltu â'r broses.

Mi wnaeth y Swyddfa gyfrannu tuag at y gwaith o asesu dros 200 o geisiadau a gafwyd o Gymru ar gyfer rownd gyntaf LUF a COF ac ar gyfer UKCRF. Mi wnaeth y swyddogion asesu addasrwydd strategol a danfonadwyedd pob cais o Gymru fel rhan o broses asesu ledled Whitehall. Cafodd y Swyddfa ei chynrychioli ar fyrddau cyflawni ledled Whitehall ar gyfer y LUF a UKCRF.

Mi wnaeth y Swyddfa adolygu a chyflwyno sylwadau ar 193 o geisiadau UKCRF, 23 o geisiadau LUF a 10 cais COF. Roedd Swyddogion hefyd yn gysylltiedig â'r broses o gymedroli ceisiadau, a gafodd ei wneud yn rhyngadrannol. Roedd yr asesiadau hyn yn fodd o hysbysu Gweinidogion Swyddfa Cymru wrth iddynt asesu cynigion yn y cam llunio rhestr fer derfynol ar gyfer pob un o'r tair cronfa[2]. Mi wnaeth Cymru berfformio'n dda yn y tair cronfa, gan iddi gael mwy na'i chyfran yn ôl poblogaeth o'r cyllid.

---

1 Mae pob cyfeiriad yn yr adroddiad hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cyfeirio at y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS a oedd yn Ysgrifennydd Gwladol i 6 Gorffennaf 2022.

2 Gwnaed y penderfyniadau terfynol ynghylch ceisiadau llwyddiannus UKCRF a COF gan Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Gwnaed y penderfyniadau terfynol ynghylch ceisiadau llwyddiannus LUF gan Weinidogion o DLUHC, DfT a HMT yn unol â phrosbectws LUF. .

| Cronfeydd Twf Lleol - Cymru | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa | Nifer y ceisiadau a adolygwyd | Nifer y ceisiadau llwyddiannus | Gwerth | Cyfran o Gyfanswm y DU |
| UKCRF | 193 | 165 | £46.8 miliwn | 23% |
| LUF Rownd 1 | 23 | 10 | £121 miliwn | 7% |
| COF Rownd1 | 10 | 3 | £460,000 | 9% |

ffynhonnell
https://www.gov.uk/government/publications/levelling-up-fund-first-round-successful-bidders
https://www.gov.uk/government/publications/uk-community-renewal-fund-successful-bids
https://www.gov.uk/guidance/community-ownership-fund-first-round-successful-bidders

Cyhoeddwyd manylion y ceisiadau llwyddiannus ar gyfer pob un o'r cronfeydd ym mis Hydref. Yn dilyn y cyhoeddiad, mi wnaeth y Swyddfa gyfrannu at ymarferion gwersi a ddysgwyd gyda'u cymheiriaid yn DLUHC wrth i ni baratoi ar gyfer ail rownd COF a LUF. Mae Swyddogion yn parhau i weithio'n agos â Thîm Cymru DLUHC i ymgysylltu ag awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyflawni prosiectau llwyddiannus a rhoi adborth ar geisiadau aflwyddiannus.

Mi wnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru ymweld â nifer o brosiectau LUF ac UKCRF llwyddiannus yng Nghymru yn ystod y flwyddyn. Ym mis Hydref, mi wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ymweld â Chanolfan Celfyddydau Muni ym Mhontypridd a gafodd £5.3 miliwn drwy gronfa LUF, a phrosiect gwerth £16.7 miliwn yn Sir Gaerfyrddin lle bydd llwybr cerdded a beicio oddi ar y ffordd o'r radd flaenaf yn cael ei greu.

Ym mis Tachwedd, mi wnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ymweld â Chastell Cyfarthfa ac oriel ddarluniau ym Merthyr Tudful i glywed am y cais UKCRF llwyddiannus ar gyfer y Rhaglen Diwydiant Creadigol a gafodd dros £1 miliwn o arian UKCRF, a Thai Gwydr Cyfarthfa, i drafod mentrau amgylcheddol dan arweiniad y gymuned (rhan o brosiect 'Merthyr Roots') a lwyddodd i sicrhau dros £170,000 o nawdd UKCRF. Mi wnaethant hefyd ymweld â Chanolfan Celfyddydau Muni fel rhan o'u hymgysylltiad ag ardaloedd lleol yng Nghymru.

Ym mis Rhagfyr, mi wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ymweld â safleoedd yng Ngogledd Cymru sydd wedi cael mwy na £13 miliwn o nawdd LUF i hyrwyddo twristiaeth a gwella cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr yn safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr Pontcysyllte yn Nyffryn Dyfrdwy.

Trwy gydol y flwyddyn mae'r Swyddfa wedi parhau i ymgysylltu â chydweithwyr ar draws y Llywodraeth i sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu Cronfa Ffyniant Gyffredinol y DU (UKSPF), yr olynydd domestig i Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop ac elfen graidd o uchelgeisiau ffyniant bro y Llywodraeth. Mi wnaeth Gweinidogion a swyddogion weithio'n agos gyda'u cymheiriaid yn adrannau eraill y llywodraeth i sicrhau bod y Gronfa yn cyflawni ei deilliannau dan sylw i Gymru ac yn symud yn llyfn oddi wrth Cronfeydd Strwythurol UE.

Ym mis Chwefror, mi wnaeth y Swyddfa ymgysylltu'n agos â DLUHC ac adrannau eraill y llywodraeth ar gyhoeddi Cyfarwyddyd Cyn Lansio y UKSPF. Roedd y Cyfarwyddyd Cyn Lansio yn gyhoeddiad allweddol a oedd yn nodi, mewn modd strwythurol, sut fydd y Gronfa yn gweithio, ac yn gweithredu fel rhagflaenydd ar gyfer y prosbectws llawn, a gyhoeddir yn hwyrach yn y flwyddyn.

Mae'r Swyddfa hefyd wedi gweithio'n agos â'r Adran Addysg (DfE) i sicrhau cyflawniad Cynllun Turing yng Nghymru. Cynllun Llywodraeth y DU yw Cynllun Turing i ddarparu nawdd ar gyfer cyfleoedd yn y maes addysg a hyfforddiant ledled y byd fel rhan o agenda Prydain Byd-eang y Llywodraeth, ac mi wnaeth y myfyrwyr cyntaf elwa o'r cynllun peilot ym mis Medi 2021. Yn dilyn y lansiad, mi wnaeth y Swyddfa barhau i weithio i sicrhau bod Cymru'n elwa'n llawn o Gynllun Turing a bod myfyrwyr o Gymru yn gallu gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael.

Yn Adolygiad o Wariant yr Hydref ym mis Hydref 2021, cyhoeddwyd y byddai Banc Busnes Prydain (BBB) yn cael rhagor o nawdd i sefydlu Cronfeydd Buddsoddi Rhanbarthol, a rhoddwyd £130 miliwn i gronfa BBB Cymru. Mi wnaeth y Swyddfa weithio'n agos â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) a'r BBB i sicrhau bod Cymru'n cael swm cymesur o arian er mwyn atgyfnerthu ein hymdrechion i sicrhau bod busnesau bach a chanolig (SMEs) yn gallu cael mynediad ar yr arian sydd ei angen arnynt ar draws y DU. Mae'r Swyddfa yn parhau i weithio'n agos â'r BBB wrth i'r gronfa gael ei datblygu i sicrhau ei bod yn cael ei theilwra i anghenion economaidd Cymru, a gyda'r BEIS wrth iddynt ddatblygu'r cynigion ymhellach.

***iii. Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i Gymru o flaenoriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer masnach a buddsoddiadau tramor***

Drwy gydol y cyfnod adrodd, bu'r Swyddfa'n gweithio'n agos gydag adrannau eraill y Llywodraeth i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n llawn mewn Cytundebau Masnach Rydd (FTAs) a lofnodwyd gan y DU a gwledydd eraill, ac mewn mandadau ar gyfer trafodaethau i gytuno ar FTAs yn y dyfodol.

Roedd gwaith y Swyddfa yn cynnwys:

- Gweithio gyda'r Adran Fasnach Ryngwladol (DIT) i sicrhau bod y mandadau ar gyfer trafodaethau masnach y DU yn gweithio i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys y mandadau ar gyfer trafodaethau gydag UDA, Cyngor Corfforaeth y Gwlff, Canada a Mecsico, a thrafodaethau gydag India, ac i ymuno ag ardal fasnach rydd gydag 11 o wledydd Asia a'r Môr Tawel o'r enw'r Cytundeb Cynhwysfawr a Chynyddol ar gyfer Partneriaeth Traws-Basiffig[3] (CPTPP).

- Gweithio gyda'r DIT i sicrhau bod buddiannau FTAs newydd yn cael eu gwireddu yng Nghymru ac ar gyfer busnesau Cymru, gan gynnwys mwy o gyfleoedd i gael mynediad i'r farchnad gydag Awstralia, Seland Newydd, a chyfleoedd digidol gyda Singapore.

- Hefyd, mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) i ddileu'r rhwystrau ar gyfer mynediad i'r farchnad.

3 . Mae aelodau presennol y CPTPP yn cynnwys Awstralia, Canada, Japan a Seland Newydd.

Mae hyn yn cynnwys yr ymgais lwyddiannus i godi'r gwaharddiad ar fewnforio cig oen o'r DU yn yr Unol Daleithiau, a mynediad di-dariff i symiau penodol o gynhyrchion dur ac alwminiwm i'r Unol Daleithiau, yn dilyn cynnal trafodaethau llwyddiannus ar ddileu'r tollau dial o dan Adran 232 Deddf Ehangu Masnach 1962.

- Mi wnaeth y Swyddfa hefyd hwyluso gwell perthnasau masnach rhwng Cymru a'r Unol Daleithiau, ac mi wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol gynnal digwyddiad yng Nghastell Caerdydd fel rhan o ymweliad Dirprwyaeth Cyngres yr Unol Daleithiau i Gymru ym mis Chwefror.

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn aelod o'r Bwrdd Masnach. Mi wnaeth y Bwrdd gyfarfod tair gwaith yn ystod y flwyddyn adrodd – ym mis Gorffennaf 2021, Tachwedd 2021 a Mawrth 2022 – i drafod materion sy'n ymwneud ag ailymddangosiad y DU fel gwlad fasnachu annibynnol. Mae Gweinidogion y Swyddfa hefyd yn mynychu'r Fforwm Gweinidogol dros Fasnach (MFT), lle mae Gweinidogion y DU a gweinidogion o'r gweinyddiaethau datganoledig yn trafod materion sy'n ymwneud â masnach ryngwladol. Mae'r MFT yn cael ei gefnogi gan grŵp o uwch swyddogion, sy'n cael ei fynychu gan swyddogion y Swyddfa.

Mi wnaeth Gweinidogion y Swyddfa gyfarfod Gweinidogion eraill Llywodraeth y DU ac uwch randdeiliaid o sectorau gwahanol yng Nghymru i ystyried effaith polisi masnach Llywodraeth y DU. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cyfarfodydd gydag undebau'r ffermwyr, sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau a'r diwydiannau modurol, dur ac awyrofod.

Roedd cyfyngiadau COVID-19 yn cyfyngu ar weithgareddau hyrwyddo masnach gartref a thramor, gyda digwyddiadau rhithwir ac ymweliadau Gweinidogol cyfyngedig yn digwydd dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, dechreuodd digwyddiadau hyrwyddo masnach yn bersonol ac yn rhyngwladol unwaith eto.

Mi wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol fynychu Uwchgynhadledd Buddsoddiadau Byd-eang ym mis Hydref 2021 i hyrwyddo popeth sydd gan Gymru i'w gynnig. Mi gynhaliodd cyfres o gyfarfodydd dwyochrog gyda buddsoddwyr presennol ac arfaethedig. Mi wnaeth y Swyddfa hefyd weithio'n agos â DIT i sicrhau bod cyfleoedd yng Nghymru yn cael llwyfan fel rhan o'r digwyddiad.

Ym mis Awst, mi wnaeth y DIT sefydlu tîm ar gyfer Cymru i wella mynediad at wasanaethau DIT i fusnesau ar draws Cymru, yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd yng Nghymru i fuddsoddwyr byd-eang, drwy swyddfeydd DIT ar draws y byd. Mae'r Swyddfa'n gweithio'n agos â thîm DIT Cymru, arweinydd Buddsoddiadau Cyfalaf Cymru a thimau Sector DIT i hyrwyddo cyfleoedd yng Nghymru, gan gynnwys y nwyddau a'r gwasanaethau sydd gan Gymru i'w cynnig i fuddsoddwyr gartref, yn ogystal â chyfleoedd allforio a buddsoddi dramor.

Cafodd y Strategaeth Allforio ei hadnewyddu ym mis Tachwedd 2021. Mae'n nodi sut fydd y Llywodraeth yn cefnogi busnesau i ymateb i gyfleoedd allforio ar draws y byd. Mae'r galluoedd a ddatblygwyd dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gyda chefnogaeth y Swyddfa, wedi golygu bod mwy o gymorth allforio i fusnesau a rhanddeiliaid yng Nghymru. Mae DIT hefyd yn gweithio gyda'u timau Rhanbarthol a

Swyddfeydd Tiriogaethol eraill, sy'n golygu ei bod yn haws cael gafael ar gefnogaeth allforio ar draws y DU.

***Iv Cynorthwyo busnesau ac eraill i ddatblygu a chynnal gweithgareddau a sicrhau buddsoddiadau o fentrau diwydiannau llywodraeth y DU***

Fel y'i nodwyd yn y Cynllun i Gymru, mae'r Swyddfa wedi canolbwyntio ar nifer o brif sectorau i Gymru, gan gynnwys y sector dur, modurol, lled- ddargludyddion cyfansawdd ac amaethyddiaeth.

Mae dur yn parhau i fod yn bwysig i economi Cymru ac yn bwysig yn strategol i'r DU gyfan. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i gefnogi sector dur cynhyrchiol, bywiog a modern yng Nghymru. Gweithiodd y Swyddfa'n agos gyda BEIS a'r diwydiant i sicrhau bod ganddo ddyfodol cynaliadwy. Gan weithio gyda'r diwydiant, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno canllawiau Caffael Cyhoeddus Dur sy'n sicrhau bod y sector cyhoeddus yn ystyried y manteision cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach wrth gaffael ar gyfer prosiectau mawr. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ailymgynnull y Cyngor Dur, y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei fynychu, ac wedi lansio tasglu caffael ar y cyd gydag UK Steel i sicrhau y gallwn barhau â'r berthynas hon.

Ym mis Hydref 2021, mi wnaeth Adolygiad o Wariant yr Hydref lansio Cronfa Fuddsoddi Prydain Byd-eang, cronfa gwerth £1.4 biliwn sy'n cynnwys £465miliwn ar gyfer trydaneiddio cerbydau yn y DU a'u cadwyni cyflenwi. Mae yna nifer o gyfleoedd yng Nghymru ar gyfer y sector modurol fel rhan o ymdrech y Llywodraeth i drydaneiddio cerbydau a symud i Sero Net. Mae'r Swyddfa yn parhau i weithio'n agos â BEIS, DIT a Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cyfleoedd buddsoddi yng Nghymru, fel bod Cymru yn parhau i fod ymysg un o'r lleoliadau mwyaf cystadleuol yn y byd ar gyfer y sector modurol.

Mae'r clwstwr Lled-Ddargludydd Cyfansawdd arloesol yng Nghymru yn parhau i fod yn fantais gymharol i Gymru. Mae'r Swyddfa yn gweithio'n agos â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) i ddatblygu Strategaeth Lled-Ddargludydd Cyfansawdd y DU. Mae hyn yn cynnwys dod â phartneriaid lleol ynghyd, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a rhanbarth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, i ymchwilio i gyfleoedd datblygu yn Ne Cymru.

Mae'r sector amaethyddol yn sector allweddol i Gymru, a hynny'n economaidd ac yn ddiwylliannol. Mae'r Swyddfa wedi parhau i ymgysylltu'n adeiladol drwy'r flwyddyn â chymheiriaid yn DEFRA, a hynny drwy gysylltiadau swyddogol ac ymgysylltiadau â Gweinidogion, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd Grŵp Rhyngweinidogol DEFRA. Mae'r Gweinidogion wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o'r sector yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys undebau'r ffermwyr. Yn anad dim, yn yr Adolygiad o Wariant mi wnaeth Llywodraeth y DU fodloni ymrwymiad y maniffesto i gynnal y gyllideb flynyddol i ffermwyr ym mhob blwyddyn o'r senedd hon.

Mae'r Swyddfa hefyd wedi parhau i weithio'n agos â Chlwstwr Diwydiannol De Cymru wrth iddynt ddatblygu eu strategaeth i ddatgarboneiddio diwydiannau trwm De Cymru, gyda chefnogaeth dros £20 miliwn o nawdd gan Her Datgarboneiddio Diwydiannol UKRI. Mae'r nawdd hwn yn galluogi'r clwstwr i gynllunio cynllun i sicrhau sero net

drwy dechnolegau datgarboneiddio arloesol megis cynhyrchu hydrogen gwyrdd, dal a storio carbon (CCUS) a chludo CO2.

Ym mis Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fod Clwstwr Gogledd Orllewin Hynet wedi'i ddynodi'n llwyddiannus yn glwstwr Trac-1 fel rhan o Broses Dilyniannu Clwstwr CCUS Llywodraeth y DU, yn unol ag ymrwymiad Cynllun 10 Pwynt y Prif Weinidog i ddefnyddio CCUS mewn o leiaf dau glwstwr diwydiannol erbyn canol y 2020au. Mae gan Broses Dilyniannu Clwstwr CCUS £1 biliwn drwy'r Gronfa Seilwaith CCS i gefnogi'r defnydd o CCUS. Bydd y buddsoddiad hwn yn rhoi Gogledd Cymru ymhlith y Lleoliadau Arbennig cynnar posibl a fydd yn cael eu trawsnewid dros y degawd nesaf.

Mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos â Thrysorlys EM (HMT) a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) i fwrw ymlaen ag ymrwymiad y Llywodraeth i sefydlu o leiaf un porthladd rhydd yng Nghymru, gan ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Phorthladdoedd i ddatblygu cynnig porthladd rhydd i Gymru. Bydd porthladdoedd rhydd yn Ganolfannau ar gyfer masnach ryngwladol, arloesi a masnach, gan ddod â busnesau, swyddi a buddsoddiad newydd i adfywio cymunedau ledled y DU.

## *B – Ffyniant Bro yng Nghymru fel rhan o ffyniant bro yn y DU, gyda'r cenadaethau'n cael eu cyflawni yng Nghymru erbyn 2030*

Yn ystod 2021-22 mi wnaeth y Swyddfa gyfrannu at waith traws-lywodraethol i ffurfioli a datblygu polisi ar ffyniant bro a drafftio'r Papur Gwyn Ffyniant Bro, a gyhoeddwyd yn Chwefror 2022.

Ym mis Awst, mi wnaeth y Swyddfa weithio â phartneriaid lleol yng Nghymru i drefnu ymweliad ar gyfer swyddogion o'r Tasglu Ffyniant Bro i gael rhagor o wybodaeth am y gwaith ffyniant bro yng Nghymru. Mi wnaeth y grŵp gynnal sesiynau bord bron, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru, gyda chynrychiolwyr o fusnes yng Nghasnewydd a gyda'r gymuned ehangach a'r sector gwirfoddol yng Nghaerdydd. Hefyd, mi wnaeth cyngor Rhondda Cynon Taf (RCT) gynnal ymweliad grŵp i ymweld â Phenrhys, Tonypandy a Phontypridd, i ddysgu am y gwaith y mae RCT yn ei wneud yn barod i fynd i'r afael ag amddifadedd yn y Rhondda a'r gefnogaeth yr hoffai pobl leol ei chael gan lywodraeth ganolog i ffynnu yn eu cymunedau. Mi wnaeth yr ymweliad helpu i hysbysu gwaith ar y Papur Gwyn Ffyniant Bro.

Mi wnaeth y Swyddfa weithio'n agos â chydweithwyr yn y Tasglu Ffyniant Bro, a DLUHC yn fwy cyffredinol, i sicrhau bod cynnwys y Papur Gwyn Ffyniant Bro yn adlewyrchu buddiannau Cymru, gan gynnwys y cenadaethau ffyniant bro i wella swyddi, incwm, iechyd, sgiliau, trafnidiaeth, balchder, diogelwch a lles ar draws y DU erbyn 2030. Mi wnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru fynychu cyfarfodydd rheolaidd Pwyllgor y Cabinet ar Ffyniant Bro, dan gadeiryddiaeth Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli gan fod y polisi wedi'i benderfynu cyn cyhoeddi'r Papur Gwyn ac oherwydd bod y gwaith cynllunio ar gyfer cyflawni cenadaethau ffyniant bro wedi'i drafod ar ôl cyhoeddi'r Papur.

Bydd cyflawni'r cenadaethau hyn yn gofyn am ymdrech ledled y wlad, a bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda phob haen o'r llywodraeth, y gweinyddiaethau datganoledig, y gymdeithas sifil a'r sector preifat mewn ysbryd o ymdrech ar y cyd. Yn dilyn cyhoeddi'r Papur gwyn, mi wnaeth ein swyddogion weithio'n agos â Thîm Cymru

DLUHC i ddechrau cynnal sgyrsiau am ffyniant bro gyda busnesau a'r gymdeithas sifil yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys cynnal trafodaethau cychwynnol gyda CBI Cymru a Cholegau Cymru, ac mi wnaethant amlygu brwdfrydedd partneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yng Nghymru i gyflawni'r cenadaethau ffyniant bro erbyn 2030.

Ym mis Mawrth 2022, mi wnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru fynychu cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, a sefydlwyd dan y trefniadau newydd ar gyfer perthnasau rhynglywodraethol. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol ac mi wnaeth Prif Weinidog Cymru a Gweinidog Cymru dros y Cyfansoddiad ei fynychu. Roedd y cyfarfod yn gyfle i weinyddiaethau'r DU gael trafodaeth gychwynnol ar y Papur Gwyn Ffyniant Bro a chyflawni'r cenadaethau ffyniant bro ar draws y DU.

## *C – Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i Gymru o safbwynt creu dyfodol gwyrdd a chynaliadwy, sicrhau swyddi a buddsoddiadau wrth i'r DU drawsnewid i economi sero net a sicrhau bod gan Gymru gysylltiadau da yn fewnol a gyda gweddill y DU*

***Sicrhau buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn seilwaith, technoleg ac arloesi***

Rôl y Swyddfa mewn buddsoddi mewn seilwaith yw helpu adrannau Whitehall i ddeall anghenion Cymru a sicrhau eu bod yn cael eu blaenoriaethu'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith ymgysylltu ar seilwaith wedi bod gyda'r Adran Drafnidiaeth (DFT), yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) a'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

**Seilwaith Ynni**

Mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos â phartneriaid lleol a BEIS i gefnogi datblygiad cynhyrchu llif gwynt ar y môr arnofiol yng Nghymru. Mae gan y dechnoleg hon botensial cryf yn nyfroedd Cymru, yn enwedig yn y Môr Celtaidd oddi ar arfordir De-orllewin Cymru a Lloegr lle mae'r gwynt yn gryf ac mae'r moroedd dwfn yn hygyrch o borthladdoedd strategol mawr. Bydd buddsoddi mewn seilwaith porthladdoedd yn allweddol i sicrhau bod Cymru yn manteisio i'r eithaf ar y swyddi a'r cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi y mae llif gwynt ar y môr yn eu cyflwyno. Ym mis Hydref, mi wnaeth Llywodraeth y DU gyhoeddi gwerth £160 miliwn o gyllid newydd i gefnogi porthladdoedd a ffactrïoedd llif gwynt ar y môr ar raddfa fawr ar draws y DU. Mae'r Swyddfa'n parhau i weithio gyda BEIS wrth i'r cyllid hwn gael ei ddatblygu ymhellach i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried, a bod Cymru mewn sefyllfa dda i elwa o'r cyllid hwn.

Yn dilyn cynnal trafodaeth gydag unigolion sy'n gweithio yn y diwydiant, mi wnaeth y Swyddfa weithio gyda BEIS i gryfhau uchelgais Llywodraeth y DU i gyrraedd 5GW o lif gwynt arloesol erbyn 2030, fel y cadarnhawyd yn y Strategaeth Diogelu Ynni yn ddiweddar. Mae'r Swyddfa hefyd yn ymgysylltu ag Ystad y Goron a gyhoeddodd eu cylch prydlesu Môr Celtaidd sydd ar ddod a allai ddod â phrosiectau newydd 4 gigawat ymlaen.

Mae gan Gymru gryfderau a chyfleoedd sylweddol mewn technolegau ynni morol. Mi wnaeth y Swyddfa weithio'n agos â phartneriaid lleol i sicrhau bod gan brosiectau llif llanw, sy'n cael eu datblygu'n barod yng Ngogledd Cymru, gyfle i wneud cais am nawdd Contractau ar gyfer Gwahaniaeth (CfD) Llywodraeth y DU. Ym mis Tachwedd, mi wnaeth Llywodraeth y DU gyhoeddi y bydd yn buddsoddi £20 miliwn y flwyddyn mewn trydan llif llanw fel rhan o gynllun CfD; ei fuddsoddiad mwyaf mewn cenhedlaeth i bŵer llanw. Bydd y buddsoddiad hwn yn datgloi y potensial ar gyfer sector ynni llanw ffyniannus a allai gefnogi cannoedd o swyddi gwyrdd ar draws y Gogledd Cymru. Mi wnaeth Llywodraeth y DU hefyd roi £200 mil i Gyngor Abertawe drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU i gynnal astudiaeth dichonoldeb ar gyfer prosiect morlyn llanw Ynys Ynni'r Ddraig.

Mae gan Gymru safleoedd ardderchog ar gyfer prosiectau niwclear newydd, ac mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos â BEIS i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer ynni niwclear. Mi wnaeth Strategaeth Sero Net Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ym mis Hydref, gyhoeddi manylion Cronfa Galluogi Niwclear y Dyfodol gwerth £120 miliwn i fynd i'r afael â'r rhwystrau i ynni niwclear, gan enwi Wylfa yng Ngogledd Cymru fel safle posibl ar gyfer technoleg niwclear newydd. Ym mis Tachwedd, mi wnaeth Llywodraeth y DU gyhoeddi bod Rolls-Royce SMR wedi llwyddo i sicrhau nawdd o £210 miliwn i ddatblygu ymhellach y cynllun ar gyfer un o ddyluniadau Adweithydd Modiwlaidd Bach (SMR) cyntaf y byd, y gellir ei ddefnyddio o bosibl yn y DU yn gynnar yn y 2030au. Mi wnaeth y Swyddfa chwarae rôl allweddol yn cefnogi BEIS i gynnal trafodaethau ynghylch y cynigion niwclear ar gyfer safleoedd yng Nghymru, fel y cyfeiriwyd atynt yn y Strategaeth Diogelu Ynni. Bydd y Swyddfa yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid lleol ac adrannau eraill y Llywodraeth i hyrwyddo cyfleoedd niwclear yng Nghymru.

Mae'r Swyddfa wedi gweithio â BEIS i gefnogi datblygiad Hwb Hydrogen Caergybi, a fydd yn cael gwerth £4.8 miliwn o nawdd gan Lywodraeth y DU yn amodol ar achos busnes priodol a chymeradwyaethau eraill. Mae'r Hwb yn gobeithio cynhyrchu hydrogen gwyrdd i gyflenwi tanwydd hydrogen i'r marchnadoedd cerbydau nwyddau trwm a morol ar Ynys Môn. Mae'r cynnig yn ceisio manteisio ar waddolion adnoddau naturiol ffafriol yr ardal a'i safle fel coridor trafnidiaeth amlfodd trawsffiniol.

Mae'r Swyddfa hefyd wedi gweithio ar gyfleoedd prosiect sero net eraill dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod Cymru yn y sefyllfa orau ar gyfer sicrhau buddsoddiadau yn y dyfodol.

**Seilwaith trafnidiaeth**

Ym mis Tachwedd 2021, mi wnaeth Syr Peter Hendy gyhoeddi'r adroddiad terfynol fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltedd Trafnidiaeth, i edrych ar gysylltedd trafnidiaeth rhwng Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Yn Adolygiad o Wariant 2021, neilltuwyd £22.5 miliwn yn ychwanegol ar ben yr £20 miliwn a ddarparwyd yn flaenorol i gefnogi datblygiad cynigion yr Adolygiad o Gysylltedd Trafnidiaeth y bydd Cymru yn elwa ohonynt. Yn yr adroddiad terfynol mi wnaeth Syr Peter adnabod tair prif ardal a fyddai'n elwa yng Nghymru, gan gynnwys adolygiad aml-ddull o goridor trafnidiaeth Gogledd Cymru, lliniaru tagfeydd ar goridor yr M4 yn Ne Cymru drwy uwchraddio ac adeiladu gorsafoedd newydd ar Brif Lein De Cymru; a chynyddu cysylltiadau a lleihau amseroedd teithio rhwng Caerdydd, Birmingham a thu hwnt. Mae'r Swyddfa mewn

cysylltiad rheolaidd â DfT ar ymateb y llywodraeth, a fydd gobeithio yn cael ei gyhoeddi yn hwyrach yn y flwyddyn hon.

Mae cynnydd wedi bod o ran uwchraddio'r rheilffyrdd yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r gwaith i uwchraddio Gorsaf Ganolog Caerdydd wedi symud ymlaen i'r cam dylunio, ac mae £5.8 miliwn o'r £58 miliwn o nawdd a neilltuwyd ar gyfer y prosiect hwn wedi'i ryddhau gan Lywodraeth y DU. Mae'r ymdrechion i ail-agor Gorsaf San Clêr yng Ngorllewin Cymru am y tro cyntaf mewn 50 mlynedd yn parhau, ar ôl sicrhau nawdd o £4 miliwn gan Gronfa Gorsafoedd Newydd Llywodraeth y DU. Mae'r Swyddfa mewn cysylltiad rheolaidd â DfT a disgwylir i'r orsaf fod yn barod i groesawu teithwyr yn 2024. Mae'r gwaith i uwchraddio signalau ar y Lein Cambrian yn parhau, ac fe ddisgwylir i'r gwaith adnewyddu ddod i ben yn 2022, yn barod i deithwyr elwa o hyn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Parhaodd y Swyddfa i weithio gyda'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail i ddal i ddatblygu cynigion ar gyfer gwelliannau i reilffyrdd yng Nghymru, yn cynnwys:

- Cynyddu cyflymder llinellau ar reilffordd De Cymru rhwng Caerdydd, Casnewydd a Chyffordd Twnnel Hafren, a fydd yn galluogi gwasanaethau ychwanegol i redeg a gwella amseroedd teithio;

- Lleihau amser teithio ar Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru, drwy gyflymu'r llinellau a rhwng Gogledd Cymru, Gogledd Orllewin Lloegr a chanolfannau mawr eraill yn y DU a gwella cysylltedd â HS2;

- Gwella amser teithio a chapasiti ar lwybr Caerdydd-Abertawe, drwy gymysgedd o welliannau seilwaith ac ymyriadau gwasanaeth.

Mae'r Swyddfa wedi parhau i ymgysylltu â BEIS i ddatblygu'r achos busnes ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd, a fydd yn creu cyfleuster profi trenau o'r radd flaenaf yng Nghymru. Mae'r achos busnes wedi pasio'r cam Achos Busnes Amlinellol ac argymhellwyd ariannu'r prosiect hwn yn Adolygiad o Wariant 2021.

O ran seilwaith ffyrdd, mae'r Swyddfa'n parhau i weithio gyda'r DFT ar ddewisiadau sy'n ymwneud â'r ymrwymiad yn y maniffesto i uwchraddio'r A55, ac uwchraddio ffyrdd trawsffiniol eraill. Mae'r Adolygiad o Gysylltedd yr Undeb hefyd wedi edrych ar ffyrdd trawsffiniol a bydd yn parhau i wneud hynny.

### Seilwaith digidol

Mae'r Papur Gwyn Ffyniant Bro yn ymrwymo i sicrhau bod gan y DU wasanaeth band eang sy'n gallu galluogi gigabit a 4G ledled y wlad, gyda darpariaeth 5G ar gyfer mwyafrif y boblogaeth, erbyn 2030. Disgwylir y bydd gan Gymru ddarpariaeth band eang â gallu gigabit o 70-80% erbyn 2025, a 80% o ddarpariaeth 4G gan bob Gweithredwr Rhwydwaith Symudol erbyn 2026. Mae'r Swyddfa'n parhau i amlygu pwysigrwydd Seilwaith Digidol ar gyfer ffyniant bro yng Nghymru ac mae wedi gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ddatblygu cysylltedd digidol ymhellach yng Nghymru.

O dan elfen ddiwydiannol y rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN) mae rhwydweithiau Three, VMO2 a Vodafone yn gweithio i adnabod 222 o leoliadau newydd ar gyfer mastiau ar draws y DU i wella'r gwasanaeth 4G. Bydd 33 o'r safleoedd hyn yng Nghymru, ac maent yn cynnwys Sir Benfro, Parc Cenedlaethol Eryri, y Bannau Brycheiniog a Phowys. Mae EE hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau i ehangu 4G i dros 2000 o ardaloedd ar draws y DU erbyn Mehefin 2024, ac mae 123 ohonynt yng Nghymru. Mae'r Swyddfa mewn cysylltiad rheolaidd â phob gweithredydd rhwydweithiau symudol sy'n ymwneud â'r rhaglen i ddeall y cynnydd maent yn ei wneud a'r heriau maent yn eu hwynebu. Mae'r Swyddfa hefyd wedi ymgysylltu â DCMS/BDUK ynghylch elfen Gwasanaeth Ardal Estynedig (EAS) o'r SRN a fydd yn gwella'r gwasanaeth 4G sydd ar gael mewn rhannau o Gymru sy'n anodd eu cyrraedd lle nad oes dim signal ar hyn o bryd. Yng Nghymru, mae yna 86 o ardaloedd EAS sy'n cael eu hystyried yn rhanbarthau Dyfed Powys, Gwent, a Gogledd Cymru, ac mae gwaith yn cael ei wneud i alluogi actifadu'r safleoedd ar gyfer cysylltedd masnachol yn 2023. Mae DCMS/BDUK yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref a'r gweithredwyr rhwydweithiau symudol i hwyluso 10 safle peilot EAS/SRN, a bydd 4 o'r rhain yng Nghymru i brofi prosesau cyflawni.

O safbwynt Prosiect Gigabit gwerth £5 biliwn Llywodraeth y DU, ym mis Mehefin 2021 mi wnaeth ymarfer modelu Llywodraeth y DU adnabod hyd at 234,000 o gartrefi a busnesau yng Nghymru sydd yng nghwmpas Prosiect Gigabit. Mi wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r farchnad agored (OMR) ym mis Medi 2021 i gadarnhau'r ffigurau hyn. Bydd darganfyddiadau'r OMR hwn nawr yn ddarostyngedig i adborth drwy Adolygiad Cyhoeddus i gadarnhau'r cartrefi a'r busnesau sydd yng nghwmpas y prosiect yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2022, cwblhawyd prosiect a oedd yn cysylltu dros 600 o adeiladau'r sector cyhoeddus yng Nghymru i fand-eang gigabit dan y rhaglen Rhwydweithiau Ffibr Llawn Lleol. Roedd hyn yn cynnwys 323 o adeiladau yng Ngogledd Cymru, 166 yng Nghaerdydd, 68 yn Sir Benfro a 77 mewn ardaloedd gwledig eraill.

Ym mis Rhagfyr 2021, roedd 2180 o dalebau gwerth £5.4miliwn wedi'u rhoi i helpu cymunedau yn y rhannau o Gymru sy'n anodd eu cyrraedd drwy Gynllun Talebau Gigabit Prosiect Gigabit y DU. Mae hyn ar ben y 1960 o dalebau, gwerth £5.16miliwn, a oedd wedi'u defnyddio'n barod i gysylltu cartrefi a busnesau yng Nghymru.

### Arloesi

Yn ystod y flwyddyn mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos ag Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) i sicrhau bod arbenigedd Cymru'n cael ei gydnabod, a bod cyllid ar gael i brosiectau cymwys. Er enghraifft, rhoddwyd buddsoddiad o £108.8 miliwn i ariannu 121 o brosiectau sy'n unigryw i Gymru drwy Gronfa Her y Strategaeth Ddiwydiannol. Mae hyn yn cynnwys £36 miliwn ar gyfer Canolfan Adeiladu Gweithredol yn Abertawe a £1.7 miliwn ar gyfer 'cyffuriau byw' a grëwyd gan TrakCel yng Nghaerdydd. Bydd y cyllid hwn yn helpu i ddod â gwaith ymchwil yn fyw a datblygu cymwysiadau byd-real. Cafodd £22 miliwn ei fuddsoddi hefyd yn Media.Cymru drwy 2il Don Cronfa Cryfder mewn Lleoedd.

Ym mis Hydref 2021 yn Adolygiad o Wariant yr Hydref, mi wnaeth y Llywodraeth gyhoeddi y gwelir cynnydd mewn buddsoddiad cyhoeddus mewn ymchwil a datblygu i £20 biliwn erbyn 2024-25 (gan gynnwys cyllid ar gyfer rhaglenni'r UE), i adeiladu tuag at y targed o gynyddu buddsoddiad cyhoeddus mewn ymchwil a datblygu i £22 biliwn

erbyn 2026-27 ac ymchwil a datblygu economi gyfan i 2.4% o'r Cynnyrch Domestig Gros erbyn 2027. Yn dilyn o hyn, roedd ymrwymiadau yn y papur gwyn ffyniant bro yn nodi ymhellach gynlluniau'r Llywodraeth, gyda chymhelliant i gynyddu buddsoddiad cyhoeddus domestig mewn ymchwil a datblygu y tu allan i'r De Ddwyrain Fwyaf o leiaf 40%, a thros gyfnod yr Adolygiad o Wariant gan o leiaf draean. Mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos ag arweinwyr Cymru yn Innovate UK a'r Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol, i sicrhau bod y cynnydd yn y cyllid arloesi sy'n dod i Gymru yn gymesur.

## *Blaenoriaeth 2 – Cryfhau ac amddiffyn yr Undeb a rôl Cymru oddi fewn iddo.*

***Hyrwyddo safle Cymru o fewn y DU drwy sicrhau bod Cymru yn manteisio i'r eithaf ar ei lle o fewn yr Undeb***

Mae'r Swyddfa wedi gweithio i sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn ganolog i strategaeth Undeb Llywodraeth y DU ac wedi darparu llais cryf i Gymru yn Whitehall. Mae Gweinidogion a swyddogion wedi gweithio'n agos â'u cymheiriaid i ddatblygu llifau gwaith ar yr Undeb.

Yn benodol, drwy'r cyfnod adrodd mi wnaeth y Swyddfa barhau i gefnogi Swyddfa'r Cabinet gyda'i gwaith i adfywio'r strwythurau sy'n llywodraethu perthynas Llywodraeth y DU â'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Yn dilyn dod i gytundeb â'r Gweinyddiaethau Datganoledig, cafodd yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol (IGR) ei gytuno ar y cyd gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig ym mis Ionawr 2022.[4]

Erbyn hyn mae Llywodraeth y DU wedi dechrau ymgysylltu â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar sail canlyniadau'r Adolygiad. Mae'r Adolygiad hwn yn pennu strwythurau newydd sy'n seiliedig ar y tair haen ganlynol o ymgysylltiad gweinidogol:

- Cyngor newydd, a gadeirir gan y Prif Weinidog ac sy'n cynnwys Penaethiaid y Llywodraethau Datganoledig, i oruchwylio a chryfhau'r berthynas rhwng holl Lywodraethau'r DU;

- Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (IMSC) i ystyried materion sydd â goblygiadau pellach i'r berthynas rhwng y llywodraethau, gan gynnwys materion trawsbynciol. Mae Aelodaeth o'r IMSC yn cynnwys gweinidogion cysylltiadau rhynglywodraethol perthnasol o bob llywodraeth a gellir gwahodd gweinidogion o adrannau eraill i fynychu. Mi wnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru fynychu cyfarfod cyntaf yr IMSC ar y 23ain o Fawrth, lle trafodwyd y dull o ymdrin â deddfwriaeth y DU, y sefyllfa yn yr Wcráin a goblygiadau domestig i'r DU, a'r Papur Gwyn Ffyniant Bro.[5] Mae'r haen hon hefyd yn cynnwys IMSC Cyllid i ystyried materion ariannol, a'r opsiwn i ffurfio pwyllgorau am gyfnodau penodol i drafod materion penodol;

4 Mae'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ar gael yma: Review of intergovernmental relations - GOV.UK (www.gov.uk).
5 Mae trawsgrifiad o gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar gael yma: Interministerial Standing Committee Communiqué: 23 March 2022 - GOV.UK (www.gov.uk).

- Ymgysylltiad ar lefel portffolio ynghylch meysydd o gyd-ddiddordeb drwy'r Grwpiau Rhyngweinidogol (IMGs). Mae'r IMGs yn cael eu harwain gan adrannau unigol ac maent yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion polisi sydd o fewn portffolio gweinidogol neu adrannol adran benodol. Er bod y grwpiau hyn yn ceisio cyfarfod yn rheolaidd bob chwarter, efallai y byddai'n fwy priodol mewn rhai meysydd i'r ymgysylltiad ddigwydd yn llai aml neu ar fformat arall. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol a'i dîm o Weinidogion yn mynychu cyfarfodydd IMG lle bo hynny'n briodol. Er enghraifft, mi wnaeth Gweinidog Davies fynychu pob un o'r pedwar o gyfarfodydd a gynhaliwyd gan IMG yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn 2021/22.

Manylir ar y dull strwythuredig hwn o ymgysylltu rhwng y gweinyddiaethau yn adroddiadau tryloywder chwarterol a blynyddol Llywodraeth y DU ar gysylltiadau rhynglywodraethol.[6] Hefyd fe gynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng Swyddfa Cymru a Gweinidogion Llywodraeth Cymru i drafod materion o gyd-ddiddordeb.

Ym mis Tachwedd mi wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol fynychu 36ain Uwchgynhadledd Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd. Trafodwyd amrywiaeth o faterion yn y cyfarfod gan gynnwys ieithoedd lleiafrifol a'r polisi blynyddoedd cynnar, COP 26 a phandemig COVID-19.

**Sicrhau bod setliad datganoli Cymru yn gweithredu'n effeithiol**

Mi chwaraeodd y Swyddfa ran flaenllaw yn cefnogi rhaglen ddeddfwriaethol y llywodraeth yn ail sesiwn y Senedd hon, gan iddi weithio'n agos a Thimau Bil adrannol ar ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar Gymru. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi ymgysylltiadau rhwng Timau Bil a Llywodraeth Cymru, wrth i Lywodraeth y DU geisio cydsyniad y Senedd ar ddarpariaethau mewn Biliau amrywiol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd cynigion cydsyniad deddfwriaethol eu cymeradwyo ar gyfer darpariaethau mewn 10 Bil yr oedd Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad y Senedd iddynt, gan gynnwys Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, y Bil Iechyd a Gofal a Bil yr Amgylchedd.

Fodd bynnag, roedd yna ddau Fil na chafodd gydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd yn ystod y cyfnod hwn - y Bil Cymwysterau Proffesiynol a'r Bil Rheoli Cymorthdaliadau. O ran y ddau Fil hwn mi wnaeth Llywodraeth y DU weithio'n adeiladol â Llywodraeth Cymru a chynnal ymgysylltiadau ystyrlon gyda swyddogion a Gweinidogion. Arweiniodd yr ymgysylltiad hwn at Lywodraeth y DU yn cyflwyno diwygiadau i'r biliau i leddfu pryderon Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mi wnaeth y Llywodraeth ychwanegu darpariaeth i'r Bil Cymwysterau Proffesiynol i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gan ddileu'r gofyniad bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cytundeb Llywodraeth y DU i ddileu'r pwerau cydamserol yn y Bil. Fodd bynnag, er gwaetha'r ymgysylltiad hwn ni ddaethpwyd i gytundeb ac mi wnaeth y Senedd wrthod roi cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil Cymwysterau Proffesiynol a'r Bil Rheoli Cymorthdaliadau ar yr 16eg o Chwefror a'r 1af o Fawrth yn ôl eu trefn. Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i weithio'n agos â Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau datganoledig eraill ar weithrediad y ddwy gyfundrefn.

---

6 Mae dolenni i'r adroddiadau chwarterol a blynyddol ar gael yma: Intergovernmental relations - GOV.UK (www.gov.uk)

Ym mis Ebrill 2021, mi wnaeth yr Uchel Lys wrthod cais Llywodraeth Cymru am adolygiad barnwrol o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020. Mi wnaeth Llywodraeth Cymru apelio yn erbyn y penderfyniad hwn, ac mi wnaeth y Llys Apêl ategu penderfyniad yr Uchel Lys ym mis Chwefror 2022. Mae Llywodraeth y DU yn gwrthod honiadau Llywodraeth Cymru yn daer, ac mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i baratoi ein hymateb.

**Deddf Cymru 2014**

Ym mis Mai 2021 mi wnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyflwyno gerbron y Senedd y seithfed adroddiad, sef yr adroddiad terfynol, ar weithredu'r darpariaethau cyllidol yn Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014, yn unol â'r gofynion riportio fel y'u nodwyd yn Adran 23 y Ddeddf.

**Dadlau'r achos dros yr Undeb**

Ym mis Hydref mi wnaeth Llywodraeth Cymru sefydlu'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru i ystyried a datblygu opsiynau ar gyfer diwygio strwythurau cyfansoddiadol y DU a chryfhau democratiaeth Cymru.  Ym mis Mawrth 2022, mi wnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Gweinidog Ffyniant Bro, yr Undeb a'r Cyfansoddiad roi tystiolaeth i'r Comisiwn, yn dadlau'r achos dros yr Undeb a'r gwaith rhynglywodraethol positif sy'n cael ei wneud rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

***Cefnogi buddiannau diwylliannol Cymru yng Nghymru, yn y DU ac yn fyd-eang***

Mae'r Swyddfa yn cefnogi'r uchelgais i sicrhau un miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy annog unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws Llywodraeth y DU. Mae'r Swyddfa wedi cydweithio â Gwasanaeth Sifil Lleol i lansio Rhwydwaith Iaith Gymraeg ar gyfer gweision sifil sy'n siarad Cymraeg. Pwrpas y Rhwydwaith yw hwyluso hyfforddiant ychwanegol a chyfleoedd i rwydweithio i swyddogion sy'n siarad Cymraeg. Hefyd, mae'r Swyddfa yn parhau i ddatblygu ei Fforwm Iaith Gymraeg; platfform a fydd yn ceisio gwella cysondeb danfoniad gwasanaethau Cymraeg ar draws Llywodraeth y DU. Ymhellach, mi wnaeth y Swyddfa symud yn swyddogol i Tŷ William Morgan – swyddfeydd newydd Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd – ym mis Gorffennaf 2021. Mi wnaeth y Swyddfa sicrhau bod arwyddion allanol a mewnol yr adeilad yn ddwyieithog a gwarantu bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) wedi ymrwymo i gyflogi derbynwyr dwyieithog i sicrhau bod modd i ymwelwyr gael eu cyfarch yn eu dewis iaith.

Fel yr unig ddarlledwr iaith Gymraeg, mae'r Swyddfa yn cydnabod pwysigrwydd S4C i bobl a diwylliant Cymru. Mi wnaeth y Swyddfa weithio'n agos â DCMS a S4C i sicrhau canlyniad cadarnhaol i S4C yn y setliad i ffi'r drwydded. Mae'r setliad yn golygu y bydd S4C yn cael £88.8 miliwn y flwyddyn am y ddwy flynedd gyntaf, ac yna bydd hyn yn cynyddu gyda chwyddiant, ac mae hefyd yn cynnwys ymrwymiad newydd o £7.5 miliwn bob blwyddyn i gefnogi datblygiadau digidol S4C.

Mae'r Swyddfa hefyd wedi cefnogi cystadleuaeth Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 drwy annog pob awdurdod lleol yng Nghymru i gymryd rhan. Cawsom gynrychiolaeth gref o ar draws Cymru, a chafwyd mynegiannau o ddiddordeb gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Powys, Cyngor Dinas Casnewydd,

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Dinas Bangor. Ers hynny mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cyrraedd y rhestr fer gyda Bradford, County Durham a Southampton. Rhoddodd y Swyddfa adborth ar gryfder a hyfywdra cais Wrecsam fel rhan o'r broses i lunio'r rhestr fer. Rydym hefyd yn parhau i ymgysylltu â DCMS ynghylch Unboxed: Creadigrwydd yn y DU ac yn adolygu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiadau gweinidogol yn y digwyddiadau rhaglen yng Nghymru.

Fel rhan o'r Rhaglen Cyfleusterau Aml-Chwaraeon ar Lawr Gwlad, roedd £1.3 miliwn ar gael i wella cyfleusterau pêl-droed ar lawr gwlad yng Nghymru yn ystod 2021/22. Mi wnaeth y Swyddfa weithio'n agos â DCMS a Chymdeithas Bêl-droed Cymru (FAW) i ariannu 17 o brosiectau ar draws Cymru. Mi wnaeth yr FAW sifftio'r ceisiadau ar gyfer nawdd i ddechrau gan ystyried meini prawf a gytunwyd arnynt, gan gynnwys gwasanaethu ardaloedd difreintiedig, cynyddu faint o ferched a genethod sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, chwaraewyr o leiafrifoedd ethnig a chwaraewyr anabl, a cheisiadau a oedd yn cynnwys manteision aml-chwaraeon. Rhoddodd Swyddfa Cymru adborth ar asesiad cychwynnol yr FAW ac ystyried ffactorau ehangach megis cronfeydd ffyniant bro a lledaeniad daearyddol y nawdd.

*Cefnogi cyfraniad y Lluoedd Arfog yng Nghymru*

Mae'r Swyddfa wedi parhau i weithio â'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) ar eu hymrwymiad i gynnal presenoldeb cryf y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Ym mis Tachwedd, mi wnaeth yr MoD gadarnhau y bydd Gwarchodlu Dragŵn y Frenhines yn dychwelyd i Gymru. Bydd y Gwarchodlu yn un o ddwy uned Rheolaidd fydd wedi'i lleoli yng Nghaerwent yn Sir Fynwy. Hefyd bydd uned Wrth Gefn wedi'i lleoli yn Wrecsam. Bydd y penderfyniadau hyn yn golygu y bydd presenoldeb Y Fyddin yng Nghymru yn cynyddu o 6.7% i 7.3%.

Yn ystod y cyfnod riportio llwyddodd y Swyddfa i sicrhau nawdd ar gyfer swydd Comisiynydd Cyn-filwyr i Gymru. Nod strategol gyffredinol y Comisiynydd fydd gwella deilliannau i gyn-filwyr, eu teuluoedd a theuluoedd y Lluoedd Arfog ar draws Cymru. Mi wnaeth y Swyddfa gyhoeddi enw'r ymgeisydd llwyddiannus – Cyrnol James Phillips – ar ddydd Gŵyl Dewi, a bydd yn dechrau yn y swydd ym mis Mehefin 2022.

Mi wnaeth y Swyddfa hefyd ymuno a helpu i greu ar ran Llywodraeth y DU grŵp cydgysylltu cyfathrebiadau ar gyfer cyn-filwyr, i sicrhau bod Swyddfeydd Tiriogaethol a Swyddfa Materion Cyn-filwyr yn cydweithredu'n effeithiol i ddathlu cyfraniad cyn-filwyr i gymdeithas, ble bynnag maent yn dewis setlo yn y DU.

## *Blaenoriaeth 3 – Cynyddu amlygrwydd ymrwymiad Llywodraeth y DU i Gymru*

*Cryfhau presenoldeb Llywodraeth y DU yng Nghymru a gwella ei hamlygrwydd*

Mae'r Rhaglen Places for Growth yn gyfrifol am wireddu ymrwymiad y Llywodraeth i symud 22,000 o swyddi'r gwasanaeth sifil o Lundain Fwyaf erbyn 2030. Mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos â'r Tîm Places for Growth yn Swyddfa'r Cabinet ac adrannau Llywodraeth y DU i sicrhau bod ganddynt bresenoldeb cryf yng Nghymru.

Yng Ngorffennaf, mi wnaeth Swyddfa Cymru symud yn swyddogol i'w gartref newydd yng Nghaerdydd, ar unfed llawr ar ddeg swyddfeydd newydd Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd – Tŷ William Morgan. Bellach mae'r mwyafrif o staff Swyddfa Cymru wedi'u lleoli yn yr adeilad hwn. Mae'r gofod hwn yn darparu amgylchedd swyddfa modern yng nghanol Caerdydd sy'n galluogi staff i weithio gyda chydweithwyr o amrywiaeth eang o adrannau Llywodraeth y DU ar bolisïau a rhaglenni sy'n berthnasol i Gymru.

Mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos â Swyddfa'r Cabinet, sydd â chyfrifoldeb am y rhaglen Places for Growth, ac adrannau unigol i'w hannog i leoli swyddi yn Nhŷ William Morgan. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cefnogi Llywodraeth y DU i sefydlu Tîm Cymru DLUHC, Canolfan Masnach a Buddsoddi Cymru y DIT ac adleoli swyddi DCMS yn y swyddfa yng Nghaerdydd. Ym mis Chwefror mi wnaeth y Llywodraeth gyhoeddi y bydd tua 500 o swyddi anweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael eu hail-leoli yng Nghymru mewn lleoliadau amrywiol gan gynnwys Caerdydd, Abertawe a Wrecsam erbyn 2030.

***Mwyhau amlygrwydd gwariant Llywodraeth y DU yng Nghymru a manteision a chanlyniadau'r gwariant hwn***

Yn ystod y flwyddyn mi wnaeth y Swyddfa gefnogi buddsoddiadau Llywodraeth y DU yng Nghymru drwy weithio ag amrywiaeth o adrannau. Mae Swyddfa Cymru yn arwain ar fuddsoddiadau Llywodraeth y DU yn y pedair bargen ddinesig a thwf yng Nghymru, gan gynnwys £53 miliwn yn 2021-22

Mi wnaethom weithio'n agos â DLUHC ar fuddsoddiad Llywodraeth y DU mewn cronfeydd twf lleol yng Nghymru. Roedd y gwaith hwn yn llwyddiannus iawn gan iddo arwain at sicrhau buddsoddiadau gan Lywodraeth y DU yng Nghymru, gyda £121 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn 10 prosiect y Gronfa Ffyniant Bro, £46 miliwn mewn dros 160 o brosiectau Cronfa Adfywio Cymunedol y DU a £464,000 mewn tri phrosiect Y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol ar draws Cymru. Cafodd nawdd Llywodraeth y DU ar gyfer y prosiectau twf lleol hyn ei roi yn uniongyrchol i awdurdodau lleol yng Nghymru gan ddefnyddio'r pŵer cymorth ariannol dan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020.

Mae amlygrwydd ac ymwybyddiaeth y cyhoedd yng Nghymru o'r buddsoddiad hwn yn cael ei hyrwyddo drwy'r brand dwyieithog Ffyniant Bro / Levelling Up a drwy gyfres o ymweliadau gan Weinidogion i weld sut mae'r prosiectau'n dod yn eu blaen, gan ganolbwyntio ar fanteision y buddsoddiadau yn yr hirdymor o ran swyddi a thwf economaidd. Er enghraifft, mi wnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru ymweld â phrosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro yn Wrecsam, Sir Gaerfyrddin a Rhondda Cynon Taf yn ystod y flwyddyn i dynnu sylw at fuddsoddiad cyfalaf Llywodraeth y DU mewn amrywiaeth o fentrau.

Mi wnaeth swyddogion Swyddfa Cymru gyfarfod partneriaid lleol allweddol yng Nghymru yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys prif weithredwyr awdurdodau lleol, cynrychiolwyr o sefydliadau busnes ac arweinyddion yn y sector cymunedol a'r sector gwirfoddol yng Nghymru, i drafod blaenoriaethau strategol a buddsoddiadau Llywodraeth y DU yng Nghymru a sut all y sectorau unigol gymryd rhan yn eu cyflwyno.

Mi wnaeth y Swyddfa weithio gydag adrannau eraill y Llywodraeth i ddefnyddio pŵer cymorth ariannol Deddf 2020 i ddarparu nawdd yn uniongyrchol i awdurdodau lleol

Cymru ar gyfer nifer o gynlluniau pwrpasol. Er enghraifft, mi wnaethom weithio gyda'r Adran Addysg i roi nawdd i Gyngor Dinas Caerdydd drwy Gynllun Grant Adsefydlu Affganistan (Addysg). Mae'r nawdd hwn wedi galluogi Cyngor Dinas Caerdydd i ddarparu gwasanaethau addysgol i blant sy'n cyrraedd o Affganistan sy'n byw mewn llety dros dro.

Mi wnaethom hefyd gyfrannu at ymgyrch DU-gyfan Cysylltiadau. Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol oedd hon i dynnu sylw at fanteision yr Undeb. Roedd yn cynnwys astudiaethau achos ar draws Cymru dan nifer o themâu gwahanol, gan gynnwys busnes ac arloesi a bwyd a diod. Mi wnaeth ein harbenigedd helpu i hyrwyddo'r ymgyrch ac mi gafodd ymateb positif ar draws y sianeli cymdeithasol amrywiol ledled y DU.

*Cynyddu amlygrwydd a dylanwad Gweinidogion a pholisïau Llywodraeth y DU yng Nghymru*

Mi wnaeth y Swyddfa weithio ag adrannau ar draws Whitehall i gydlynu ymweliadau i Gymru gan Weinidogion Llywodraeth y DU. Fel rhan o'r gwaith hwn mi wnaethom weithio â Rhif 10 Stryd Downing a Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod amrywiaeth o Weinidogion Llywodraeth y DU gyda phortffolios amrywiol yn cynnal ymweliadau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Mi wnaeth yr ymweliadau dynnu sylw at fuddsoddiadau Llywodraeth y DU yng Nghymru a cheisio sicrhau bod manteision bod yn rhan o'r Undeb yn glir, yn weladwy ac yn fwy dealladwy. Yn ystod y flwyddyn mi wnaeth Gweinidogion ymweld â'r canlynol:

- Mi wnaeth y Prif Weinidog ymweld â Gogledd Cymru ym mis Ionawr i weld prosiectau ffyniant bro. Fel rhan o'r ymweliad cafodd daith o amgylch Hanson UK ym Mhenmaenmawr a Pharc Eco Orthios yng Nghaergybi;

- Mi wnaeth Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ymweld â Merthyr Tudful a Phontypridd ym mis Tachwedd i weld prosiectau a ariennir gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU a'r Gronfa Ffyniant Bro;

- Mi wnaeth y cyn Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth leol ymweld â Threorci ac Abertawe ym mis Mehefin. Yn Abertawe, gwelodd y Gweinidog y cynnydd sy'n cael ei wneud ar y datblygiad Bae Copr Cam, sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

Mi wnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru ymuno â'r Gweinidogion ar bob un o'r ymweliadau hyn.

Mi wnaeth Ysgrifenyddion Gwladol hefyd ymweld â Chymru i ddysgu mwy am wasanaethau cyhoeddus neilltuol sy'n rhan o'u portffolio. Er enghraifft, mi wnaeth Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Droseddu a Phlismona ymweld â Phencadlys Heddlu Dyfed Powys yng Nghaerfyrddin ym mis Gorffennaf i drafod troseddau cefn gwlad gyda Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys.

Mi wnaeth y Swyddfa weithio i sicrhau bod yr ymweliadau hyn yn cael sylw positif yn y cyfryngau ar draws pob math o sianelau.

Mi roedd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn fwy gweladwy yn y cyfryngau. Ym mis Ionawr mi wnaeth ymddangos ar raglen deledu 'Question Time'. Mi wnaeth hefyd roi cyfweliadau, am y tro cyntaf, ar gyfryngau'r bore gan ymddangos ar 'Good Morning Britain', 'LBC', 'Sky News', 'Times Radio' a 'Talk Radio'. Mi wnaeth hefyd gynnal cyfweliadau gyda phapurau newydd cenedlaethol, gan gynnwys 'The Times', a nifer o bodlediadau.

Mi wnaeth y Swyddfa benodi Golygydd Cyfryngau Cymdeithasol a Gwasanaethau Digidol gyda sgiliau penodol ac arbenigedd yn y byd digidol. Mi wnaethom hefyd lunio strategaeth ddigidol i ymestyn ein hymgysylltiad ar draws y platfformau amrywiol ac i gynyddu ein gwelededd. Fel rhan o'n gwaith digidol mi wnaethom greu cynnwys cyfryngau cymdeithasol pwrpasol ar gyfer ni ein hunain, gan gynnwys creu astudiaethau achos a oedd yn dangos yn ymarferol manteision buddsoddiadau Llywodraeth y DU ar gyfer swyddi a thwf economaidd yng Nghymru.

Mi wnaethom barhau i ddatblygu ein presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol drwy gydol o flwyddyn, ac mi wnaeth cam cyntaf ein gwaith arwain at 7,000 yn fwy o ddefnyddwyr yn dilyn cyfrif Twitter y Swyddfa.

Mi wnaeth sicrhau sylw rheolaidd i bolisïau a chyflawniadau Llywodraeth y DU yn yr iaith Gymraeg barhau i fod yn flaenoriaeth, ac mi wnaethom weithio'n agos â'r cyfryngau iaith Gymraeg i sicrhau bod yr Is-ysgrifennydd Gwladol, sy'n siarad Cymraeg, ar gael i gynnal y cyfweliadau hyn. Ar gyfartaledd, ymddangosodd naill ai ar y radio neu'r teledu unwaith bob pythefnos yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys i drafod Cyllideb yr Hydref a'r Adolygiad o Wariant ym mis Hydref a'r Papur Gwyn Ffyniant Bro ym mis Chwefror. Cynhaliodd y Gweinidog hefyd sawl trafodaeth banel yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

## *Ymateb i COVID-19*

Mi wnaeth y Swyddfa chwarae rhan flaenllaw drwy gydol y flwyddyn i gefnogi Cymru yn ei brwydr yn erbyn COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda Thrysorlys EM i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru lefel ddigonol o arian i arwain yr ymateb i'r pandemig yng Nghymru, gweithio gyda'r DHSC a'r Tasglu Brechlynnau i gefnogi'r gwaith o roi brechlynnau yng Nghymru a gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i ddarparu cefnogaeth gan y Lluoedd Arfog i wasanaethau iechyd rheng flaen yng Nghymru.

Yn 2021-22, rhoddodd Llywodraeth y DU £4.2 biliwn o gyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru i'w chefnogi yn ei brwydr yn erbyn COVID-19 yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys arian ychwanegol a gafwyd ym mis Rhagfyr 2021 mewn ymateb i ledaeniad yr amrywiolyn Omicron.[7]

Mi wnaeth y Swyddfa barhau i weithio ag adrannau eraill Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, a phartneriaid ar draws Cymru ar amrywiaeth eang o faterion a oedd yn ymwneud â'r ymateb i COVID-19 yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys:

7 Latest figures detail UK Government's record funding of £18 billion a year for the Welsh Government - GOV.UK (www.gov.uk)

- Gweithio i sicrhau bod Cymru'n elwa o gapasiti caffael a phŵer prynu Llywodraeth y DU. Er enghraifft, wrth sicrhau bod Cymru yn cael cyflenwad digonol o'r brechlynnau er mwyn gallu ymateb yn brydlon i'r rhaglen brechu COVID-19;

- Gweithio'n agos ag adrannau eraill Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gydlynu ymateb y DU i COVID-19. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol a'i Dîm Gweinidogol yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd o Bwyllgor y Cabinet ar Weithrediadau COVID-19, a oedd yn gyfrifol am weithredu'r polisi a'r ymateb gweithredol i COVID-19. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn rhan o'r cyfarfodydd wythnosol rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig a oedd yn cael eu cadeirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol[8]. Roedd y cyfarfodydd hyn yn fodd o alluogi pedair gweinyddiaeth y DU i gydlynu eu hymatebion unigol i'r firws;

- Gan weithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn, cymeradwyo ceisiadau gan Lywodraeth Cymru am gymorth gan luoedd arfog y DU i ddarparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Disgrifir rôl y Swyddfa yn cymeradwyo ceisiadau, drwy'r broses Cymorth Milwrol i Awdurdodau Sifilaidd (neu MACA) yn fanylach yn nes ymlaen;

- Rhoi cyngor ac arweiniad i fusnesau, pobl hunangyflogedig ac aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru ar amrywiaeth eang o gyfyngiadau COVID-19 a chael mynediad at gynlluniau cymorth Llywodraeth y DU ar gyfer busnesau a gweithwyr – er enghraifft Y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) a gostiodd £1.045 biliwn i Lywodraeth y DU yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth am gefnogaeth Llywodraeth y DU yng Nghymru drwy SEISS a'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (ffyrlo), a ddaeth ill dau i ben ym mis Medi, ar gael yn Nhabl 1 isod;

- Rhoi gwybod i ASau am waith y Swyddfa ar yr ymateb i Covid-19. Cynhaliodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyfarfodydd rheolaidd ag ASau sy'n cynrychioli etholaethau Cymru ar yr ymateb i COVID-19 a llawer o faterion eraill. Rhoddodd dystiolaeth hefyd i'r Pwyllgor Materion Cymreig bum gwaith yn ystod 2021-22 ar ymateb y Llywodraeth i COVID-19 ac amrywiaeth o faterion eraill. Rhoddodd Gweinidog Davies dystiolaeth i'r pwyllgor ar dri achlysur arall.

8 Mi wnaeth Yr Ysgrifennydd Gwladol Gove hefyd gadeirio'r cyfarfodydd hyn yn ei swydd flaenorol fel Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn.

| Tabl 1: Cynlluniau Cymorth COVID-19 Llywodraeth y DU yng Nghymru (ers dechrau'r pandemig) | |
|---|---|
| **Cynllun** | **Cefnogaeth yng Nghymru** |
| Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (Ffyrlo) | 474,600 o swyddi |
| Y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy gyfnod Coronafeirws (SEISS) | 418,000 o hawliadau |

**ffynhonnell**
https://www.gov.uk/government/statistics/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-16-december-2021/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-16-december-2021#furlough-by-country-and-region
https://www.gov.uk/government/statistics/self-employment-income-support-scheme-statistics-december-2021/self-employment-income-support-scheme-statistics-december-2021

**Yr ymateb i COVID-19: Cymorth Lluoedd Arfog y DU yng Nghymru**

- *Cymorth Milwrol i'r Awdurdodau Sifil* (MACA) yw'r term torfol a ddefnyddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn a gweinyddiaethau'r DU yn fwy cyffredinol i ddisgrifio'r defnydd o luoedd arfog y DU i gefnogi awdurdodau sifil.
- Mae MACA wedi cael ei ddefnyddio yn ystod COVID-19 i ddefnyddio Lluoedd Arfog y DU i gefnogi'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.
- Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cymeradwyo pob cais MACA gan Lywodraeth Cymru – gan weithio'n agos â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn a Gweinidog y Lluoedd Arfog wrth wneud hynny. Yn 2021-22, cymeradwyodd yr holl geisiadau o fewn 24 awr ar ôl eu cael.
- Yn ystod 2021-22, trefnwyd bod hyd at 313 o bersonél milwrol ar gael i gefnogi Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mi wnaeth y cymorth hwn helpu i leddfu pwysau digynsail o ganlyniad i'r pandemig a sicrhau bod WAST yn parhau i ddarparu eu gwasanaeth hanfodol, gan gynnwys mynychu galwadau lle mae bywyd yn y fantol. Cafodd y gefnogaeth hon ei chwtogi'n raddol a daeth i ben ddiwedd mis Mawrth.
- Ym mis Rhagfyr 2021, trefnwyd bod 91 o bersonél y Lluoedd Arfog ar gael i gefnogi rhaglen atgyfnerthu brechlyn Covid-19 yng Nghymru. Anfonwyd personél i bob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru, gan gefnogi'r ymdrechion i gyflymu'r broses o gyflwyno'r brechlyn yng nghanol ton o heintiau Omicron. Daeth y dasg hon i ben ym mis Chwefror.
- Mae proses MACA yn enghraifft wych o sut mae bod yn rhan o'r Deyrnas Unedig wedi bod o fudd uniongyrchol i Gymru drwy bandemig COVID-19.

## *Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tomenni Glo*

Mae'r Swyddfa wedi parhau i weithio law yn llaw â Llywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn adrodd ar fater sensitif cynnal a chadw ac adfer tomenni glo yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gynnal ac adfer tomenni glo, ond mae glo yn ehangach yn faes sydd wedi'i gadw'n ôl. Cynhaliodd Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod Glo a phartneriaid lleol uwchgynhadledd diogelwch glo i adolygu'r

gwaith a wnaed gan y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo. Cafodd y Tasglu ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn sgil tirlithriad Pendyrus ym mis Chwefror 2020 i arwain y gwaith ar ddiogelwch tomenni glo.

## *Cyllid a Llywodraethu*

Mae pum egwyddor effeithlonrwydd a llywodraethu corfforaethol da yn sail i gyflawni ein tair blaenoriaeth strategol. Y rhain yw:-

- darparu gwerth am arian a rheoli costau yn effeithiol;
- sicrhau rheolaeth ariannol dda, gan ymateb yn gywir ac yn brydlon i ohebiaeth;
- cynnal gweithlu cymwys, llawn cymhelliant;
- rheoli gwybodaeth yn effeithiol; a
- creu amgylchedd gwaith dymunol.

Rydym yn rhoi'r egwyddorion hyn ar waith wrth gyflawni ein prif weithgareddau corfforaethol.

*Cyllid*

Gosodwyd cyllideb 2021-22 yr Adran yng Nghylch Gwario 2020.

O'r £20.869 biliwn o setliad Cymru, roedd dyraniad y Swyddfa ar gyfer 2021-22 tua £6 miliwn, a wariwyd yn bennaf ar staff a swyddfeydd, a chyfrifoldebau Adrannol eraill fel ad-daliadau i Arglwydd Raglawiaid Cymru. Dyrannwyd gweddill y setliad (£20.863 biliwn) i Gronfa Gyfunol Cymru.

Y Swyddfa sy'n trefnu trosglwyddo taliadau grant i Gronfa Gyfunol Cymru ond mater i Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru yw sut yn union y caiff yr arian hwnnw ei wario ac ar beth. Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i Senedd Cymru am ei defnydd o adnoddau ac Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am archwilio'r adnoddau hynny.

*Effeithlonrwydd*

Er mwyn helpu i gyflawni amcanion a heriau'r Adran, mae'r Swyddfa'n parhau i reoli ei gwaith yn effeithlon ac yn effeithiol, yn unol ag egwyddorion llywodraethu da a darparu gwerth am arian i'r trethdalwr.

Mae'r Swyddfa wedi ymrwymo'n llwyr i rannu gwasanaethau ac arbenigedd gyda'r Swyddfeydd Tiriogaethol eraill ac adrannau Llywodraeth y DU lle bynnag y bo modd, gyda'r bwriad o fanteisio ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael i sicrhau arbedion effeithlonrwydd lle bo modd a chryfhau cydnerthedd. Rydym yn parhau i ddefnyddio ein gwasanaethau a rennir presennol yn llawn gyda'r Swyddfeydd Tiriogaethol. Ar hyn o bryd rydym yn rhannu tîm seneddol a chynghorydd diogelwch gyda'r Swyddfeydd Tiriogaethol eraill a gwasanaeth ceisiadau rhyddid gwybodaeth gyda Swyddfa Gogledd Iwerddon, ac rydym yn cydgyfnerthu ymhellach y timau cyllid a rennir rhwng Swyddfeydd Cymru a'r Alban.

O ran swyddfeydd, mae gan yr Adran denantiaid (Arglwydd Raglawiaeth Llundain a'r Comisiwn Annibynnol ar gyfer Effaith Cymorth) yn ein swyddfa yn Llundain a gynhyrchodd incwm rhent o £99 mil i'r Adran yn 2021-22 ac sy'n gwneud defnydd mwy effeithlon o'n swyddfeydd.

Yn Haf 2021, mi wnaeth y Swyddfa symud ei swyddfa yng Nghaerdydd o Fae Caerdydd i swyddfeydd newydd Llywodraeth y DU yng nghanol Caerdydd.

Fel Adran fach, mae gan y Swyddfa agwedd gost-effeithiol a phragmatig tuag at ddarparu ein gwasanaethau corfforaethol mewnol, gan gynnal trefniadau fframwaith a chontractau presennol y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn meysydd fel diogelwch, rheoli cyfleusterau, TG a gwasanaethau ariannol. Mae'r trefniadau a'r contractau hyn yn sicrhau manteision sylweddol i'r Adran o ran arbedion maint ac arbenigedd i'r Adran.

*Rhwymedigaethau Pensiwn*

Mae manylion sut mae rhwymedigaethau pensiwn yn cael eu trin yng nghyfrifon y Swyddfa yn cael eu datgelu yn yr Adroddiad Tâl a Staff ac yn nodyn polisi Cyfrifyddu 1.9.

*Tryloywder*

Mae tryloywder, atebolrwydd a bod yn agored wrth wraidd gwerthoedd craidd y Swyddfa. Daliwyd ati i gyhoeddi llawer iawn o wybodaeth ar gov.uk, gan gynnwys:

- gwariant dros £500;
- rhoddion a roddwyd ac a gafwyd gan Weinidogion (a chan yr Ymgynghorwyr Arbennig);
- Teithiau tramor Gweinidogion; a
- lletygarwch a gafwyd gan Weinidogion a'r Ymgynghorwyr Arbennig.

Yn ystod 2021-22 deliwyd â 100 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth fel y nodir isod.

| Disgrifiad | Nifer 2021-22 | Nifer 2020-21 |
|---|---|---|
| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gafwyd,<br>O blith y rhain: | 100 | 101 |
| Atebwyd o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn estyniad a ganiateir | 98 (98%) | 100 (99%) |
| Gofynnwyd am adolygiad Mewnol o'n hatebion | 5 | 1 |
| Cyfeiriwyd yr ateb gan y sawl a wnaeth y cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth | 1 | 0 |

Mae ein perfformiad Seneddol yn ystod 2021 – 22 yn cael ei grynhoi isod:

| Math o Gwestiwn | Rhif 2021-22 | Rhif 2020-21 |
|---|---|---|
| Dyddiad trafod | 18 | 31 |
| Ymatebwyd i ymatebion y Diwrnod a Enwir yn brydlon (targed 100%) | 16 (89%) | 31 (100%) |
| Cyffredinol | 102 | 80 |
| Ymatebodd ymatebion cyffredin yn brydlon (targed 100%) | 101 (99%) | 80 (100%) |

Dyma fanylion ein perfformiad o ran delio â gohebiaeth yn ystod 2021-22:

| Targed | 2021-22 % | 2020-21 % |
|---|---|---|
| Ymdriniwyd â 100% o'r ohebiaeth o fewn 15 diwrnod | 97% | 97% |

*Rhoddion Gwleidyddol ac Elusennol*

Ni wnaeth y Swyddfa unrhyw roddion gwleidyddol nac elusennol yn 2021-22. (2020-21 Dim).

*Gwrth-Dwyll a Mynegi Pryder (Chwythu'r Chwiban)*

Mae gan y Swyddfa drefniadau cadarn ar gyfer atal a datrys twyll ac mae wedi ymrwymo i'r safonau uchaf posibl o ran bod yn agored, gonestrwydd ac atebolrwydd. Mae ein trefniadau'n dilyn yr egwyddorion a amlinellir ym Mholisi Rheoli Arian Cyhoeddus a Pholisi Chwythu'r Chwiban Gweithwyr y Gwasanaeth Sifil.

Ni chafodd unrhyw achosion o dwyll na chwythu'r chwiban eu riportio yn ystod y cyfnod adrodd. (2020-21 Dim).

*Swyddfeydd a Gwaith Cyfalaf*

Prif swyddfa'r Adran yw Tŷ Gwydyr, yn Whitehall, a oedd yn wreiddiol yn dŷ tref Sioraidd, ac sy'n adeilad rhestredig Gradd II*. Ar y 1af o Ebrill 2021, mi wnaeth y Swyddfa drosglwyddo perchnogaeth Tŷ Gwydyr i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA). Roedd y trosglwyddiad hwn yn rhan o raglen ehangach y Llywodraeth.

Rydym yn cael ein cyngor a'n cymorth proffesiynol gan dîm ystadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a GPA, i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu statudol a'n bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, treftadaeth ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall. Mae gennym raglen dreigl o waith cynnal a chadw ar waith yn Nhŷ Gwydyr sy'n cydnabod ei statws a'i ofynion arbennig, ac rydym yn ymdrechu'n barhaus i ddarparu amgylchedd gwaith diogel i'n staff, ein Gweinidogion a'n hymwelwyr.

At hynny, mae'r Adran hefyd yn rhentu gofod swyddfa (sy'n lleoliad gwaith tua 49% o'n staff yng Nghymru), yn swyddfeydd newydd Llywodraeth y DU yng nghanol Caerdydd.

Mae ein dwy swyddfa yn bodloni gofynion y Ddeddf Anableddau.

*Iechyd a Diogelwch*

Mae'r Swyddfa'n cydnabod ei dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod cyfundrefn iechyd a diogelwch effeithiol yn cael ei datblygu.

Yn ystod 2021-22, ni reportiwyd unrhyw ddamweiniau i'r awdurdodau perthnasol (2020-21 Dim).

*Cyfyngiadau Covid-19*

Parhaodd y Swyddfa i ddilyn cyfyngiadau COVID-19 yn y gweithle drwy gydol 2021-22, gan nodi'r amrywiadau mewn cyfyngiadau rhwng Cymru a Lloegr a'r newidiadau iddynt yn ystod y flwyddyn.

Mi wnaeth ein staff weithio gartref am gyfnodau amrywiol yn ystod y flwyddyn gan adlewyrchu llanw a thrai cyfyngiadau'r pandemig. Mi wnaethom ddiwygio eich cyfarwyddiadau i staff yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Yn y gweithle, mi wnaethom barhau i geisio osgoi defnyddio desgiau cyfagos, a darparu hylifau glanhau dwylo ac arwyddion clir i leihau'r risgiau i'n staff.

Parhaodd y Swyddfa i alluogi'r staff i brynu offer megis cadeiriau, monitorau a chlustffonau fel eu bod yn fwy cyfforddus pan yn gweithio gartref, a chafodd ein systemau TG eu huwchraddio (a ddarparwyd gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder) i hwyluso cyfathrebiadau rhith.

Mi wnaethom reoli yn ofalus dychweliad graddol i'n Swyddfa yn Llundain yn chwarter cyntaf 2022 wrth i'r cyfyngiadau ddechrau cael eu llacio yn Lloegr.

Dilynodd staff sy'n gweithio yn ein swyddfa yng Nghaerdydd ganllawiau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Covid-19, gan gynnwys canllawiau yn ymwneud â gweithio yn y swyddfa. Roedd ein staff sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn gweithio gartref yn gyffredinol drwy gydol y flwyddyn adrodd ac yn gweithio yn y swyddfa dim ond pan oedd canllawiau'n caniatáu a bod angen busnes clir i wneud hynny.

*Gweithio Mewn Ffyrdd Clyfrach*

Ym mis Mawrth 2022, dyfarnwyd achrediad Gweithio Mewn Ffyrdd Clyfrach i'r Swyddfa. Rhaglen gan y Gwasanaeth Sifil yw Gweithio Mewn Ffyrdd Clyfrach i ddatblygu ffyrdd modern o weithio. Byddwn yn adeiladu ar ein achrediad i ddod yn sefydliad Gweithio Mewn Ffyrdd Clyfrach aeddfed erbyn diwedd 2022.

# Datblygu Cynaliadwy

Paratowyd yr adroddiad datblygu cynaliadwy hwn yn unol â chanllawiau 2021–22 a osodwyd gan Drysorlys EM yn 'Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting' sydd i'w weld yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1030665/Sustainability_Reporting_Guidance_2021-22.pdf

Mae'r ffocws ar gyflawni targedau'r Llywodraeth, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a lleihau costau. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys lleihau allyriadau carbon, defnyddio llai o ddŵr ac anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi.

Lleolir yr Adran yn Nhŷ Gwydyr yn Llundain. Mae hefyd yn rhentu gofod yn Swyddfeydd Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd ond ni roddir cyfrif am swyddi a rennir oherwydd cyfyngiadau allosod data cynaliadwyedd dibynadwy o daliadau gwasanaeth a ddarperir gan landlordiaid.

Nid yw'r Swyddfa'n adrodd ar warchod yr amgylchedd a chyfrifoldeb cymdeithasol gan nad yw gwaith a chylch gorchwyl y Swyddfeydd yn cwmpasu'r maes polisi hwn.

***Llywodraethu, cyfrifoldebau a sicrwydd mewnol***

Adolygir perfformiad amgylcheddol y Swyddfa o bryd i'w gilydd.

***Ymrwymiadau ar Effeithiau Amgylcheddol***

Mae Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth, a lansiwyd ar y 1af o Ebrill 2011, yn ei gwneud yn ofynnol i Adrannau gymryd camau i leihau'r effaith ar yr amgylchedd yn sylweddol. Gellir gweld yr ymrwymiadau hyn yma:

https://www.gov.uk/Government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/585344/greening-Government-commitments-overview-reporting-requirements-2016-2020.pdf

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n rheoli Ymrwymiad Lleihau Carbon yr Adran. Mae'r Swyddfa wedi ymrwymo i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd drwy:

a. gynyddu'r amrediad o eitemau y gellir eu casglu i'w hailgylchu yn ein dau adeilad;

b. newid peiriannau argraffu am fodelau sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon; a

c. lle bo'n bosibl, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na cheir pan fo'n rhaid teithio i gyfarfodydd.

| | Tunelli Allyriadau $CO_2$ | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
| Teithio mewn Awyren | 36.01 | 31.42 | 49.65 | 0.00 | 0.00 |
| Teithio ar Drén | 15.56 | 16.29 | 11.98 | 1.33 | 3.42 |
| Millitiroedd mewn Ceur | 1.92 | 2.34 | 1.92 | 2.06 | 1.46 |
| Gwresogi Nwy | 23.59 | 19.7 | 13.4 | 11.14 | 14.08 |
| Trydan* | 26.68 | 23.42 | 11.1 | 10.2 | 2.89 |
| Gwastraff | 0.11 | 0.04 | 0.01 | 0.10 | 0.08 |
| Cyfanswm Tunelli $CO_2$ | 103.87 | 93.21 | 88.06 | 24.83 | 21.93 |
| Defnyddio Dwr Metrau Ciwbig** | 385 | 212 | 427 | 505 | 252 |

* Mae'r ffactor trosi CO2 ar gyfer trydan wedi gostwng yn 2019 oherwydd gostyngiad mewn defnyddio glo i gynhyrchu trydan a chynnydd mewn cynhyrchu ynni drwy ddulliau adnewyddadwy.

** Mae'r defnydd o ddŵr yn 2021-22 yn seiliedig ar ddarlleniadau amcanol o'r mesurydd.

Pan fydd y Swyddfa'n defnyddio gwasanaethau a gyflenwir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth neu dan gontract iddynt, mae ein cyfraniad i ymrwymiadau'r Llywodraeth ar effaith ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn cael ei fodloni o fewn y fframweithiau ehangach hynny.

## Adolygiad Ariannol

Yn ystod 2021-22, gwariodd y Swyddfa £19.9 biliwn o fewn Amcangyfrifon o'r Cyflenwad Seneddol (Amcangyfrif Atodol), yn bennaf fel grant i Gronfa Gyfunol Cymru.

*Perfformiad ariannol*

Mi wnaeth y Senedd bleidleisio ar gyllid i adrannau ar ddau achlysur yn ystod y flwyddyn drwy Brif Amcangyfrif ar ddechrau'r flwyddyn ac Amcangyfrif Sengl Atodol ym mis Chwefror 2022.

*Symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer Amcangyfrif yn ystod 2021–22*

Ar ddechrau'r flwyddyn, pleidleisiwyd i roi £20.4 biliwn i'r Adran yn ei Phrif Amcangyfrif. Erbyn yr Amcangyfrif Sengl Atodol terfynol, roedd hyn wedi cynyddu i £20.9 biliwn, yn bennaf oherwydd cynnydd o £551 miliwn yn y cyllid ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru (WCF).

*Eglurhad o'r amrywiadau rhwng yr Amcangyfrif a'r Alldro Adnoddau Net*

*Adnoddau Swyddfa Cymru*

| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant yr Adran | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrifiad % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 5,964 | 6,363 | 399 | 6% |

Mae'r tanwariant o £0.399 miliwn yn erbyn yr Amcangyfrif o'r Cyflenwad i'w briodoli'n bennaf i'r costau is nas disgwyliwyd ar gyfer symud y Swyddfa yng Nghaerdydd i swyddfeydd newydd Llywodraeth y DU yng nghanol y Ddinas a gadael yr hen swyddfa; oedi anochel wrth recriwtio staff newydd yn ystod y flwyddyn, a chostau teithio is oherwydd pandemig COVID-19.

*Swyddfa Cymru - Cyfalaf*

| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant yr Adran | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrifiad % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 0 | 30 | 30 | 0 |

Mi wnaeth y Swyddfa unrhyw bryniannau cyfalaf yn ystod 2021-22

*Costau Anghyllidebol*

| Gwariant o fewn Terfynau Anghyllidebol | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrifiad % |
|---|---|---|---|---|---|
| C | Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru (WCF) | 17,878,273 | 18,799,126 | 920,853 | 5% |
| D | *Tâl dros Gyfraddau Treth Incwm Cymru i'r WCF | 2,064,061 | 2,064.061 | 0 | 0 |
| | Cyfanswm i WCF | 19,942,334 | 20,863,187 | 920,853 | 5% |

Ar y 6ed o Ebrill 2019, cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru (WRIT) yng Nghymru. Caiff derbyniadau o WRIT eu hychwanegu at Grant Bloc Cymru.

*Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru*

Mae'r swm o £921 miliwn a ddisgrifiwyd fel tanwariant yn y grant sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru yn dynodi'r swm o arian parod na wnaeth Llywodraeth Cymru ei wario yn 2021-22. Cyfrifoldeb Swyddfa Cymru yw trosglwyddo arian o'r Gronfa Gyfunol i Gronfa Gyfunol Cymru yn fisol, a sicrhau nad yw Llywodraeth Cymru yn gwario unrhyw arian cyn bod angen gwneud hynny. Mi wnaeth y Swyddfa drosglwyddo pob

swm o arian i Gronfa Gyfunol Cymru fel y gofynnwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae gwybodaeth ar wir wariant Llywodraeth Cymru ar adnoddau i'w chael yng nghyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru a chyfrifon ei gyrff hyd braich. Mae'r Swyddfa yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian yn cael ei drosglwyddo'n briodol a bod y trosglwyddiadau'n cael eu cofnodi'n gywir yn ein cyfrifon. Cyfrifoldeb Senedd Cymru yw penderfynu sut caiff yr arian ei wario a chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw rhoi cyfrif am y gwariant.

***Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol***

Gwerth yr asedau net ar 31 Mawrth 2022 yw £-0.466 miliwn (2020-21 £4.1miliwn). Y rheswm am y symudiad sylweddol yn y sefyllfa net yw bod y Swyddfa ar 1 Ebrill 2021 wedi trosglwyddo ei Swyddfa yn Llundain, Tŷ Gwydyr i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (gwerth llyfr net o £5m). Nid yw'r trosglwyddiad asedau yn cael unrhyw effaith ar gyllideb Swyddfa Cymru, gyda'r trosglwyddiad yn cael ei drin fel grant cyfalaf mewn nwyddau (treuliau) a gwarediad cyfalaf (incwm). Gweler SOPS 1.2 a Nodyn 2 SOPS.

Dyma'r balansau sylweddol ar y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:-

- Eiddo, offer a chyfarpar £0.106 miliwn – Yn bennaf, mae hyn yn cynnwys offer a chyfarpar a dodrefn a gosodiadau yn y swyddfa yn Llundain; ac;

- Asedau a Rhwymedigaethau Ariannol. Mae £67.6 miliwn yn fenthyciadau a roddwyd gan y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol (NLF) i Lywodraeth Cymru. Mae symiau llog a thaliadau cyfalaf yr NLF yn cael eu cydbwyso â symiau cyfatebol mewn symiau derbyniadwy a symiau taladwy.

*Cysoni gwariant adnoddau net rhwng Amcangyfrifon, cyllidebau a chyfrifon*

| | 2021-22<br>£000 | 2020-21<br>£000 |
|---|---:|---:|
| **Alldro Adnoddau Net (Amcangyfrifon)** | **19,947,995** | **21,804,947** |
| Addasiadau i dynnu eitemau anghyllidebol* | (19.942,334) | (21,800,257) |
| **Cyfanswm Alldro Cyllideb Adnoddau** | **5,661** | **4,690** |
| O'r rhain | | |
| Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) | 5,964 | 4,682 |
| Terfyn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)* | (303) | 8 |
| | | |
| Mae'r addasiadau'n cynnwys | | |
| Eitemau Anghyllidebol** | 19,942,334 | 21,800,257 |
| Grant Cyfalaf mewn nwyddau*** | 5,000 | 0 |
| **Cost Gweithredu Net (Cyfrifon)** | **19,952,995** | **21,804,947** |

Nodiadau

* Mae AME yn ymwneud â newidiadau mewn darpariaethau (gweler nodyn 10) ac ailbrisiad ar i lawr o asedau sy'n eiddo offer a chyfarpar (gweler nodyn 2).

** Eitemau anghyllidebol yw'r Grant sy'n Daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru a Thâl dros Gyfraddau Treth Incwm Cymru i'r Gronfa Gyfunol. Gweler y Datganiad Cyflenwad Seneddol SOPS1

*** Cyllidebir ar gyfer grantiau cyfalaf fel CDEL ond cyfrifir amdanynt fel gwariant ar wyneb y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, ac felly maent yn gweithredu fel eitem gysoni rhwng gwariant Adnoddau a gwariant gweithredu net. Rhoddwyd grant cyfalaf o £5 miliwn mewn nwyddau i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA) ar ffurf trosglwyddo tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol. Ar y 1af o Ebrill, trosglwyddwyd perchnogaeth Swyddfa Llundain, Tŷ Gwydyr, i'r GPA.



**Glynne Jones CBE**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**11 Gorffennaf 2022**

# 2 Yr Adroddiad Atebolrwydd

## Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwr

## Gweinidogion, Cyfarwyddwyr ac Uwch-swyddogion

| Gweinidogion/Cyfarwyddwyr/Uwch-swyddogion |
|---|
| **Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS**<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| **David TC Davies AS**<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru |
| **Alison White** – Aelod Arweiniol Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM) |
| **Alun Evans CBE** – Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM) |
| **Glynne Jones CBE** – Cyfarwyddwr |
| **Geth Williams** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Undebol a Chorfforaethol |
| **Sarah Jennings** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat |
| **Louise Parry a Kate Starkey** – Dirprwy Gyfarwyddwr ar y Cyd, Polisi |
| **Dafydd Jones** – Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebiadau |
| **Matt Rigg*** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfreithiol |

**Nodiadau**

* Mae Matt Rigg yn cael ei gyflogi gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth (GLD). Mae'n aelod o Uwch Dîm Arwain y Swyddfa ond nid yw'n aelod o'r Bwrdd Adrannol.

Roedd gan y Swyddfa ddau aelod anweithredol o'r bwrdd (NEBM) – Alison White (aelod arweiniol NEBM) ac Alun Evans (NEBM). Mae manylion holl bwyllgorau'r Swyddfa a'u haelodaeth yn y "Datganiad Llywodraethu" (Tudalen 38-42).

*Diogelwch a diogelwch gwybodaeth*

Nid yw'r Swyddfa'n ymdrin â llawer iawn o ddata sensitif neu bersonol, ond serch hynny mae wedi ymrwymo i sicrhau bod yr wybodaeth y mae'n ei dal yn cael ei thrin a'i diogelu'n gywir a'n bod yn cydymffurfio â'r safonau priodol.

Mae asedau a risgiau gwybodaeth yn cael eu nodi ac mae rheolaethau ar waith i reoli eu defnydd, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Rydym yn defnyddio pecyn hyfforddi

a ddarperir drwy *Civil Service Learning* (CSL) i hyfforddi'r holl staff yn flynyddol mewn materion sy'n ymwneud â sicrwydd gwybodaeth a thrin data.

Cafodd un digwyddiad diogelwch ei riportio yn ystod 2021-22. (2020-21 Dim). Collwyd gliniadur a ffôn symudol. Roedd yr eitemau wedi'u hamgryptio ac nid oeddynt yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol na sensitif. Cynhaliwyd ymchwiliad llawn i'r digwyddiad a chymerwyd camau gweithredu priodol.

# Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 (GRAA), mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Swyddfa Cymru i baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n nodi'r adnoddau a gafwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr Adran yn ystod y flwyddyn. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Swyddfa a'i hincwm a'i gwariant, ei Datganiad o Sefyllfa Ariannol a'i llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol:

- Glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu priodol mewn ffordd gyson;

- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

- Datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon;

- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a

- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EM wedi penodi Glynne Jones, Cyfarwyddwr y Swyddfa yn Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Cymru.

Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, sy'n cynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Swyddfa, wedi'u nodi yn *Managing Public* Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

## Datganiad ar ddatgelu gwybodaeth archwilio berthnasol

Paratowyd Cyfrifon y Swyddfa ar sail statudol yn unol â gofynion Trysorlys EM a dynodir eu bod yn cydymffurfio â Chyfarwyddiadau Cyfrifon cyffredinol a roddir i adrannau gan Drysorlys EM dan adran 5 (2) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Archwilir y datganiadau ariannol gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol, a benodir mewn statud ac sy'n adrodd i'r Senedd ar yr archwiliad archwilio. Datgelir taliadau a threuliau'r archwilwyr yn Nodyn 2 ar y cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn adrodd ni wnaed unrhyw daliad i'r archwilwyr am waith nad oedd yn ymwneud ag archwilio (2020-21 £Dim).

Hyd eithaf gwybodaeth y Swyddog Cyfrifyddu/Cyfarwyddwr, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Swyddfa yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Swyddfa yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu/Cyfarwyddwr drwy hyn yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol dros yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

# Datganiad Llywodraethu

## *Cyflwyniad*

Fel Cyfarwyddwr y Swyddfa, fi hefyd yw'r Swyddog Cyfrifyddu (AO). Yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn fy llythyr penodi, ac fel y nodir yn *Managing Public Money*, fi sy'n gyfrifol am lywodraethiant y Swyddfa.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol i'r Senedd am stiwardiaeth yr adnoddau sydd o fewn rheolaeth y Swyddfa ac am eu rheoli, ac rwyf hefyd yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaethau mewnol.

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r Swyddfa a sut y mae'n atebol i'r Senedd. Mae'n ymdrin â'r broses a ddefnyddir gan Weinidogion ac uwch reolwyr i fonitro'r gwaith o gyflawni ei hamcanion ac yn ystyried a yw gweithgareddau'r Swyddfa wedi arwain at gyflawni canlyniadau priodol a chost-effeithiol.

Mae Datganiad Llywodraethu'r Swyddfa yn nodi'r strwythurau llywodraethu, y rheolaethau mewnol a'r gweithdrefnau rheoli risg sydd wedi bod ar waith yn y Swyddfa yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-22 a hyd at ddyddiad cyflwyno'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol yn y Senedd.

## *Cyfrifoldebau Gweinidogol*

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rhoi cyfarwyddyd gwleidyddol i'r Swyddfa ac mae'n atebol i'r Senedd. Fe'i gefnogir gan Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, a Barwnes Breswyl (Chwip y Llywodraeth) yn Nhŷ'r Arglwyddi a chan dîm bychan o weision sifil dan arweiniad Cyfarwyddwr y Swyddfa.

Mae Gweinidogion yn arwain adrannau ac yn gyfrifol ac yn atebol i'r Senedd am weithredoedd a pholisïau eu hadrannau. Mae byrddau, o fewn y fframwaith strategol a bennir gan Weinidogion, yn cefnogi pennaeth yr Adran drwy gynghori Gweinidogion a rhoi cyngor am berfformiad yr Adran. Gweinidogion ac aelodau'r bwrdd sy'n gyfrifol am lywodraethiant corfforaethol yr Adran, sy'n diffinio hawliau a chyfrifoldebau gwahanol randdeiliaid, pennu rheolau a gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau, a'r broses a ddefnyddir i osod a monitro amcanion yr Adran.

## *Strwythurau Llywodraethu Corfforaethol*

Goruchwylir y gwaith o reoli'r Swyddfa gan y Bwrdd Adrannol a sefydlwyd ym mis Medi 2015 ac mae'n cyfarfod hyd at chwe gwaith mewn blwyddyn ariannol. Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Cyfarwyddwr mewn cyfarfodydd lle nad yw Gweinidogion yn bresennol.

Mae'r Bwrdd Adrannol yn gyfrifol am ddarparu cyngor ar gyfeiriad strategol y Swyddfa (nodau ac amcanion) yn unol â pholisïau a bennir gan Weinidogion, craffu ar y cynllun

busnes a sicrhau bod gan y swyddfa'r capasiti a'r gallu i gyflawni'r cynllun busnes, er mwyn diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.

Mae'r Bwrdd yn cefnogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni ei gyfrifoldebau i'r Senedd. Dangosir y manylion am aelodaeth y Bwrdd isod.

Yn 2021-22, adolygodd y Bwrdd gynnydd perfformiad, blaenoriaethau strategol ac amcanion y Swyddfa, gan gytuno ar ddiweddariadau a monitro'r cynnydd hwnnw.

Mae'r Cod Ymarfer Da ar gyfer llywodraethu corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog (2017) yn nodi y dylid cynnal gwerthusiadau effeithiolrwydd o fyrddau adrannau yn flynyddol, dan arweiniad Aelod Arweiniol Anweithredol o'r Bwrdd a dylai'r rhain gael mewnbwn annibynnol o leiaf unwaith bob tair blynedd.

Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Adran gan yr Aelod Arweiniol Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM) ym mis Mawrth 2022. Manylwyd ar ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw mewn adroddiad ar wahân a rannwyd â holl Aelodau'r Bwrdd. Y darganfyddiadau oedd bod y Bwrdd wedi parhau i wella ei effeithiolrwydd ers adolygiad y llynedd. Ymysg y meysydd ble mae'r Bwrdd wedi cryfhau mae:

- Mi wnaeth y Bwrdd adolygu a diweddaru ei gylch gorchwyl a'i fframwaith gweithredu, a chynhaliwyd adolygiadau gan Bwyllgorau eraill hefyd, a gafodd eu cymeradwyo gan y Bwrdd;
- Mi wnaeth y Bwrdd sefydlu pwyllgor newydd (Bwrdd Cyflawni Deilliannau (ODB) i ganolbwyntio ar gyflawniad Cynllun Cyflawni Deilliannau'r Adran. Mae'r pwyllgor yn cynnwys uwch swyddogion o adrannau eraill y llywodraeth;
- Caiff agendâu eu strwythuro i wahanu agweddau strategol oddi wrth llywodraethiant sy'n fwy cyffredin.

Y meysydd a adnabuwyd fel bod angen i'r Bwrdd eu datblygu ymhellach yw:-

- Cerdyn sgorio corfforaethol (sy'n cynnwys gwybodaeth ariannol allweddol, metrigau ODP a mesuriadau ymarferol sylfaenol, megis cyfathrebiadau ac AD) i'w ddarparu ar gyfer pob cyfarfod Bwrdd;
- Dylai'r Bwrdd gyfarfod yn bersonol yn fwy rheolaidd;
- Dylid anfon cyfathrebiadau rheolaidd at yr Adran ehangach am waith y Bwrdd a'r penderfyniadau a wnaed ganddo.

Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o'r Bwrdd ym mis Chwefror/Mawrth 2022 ar sail Arweiniad Swyddfa'r Cabinet ar gyfer cynnal Gwerthusiadau Bwrdd Effeithiol. Mae darganfyddiadau'r adolygiad hwn wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd. Mae'r cryfderau a adnabuwyd yn cynnwys:-

- Mae'r gofynion datganiadau o fudd yn ddealladwy;
- Yn gyffredinol, mae rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'r tri is-bwyllgor yn ddealladwy;

- Mae yna lefel briodol o gyfraniadau a thrafodaethau agored yng nghyfarfodydd y Bwrdd (hefyd yn amlwg o arsylwadau).

Y meysydd sydd angen eu gwella yw:-

- Dylai fod gan bob is-bwyllgor gylch gwaith clir sy'n osgoi gorgyffyrddiadau neu ddyblygiadau;

- Dylai cyfres rheolaidd o ddangosyddion perfformiad, a gyflwynir ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd, ddarparu trosolwg o'r cynnydd a wneir yn erbyn y blaenoriaethau strategol yn ogystal â'r perfformiad corfforaethol;

- Nawr bod cyfyngiadau COVID-19 wedi'u llacio'n gyfan gwbl, byddai'n fanteisiol i fwy o'r ymgysylltiadau rhwng aelodau'r Bwrdd a'r mynychwyr rheolaidd fod wyneb yn wyneb.

Cynhaliodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr i drafod materion polisi, strategaeth a materion Adrannol.

Dangosir presenoldeb yn y Bwrdd Adrannol yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod:

## Bwrdd Adrannol

| Aelodau | Nifer y Cyfarfodydd Cymwys a Fynychwyd |
|---|---|
| **Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Cadeirydd**<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 3 of 3 |
| **David TC Davies AS**<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru | 3 of 3 |
| **Alison White** – Aelod Arweiniol Anweithredol o’r Bwrdd (NEBM) | 6 of 6 |
| **Alun Evans CBE** – Aelod Anweithredol o’r Bwrdd (NEBM) | 6 of 6 |
| **Glynne Jones CBE** – Cyfarwyddwr | 6 of 6 |
| **Geth Williams** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Undebol a Chorfforaethol | 6 of 6 |
| **Sarah Jennings** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat | 6 of 6 |
| **Louise Parry and Kate Starkey** – Dirprwy Gyfarwyddwr ar y Cyd, Polisi | 6 of 6 |
| **Dafydd Jones** – Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebiadau | 6 of 6 |

**Nodiadau**

* Disgwylir i Weinidogion fynychu dau gyfarfod o’r Bwrdd bob blwyddyn.

Mae Uwch Dîm Arwain y Swyddfa yn cefnogi’r Bwrdd drwy gynnal adolygiadau rheolaidd o’r prosesau risg a llywodraethu.

### *Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)*

Mae’r ARAC yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Arweiniol Anweithredol o’r Bwrdd (NEBM), ac mae’n cynnwys un NEBM arall ac aelod annibynnol arall. Mae’r aelod annibynnol wedi bod yn ei swydd ers pedair blynedd. Mae’r Pwyllgor yn gweithredu yn unol â Llawlyfr Pwyllgor Archwilio’r Trysorlys ac yn cyfarfod bob chwarter. Cynhaliodd y Pwyllgor werthusiad llawn o’i effeithiolrwydd ei hun ym mis Mawrth 2022, gan geisio barn ei aelodau. Daeth i’r casgliad mai barn y Pwyllgor a’r Swyddog Cyfrifyddu oedd nad oedd unrhyw doriad neu niwed ganlyniadol wedi bod yn yr amgylchedd rheoli neu’r safonau llywodraethau er gwaethaf her barhaus y pandemig byd-eang. Cadarnhawyd hyn gan waith yr archwiliad mewnol neu allanol.

Roedd rhai o’r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Cofrestri risg, datganiad parodrwydd i dderbyn risg, cynllun busnes a phrosesau llywodraethu’r Adran;
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon;

- Cyfrifon y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol; ac
- Adroddiadau Archwilio Mewnol ac Allanol.

**Roedd presenoldeb yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystod y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:**

### Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

| Aelodau | Nifer y Cyfarfodydd Cymwys a Fynychwyd |
|---|---|
| **Alison White** – Aelod Arweiniol Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM), Cadeirydd | 4 of 4 |
| **Alun Evans** – NEBM | 4 of 4 |
| **Sam Hartley**[1] – Independent Member | 3 of 4 |

**Troednodiadau**
**Nodyn 1:** Ar hyn o bryd, Sam Hartley yw'r Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Dadansoddi a Dirprwy Ysgrifennydd Ymchwiliad y DU i COVID-19. I gynnal ei annibyniaeth, nid yw'r rhan o unrhyw drafodaethau ynghylch Covid 19.
Byrddau/Pwyllgorau Eraill

## *Byrddau/Pwyllgorau Eraill*

### Bwrdd Cyflawni Deilliannau

Mae'r Bwrdd Cyflawni Deilliannau (ODB) yn goruchwylio cyflawniad Cynllun Cyflawni Deilliannau'r Adran (ODP).  Sefydlwyd yr OPB ym mis Gorffennaf 2021 ac mae'n adrodd i Fwrdd yr Adran ar faterion strategol a chynnydd cyffredinol y Cynllun.

### Pwyllgor Iechyd a Diogelwch

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (H&S) yn cefnogi'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn eu cyfrifoldebau i sicrhau iechyd a diogelwch yr holl staff sy'n gweithio yn adeiladau'r Swyddfa ac ymwelwyr.

Prif ffocws y pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd COVID-19, ac roedd yn gyfrifol yn bennaf am adolygu a diweddaru cyfarwyddiadau a baratowyd i'w defnyddio gan holl staff y Swyddfa.

## *Cofrestru Datganiadau o Ddiddordeb*

Mae prosesau Swyddfa Cymru ar gyfer cofrestru datganiadau o ddiddordeb a rolau allanol yn berthnasol i holl aelodau gweithredol ac anweithredol y Bwrdd a Phwyllgorau yn ogystal â phob Uwch Was Sifil sy'n gweithio yn yr adran. Ar gyfer y staff hynny nad ydynt yn Uwch Weision Sifil, mae'r broses o ddatgan a rheoli datganiadau o ddiddordeb yn cyd-fynd â pholisïau MoJ a gofynion Cod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

## Aelodau'r Bwrdd

Mae'r Swyddfa yn cadw cofrestr o ddatganiadau o ddiddordeb unigolion, ac mae'r gofrestr yn cael ei hadolygu a'i diweddaru bob chwarter. Dyma fanylion y datganiadau o ddiddordeb sydd wedi'u cofrestru gan aelodau:

| Aelodau | Rôl/Datganiad o Ddiddordeb |
|---|---|
| Alison White | NED a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio – Canolfan Y Frenhines Elizabeth II (MHCLG) |
| | NED a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio - Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (DEFRA) |
| | NED – Yr Asiantaeth Olew a Phibellau |
| Alun Evans | Unig Gyfarwyddwr – Atbeconsulting Ltd |

## Ymgynghorwyr Arbennig

Yn unol â'r polisi Datganiadau o Ddiddordeb presennol, mae'r holl ymgynghorwyr arbennig wedi datgan manylion unrhyw ddiddordebau perthnasau neu wedi cadarnhau nad ydynt yn ystyried bod ganddynt unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb perthnasol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi ystyried y datganiadau hynny, a nodir y datganiadau o ddiddordebau canlynol yn cyhoeddus:

Olivia Williams – Rôl di-dâl fel Cyfarwyddwr Nameco 1064.

## *Penodiadau Busnes*

Mae'r Swyddfa yn dilyn y Rheolau Penodiadau Busnes (BAR) a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Gweision Sifil

https://www.gov.uk/government/publications/governments-business-appointment-rules-for-civil-servants

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn monitro cydymffurfiaeth y Swyddfa gyda'r rheolau hyn.

Wrth gydymffurfio â BAR, mae'r adran yn rhoi cyngor tryloyw i geisiadau unigol ar gyfer staff ar lefel uwch, gan gynnwys Ymgynghorwyr Arbennig, a chaiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi yn:

https://www.gov.uk/search/transparency-and-freedom-of-information-releases?organisations%5B%5D=office-of-the-secretary-of-state-for-wales&parent=office-of-the-secretary-of-state-for-wales

## *Adnabod a Rheoli Risg*

Mae system reolaeth fewnol y Swyddfa wedi'i dylunio i adnabod risgiau busnes a'u lliniaru yn unol â'r parodrwydd i dderbyn risg a ddiffinnir gan y Bwrdd. Mae'n seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i adnabod a blaenoriaethu risgiau i gyflawni amcanion Adrannol, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'u heffaith bosibl, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae cadernid y system hon yn parhau i gael ei dangos gan y ffordd y mae'r Adran yn rheoli ei phrif risgiau strategol. Yn 2021-22, mae'r rhain wedi cynnwys y risgiau canlynol:-

- Methiant i ddylanwadu ar flaenoriaethau strategol y Llywodraeth yn effeithiol yng Nghymru – gan gynnwys ffyniant bro, cryfhau'r Undeb a gweithio tuag at sero net;

- Methiant i sicrhau nawdd a phenderfyniadau polisi gan adrannau eraill y Llywodraeth, i'n galluogi i gyflawni ein Cynllun Cyflawni Deilliannau a'r uchelgeisiau yn y Cynllun i Gymru;

- Nid yw Cymru yn elwa'n ddigonol o nawdd twf lleol y DU;

- Nid yw presenoldeb a gwelededd Llywodraeth y DU yng Nghymru yn ddigonol;

- Nid yw'r Swyddfa'n gallu darparu adnoddau digonol neu addas i gyflawni ymrwymiadau Llywodraeth y DU ynglŷn â Chymru.

Mae gan y Swyddfa drefniadau cadarn ar waith i liniaru'r risgiau hyn. Er enghraifft, o ran y methiant i sicrhau nawdd a phenderfyniadau polisi gan adrannau eraill y Llywodraeth, i'n galluogi i gyflawni ein Cynllun Cyflawni Deilliannau a'r uchelgeisiau yn y Cynllun i Gymru:

Mae'r Swyddfa yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol ac Adrannau Eraill y Llywodraeth (OGDs) i ddylanwadu ar ddatblygu polisi a sicrhau y gall Cymru elwa o gyfleoedd am nawdd. Rydym wedi datblygu cynlluniau Adrannol i ffocysu ein 'gofynion' o OGDs a dylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan Weinidogion drwy ymgysylltiadau rhwng Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion OGDs.

Mi wnaeth y Swyddfa weithio'n agos â Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EM yn ystod Adolygiad o Wariant 21 i sicrhau ei fod yn ymateb i faterion DU-gyfan a materion sy'n benodol berthnasol i Gymru. Rydym wedi sefydlu Bwrdd Cyflawni Deilliannau (ODB) sy'n cynnwys cynrychiolaeth o randdeiliaid allweddol o OGDs i fonitro cynnydd y Cynllun Cyflawni Deilliannau (ODP) a'r Cynllun i Gymru.

Mae'r Swyddfa hefyd yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar brosiectau sydd angen cydweithrediad traws-lywodraethol a datblygu strategaeth masnach i ddenu mewnfuddsoddiadau a datblygu cyfleoedd allforio.

## *Y gallu i ddelio â risg*

Adnabuwyd risgiau a'u mynegi ar lefel strategol a gweithredol gan y Bwrdd Adrannol ac ar lefel weithredol gan y timau o fewn y pedair isadran. Roedd cofrestrau risg y canghennau yn ategu ac yn bwydo i mewn i'r Gofrestr Risg Strategol Adrannol gyffredinol a gafodd ei hadolygu ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Roedd y Bwrdd Adrannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) hefyd yn adolygu eu dull o reoli risg yn rheolaidd i sicrhau bod risgiau allweddol wedi cael eu nodi a bod mesurau priodol a chymesur ar waith i reoli lefel y risg i lefel dderbyniol. Cafodd y Bwrdd sicrwydd gan yr Uwch Dîm Arwain (SLT) ynghylch effeithiolrwydd y rheolaethau i reoli risg weithredol a'r ARAC o ran effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg.

Mae'r ARAC yn arwain y gwaith o graffu a delio â risgiau allweddol, ac wedi cynnal adolygiad manwl o gofrestrau risg adrannol a sut roeddent yn cael eu rheoli.

## *Fframwaith risg a rheolaeth*

Roedd gan y Swyddfa Strategaeth a Fframwaith Polisi Rheoli Risg, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd. Mae'r Polisi'n amlinellu ei weithdrefnau'n glir, ac yn hyrwyddo diwylliant tryloyw ac atebol i gefnogi rheolaeth risg gyson, amserol ac effeithiol ar draws yr Adran.

Cefnogwyd effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg gan waith yr archwilwyr mewnol, yr uwch dîm arwain a oedd yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r argymhellion a wnaed gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

## *Datganiadau Sicrwydd*

Mae'n ofynnol i bob Dirprwy Gyfarwyddwr lenwi a llofnodi datganiad Tystysgrif Sicrwydd wedi'i gefnogi gan Restr Wirio Rheolaeth Fewnol gyflawn i ddarparu sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu ar lywodraethiant, rheoli risg a gweithrediad rheolaethau mewnol o fewn eu hisadrannau. Cafodd yr holl ddatganiadau eu hadolygu gan Gadeirydd ARAC fel rhan o'r adolygiad llywodraethu.

Ni adnabuwyd unrhyw bryderon arwyddocaol fel rhan o'r broses datganiad sicrwydd diwedd y flwyddyn.

## *Safonau Ymarferol y Llywodraeth*

Mae'r Adran wedi adolygu ei chydymffurfiaeth â safonau ymarferol y Llywodraeth. Mae'r adolygiad hwn wedi dangos ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion gofynnol.

## *Archwilio Mewnol*

Mae Trysorlys EM yn mynnu bod rhaid i'r archwiliad mewnol roi sicrwydd diwedd blwyddyn ar effeithiolrwydd llywodraethiant, risg a rheolaeth adran. Sicrwydd yr

Archwiliad Mewnol yw un o'r prif ffynonellau tystiolaeth sy'n sail i Ddatganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu.

Mae sicrwydd yr Archwiliad Mewnol yn seiliedig ar waith archwilio mewnol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â gwybodaeth am y fframwaith llywodraethu, risg a rheoli a gafwyd drwy fynychu cyfarfodydd a thrafodaethau gydag uwch reolwyr. Darperir gwasanaethau archwilio mewnol gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n gweithio yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae ei gwaith yn seiliedig ar ei dadansoddiad o'r risgiau y mae'r Adran yn agored iddynt ac mae'r cynllun archwilio blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwnnw. Caiff y cynllun ei drafod a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac yna ei gytuno â'r Swyddog Cyfrifyddu.

Roedd cynllun archwilio mewnol 2021-22 yn cynnwys adolygiadau o'r canlynol: Strategaeth Cyfathrebiadau, Cynllunio Busnes Adrannol, a Sicrwydd Gwybodaeth

Mae Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheoli'r Adran yn flynyddol. Mae'r adolygiadau Archwilio Mewnol yn cyfrannu at y farn honno.

Ar sail y gwaith a gwblhawyd a gwybodaeth am y fframweithiau llywodraethu, rheolaeth fewnol, a rheoli risg o fewn Swyddfa Cymru, mae Archwilio Mewnol wedi darparu barn flynyddol Gymedrol.

## *Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol*

Rhoddodd y Swyddfa ystyriaeth lawn i arweiniad Trysorlys EM "Corporate Governance in Central Government Departments" (Ebrill 2017) wrth addasu a chryfhau ei phrosesau i adlewyrchu ei statws fel Adran annibynnol. Fodd bynnag, gwnaed hyn ar raddfa sy'n gymesur â'i maint, ei chyllideb a'i swyddogaeth (i ddarparu cymorth a chyngor polisi i Weinidogion yn hytrach na darparu rhaglenni neu wasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd). Mae'r meysydd lle nad yw'r Adran ar hyn o bryd yn cydymffurfio'n llawn â'r arweiniad wedi'u cyfyngu i:

- Niferoedd NEBMs. Ar ôl ystyriaeth briodol gan y Cyfarwyddwr, y Bwrdd Adrannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac yn dilyn trafodaethau gyda'r Archwilwyr Mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, penderfynodd yr Adran i beidio â chynyddu nifer ei NEBMs. Teimlir bod yr aelodaeth bresennol yn gymesur â maint yr Adran (tua 47 o staff). Mae gan y ddau NEBM sgiliau a phrofiad gwerthfawr dros ben sy'n arbennig o berthnasol i'r Swyddfa. Mae'r NEBM arweiniol yn gyfrifydd cymwysedig ac yn gadeirydd profiadol ac yn aelod annibynnol o bwyllgorau archwilio a risg, gan gynnwys yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Canolfan Gynadledda'r Frenhines Elizabeth II a'r Asiantaeth Olew a Phibellau. Mae'r ail NEBM a benodwyd ym mis Ionawr 2021 yn gyn uwch weithiwr sifil gyda phrofiad o fod yn aelod gweithredol o Fwrdd pedair adran yn y Llywodraeth, gan weithio gyda Gweinidogion, a dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu Adran fechan o'r Llywodraeth;

- Rhoddwyd ystyriaeth benodol i ba un a allai gwrthdaro buddiannau godi yn y rolau Cyfarwyddwr Anweithredol Arweiniol a Chadeirydd ARAC a feddiannir gan yr un person; nid yw'r NED Arweiniol yn cadeirio'r Bwrdd Adrannol, felly mae'r risg o unrhyw wrthdaro yn isel. Mae'r ddadl cymesuredd a amlinellwyd uchod yn parhau i fod yn drech nag unrhyw fudd a geir o ddefnyddio trydydd NED am y rheswm hwn.
- I sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys o leiaf tri aelod, mae swyddog o Swyddfa'r Cabinet (Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Dadansoddi a Dirprwy Ysgrifennydd Ymchwiliad y DU i COVID-19), yn gwasanaethu fel aelod annibynnol. Nid yw'r swyddog hwn yw'r rhan o unrhyw drafodaethau ynghylch Covid 19;
- Dylai aelodaeth y Bwrdd gynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid: - Oherwydd maint y Swyddfa, ac i sicrhau cydbwysedd yr aelodaeth rhwng Gweinidogion a Swyddogion, nid yw'r Pennaeth Cyllid yn aelod o'r Bwrdd ond mae'n mynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd mewn swyddogaeth ymgynghorol.

## *Diogelwch a diogelwch gwybodaeth*

Ymdrinnir â hyn yn Adroddiad y Cyfarwyddwr. Gweler tudalen 34-35.

## *Risg a Sicrwydd Gwybodaeth*

### *Asedau Gwybodaeth*

Nid yw'r Swyddfa'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd ac nid yw'n cynnal cronfeydd data mawr o ddata personol. Mae nifer cyfyngedig o ddaliadau data personol ar ffurf cofnodion personél a chyllid, a gohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd ac Aelodau Seneddol, Aelodau o'r Senedd ac Arglwyddi. Mae gwybodaeth arall a gedwir gan yr Adran yn cynnwys papurau polisi a chorfforaethol, a phapurau Pwyllgor y Cabinet.

Mae'r Swyddfa'n cydymffurfio â'r Rheoliad Ewropeaidd ar Ddiogelu Data (GDPR) a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018.

### *Gwybodaeth Reolaethol*

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael gwybodaeth reolaethol o ansawdd am berfformiad y Swyddfa er mwyn eu galluogi i asesu, herio a gyrru gwelliannau yn ôl yr angen.

### *Risgiau a Rheoli Risgiau*

O ystyried y daliadau cyfyngedig o wybodaeth sensitif, nid yw'r Swyddfa'n wynebu'r mesur o risg sy'n gofyn am strategaethau rheoli helaeth neu arbennig.

## Deilliannau yn ystod 2021-22

Ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod 2021-22. (2020-21 Dim).

## *Cyfarwyddiadau Gweinidogol*

Nid oedd yna unrhyw gyfarwyddiadau gweinidogol yn ystod y flwyddyn.

### Adroddiad cryno gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Ar sail ei waith dros y cyfnod adrodd hwn, gall y Pwyllgor ddarparu sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd trefniadau archwilio'r Adran ac ar y sicrwydd a roddir i'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaethu. Mae hefyd yn gallu rhoi sicrwydd bod y prosesau sydd ar waith i gynhyrchu cyfrifon ariannol yr Adran yn gadarn.

### Asesiad o'r system reoli fewnol

Ar sail yr adolygiad hwn, gallaf roi sicrwydd bod y system rheolaeth fewnol yn y Swyddfa yn ddigonol i gyflawni amcanion yr Adran. Rhoddir hyn ar y sail, lle adnabuwyd risg, bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r risg neu fod natur y risg wedi ei deall a'i derbyn yn llawn.



**Glynne Jones CBE**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**11 Gorffennaf 2022**

# Adroddiad Tâl a Staff

# Adroddiad Tâl

Mae'r Adroddiad Tâl a Staff yn crynhoi taliadau Gweinidogion, Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd, Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd (NEBMs) a staff; mae hefyd yn cynnwys manylion costau gwirioneddol a threfniadau cytundebol.

Paratowyd yr Adroddiad Tâl a Staff yn unol â gofynion y llawlyfr adroddiadau ariannol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae rhai o'r tablau yn yr adroddiad hwn wedi bod yn destun archwiliad gan yr archwilydd allanol, y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Nodir yn glir pan fydd tablau wedi bod yn destun archwiliad.

## Polisi Tâl

Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan y Prif Weinidog ar ôl cael cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu ar Gyflogau Uwch-swyddogion.

Mae'r Corff Adolygu hefyd yn cynghori'r Prif Weinidog o bryd i'w gilydd ar dâl a phensiynau Aelodau Seneddol (ASau) a'u lwfansau; ar lwfansau Arglwyddi; ac ar dâl, pensiynau a lwfansau Gweinidogion ac eraill y pennir eu tâl gan Ddeddf Cyflogau Gweinidogol ac Eraill 1975.

Wrth wneud ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu wedi ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sydd â'r gallu a'r cymwysterau priodol i gyflawni eu cyfrifoldebau gwahanol;
- amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff;
- polisïau'r Llywodraeth i wella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad ar Adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau Adrannol;
- yr arian sydd ar gael i Adrannau fel y nodir yn Nherfynau Gwariant Adrannol y Llywodraeth; a
- tharged chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r Corff Adolygu'n ystyried y dystiolaeth a gaiff am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion. Mae rhagor o wybodaeth am waith y Corff Adolygu ar gael yn: https://www.gov.uk/government/organisations/review-body-on-senior-salaries

## *Taliadau aelodau'r Bwrdd ac uwch weision sifil*

Nid yw'r Swyddfa yn gyflogwr uniongyrchol. Mae'r holl staff naill ai'n cael eu cyflogi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu ar fenthyg gan Adrannau eraill y Llywodraeth. Pennir cyflogau Uwch Weision Sifil yn unol â pholisi Gwobrwyo Uwch Wasanaeth Sifil Swyddfa'r Cabinet.

## *Contractau Gwasanaethau*

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn mynnu bod penodiadau'r Gwasanaeth Sifil yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod a hynny wedi'i seilio ar gystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae'r swyddogion a gwmpasir gan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau agored. Byddai terfynu swydd, ac eithrio am gamymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn https://civilservicecommission.independent.gov.uk/

## *Cyflogau a hawliau pensiwn Gweinidogion*

### *Mae'r adran hon a'r tablau cysylltiedig isod wedi bod yn destun archwiliad*

Dangosir cyflogau, buddiannau trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn Gweinidogion yn y tablau canlynol.

O ran Gweinidogion yn Nhŷ'r Cyffredin, dim ond cost y tâl ychwanegol i Weinidogion a ysgwyddir gan adrannau; mae cyflog eu gwasanaethau fel AS £81,932 (o 1 Ebrill 2020) a'r lwfansau amrywiol y mae ganddynt hawl iddynt yn cael eu talu'n ganolog. Fodd bynnag, mae'r trefniant ar gyfer Gweinidogion yn Nhŷ'r Arglwyddi yn wahanol gan nad ydynt yn cael cyflog ond yn hytrach tâl ychwanegol, na ellir ei fesur ar wahân i gyflogau Gweinidogion. Yr Adran sy'n talu cyfanswm y tâl hwn, yn ogystal â'r lwfansau y mae ganddynt hawl iddynt, ac felly dangosir hyn yn llawn yn y ffigurau isod. uchod.

## *Buddion o fath arall*

Mae gwerth ariannol unrhyw fuddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarparwyd gan yr Adran ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy. Ni chafodd yr un Gweinidog yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru fuddion mewn nwyddau yn 2021-22 na 2020-21.

## *Tâl (cyflog, buddion mewn nwyddau a phensiynau)*

| Cyfanswm tâl unigol | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweinidogion | Cyflog (£) | | Buddion o Fath Arall (i'r £100 agosaf) | | Buddion Pensiwn i'r £1000 agosaf)1 | | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) | |
| | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 |
| Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol | 67,505 | 67,505 | Dim | Dim | 17,000 | 17,000 | 85,000 | 85,000 |
| David TC Davies AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol † | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |

**Nodiadau i'r tabl:**

1. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

† Tynnir costau cydnabyddiaeth yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol o'r Gronfa Gyfunol.

| Buddion Pensiwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn Cronedig yn 65 oed ar 31 Mawrth 2022 | Cynnydd Gwirioneddol mewn pensiwn yn 65 oed | CETV ar 31 Mawrth 2022 | CETV ar 31 Mawrth 2021 | Cynnydd/ Gostyngiad gwirioneddol mewn CETV £000 |
| Ministers | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol | 0-5 | 0-2.5 | 46 | 25 | 11 |
| David TC Davies AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |

## *Pensiynau Gweinidogol*

Darperir buddion pensiwn i Weinidogion gan Gronfa Bensiwn Gyfrannol y Senedd (PCPF). Mae'r cynllun yn cael ei wneud dan statud ac mae'r rheolau wedi'u nodi yng Nghynllun Pensiwn Gweinidogion ac ati 2015, sydd ar gael yn: http://qna.files.parliament.uk/ws-attachments/170890/original/PCPF%20MINISTERIAL%20SCHEME%20FINAL%20RULES.doc.

Caiff y Gweinidogion hynny sy'n Aelodau Seneddol hefyd gronni pensiwn AS o dan y PCPF (nid yw'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn). Cyflwynwyd cynllun pensiwn Aelodau Seneddol newydd o fis Mai 2015 ymlaen, er bod gan aelodau a oedd yn Aelodau Seneddol ac yn 55 oed neu hŷn ar 1 Ebrill 2013 warchodaeth drosiannol i aros yng nghynllun pensiwn cyflog terfynol yr AS blaenorol.

Mae buddion i Weinidogion yn daladwy o oedran Pensiwn y Wladwriaeth o dan gynllun 2015. Caiff pensiynau eu hailbrisio'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau cyn ac ar ôl ymddeol. Y gyfradd cyfrannu o fis Mai 2015 ymlaen yw 11.1% a'r gyfradd cronni yw 1.775% o enillion pensiynadwy.

Mae'r ffigur a ddangosir ar gyfer gwerth pensiwn yn cynnwys cyfanswm y pensiwn sy'n daladwy i'r aelod o dan y cynlluniau pensiwn Gweinidogol cyn ac ar ôl 2015.

### *Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV)*

Dyma werth buddion y cynllun pensiwn wedi'i gyfalafu a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Buddion a gronnwyd gan yr aelod yw'r buddion a brisir ynghyd ag unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. CETV yw taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau pensiwn y maent wedi eu cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a nodir yn ymwneud â buddion y mae'r unigolyn wedi ei gronni o ganlyniad i gyfanswm ei wasanaeth Gweinidogol, nid dim ond ei benodiad cyfredol fel Gweinidog. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

### *Y gwir gynnydd yng ngwerth y CETV*

Dyma elfen y cynnydd mewn pensiwn cronedig a ariennir gan y Trysorlys. Nid yw'n cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant a chyfraniadau a dalwyd gan y Gweinidog. Mae'n cael ei gyfrifo gan ddefnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Cyflog a hawliau pensiwn Aelodau'r Bwrdd

### *Mae'r adran hon a'r tablau cysylltiedig isod wedi bod yn destun archwiliad*

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros; tâl perfformiad neu fonws; goramser; hawliau wedi'u cadw i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau ei fod yn ddarostyngedig i drethiant y DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed gan y Swyddfa ac felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

Mae ffigurau cyflog yn cynnwys yr holl lwfansau sy'n daladwy gan yr Adran, ond mae'r hyn sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yn cael ei gyfrifo'n net o lwfansau, bonysau a thaliadau ex gratia. Mae bonysau'n seiliedig ar lefelau perfformiad ac yn cael eu talu fel rhan o'r broses werthuso. Mae'r bonysau a gofnodwyd yn 2021-22 yn ymwneud â pherfformiad yn 2020-21, ac mae'r bonysau cymharol a gofnodwyd ar gyfer 2020-21 yn ymwneud â pherfformiad yn 2019-20.

Cafodd Aelodau'r Bwrdd eu cefnogi gan y Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol sy'n mynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd Adrannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Dangosir cyflogau, bonysau, buddiannau trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn Aelodau Bwrdd yn y tablau canlynol:-

| Cyfanswm tâl unigol | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddogion | Cyflog (£'000) | | Taliadau bonws (£,000) | | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Buddion pensiwn i'r £1000 agosaf)2 | | Cyfanswm (£,000) | |
| | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 |
| Glynne Jones CBE, Cyfarwyddwr | 95-100 | 95-100 | 10-15 | 5-10 | Dim | Dim | 15,000 | 54,000 | 120-125 | 155-160 |
| Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Undebol a Chorfforaethol | 75-80 | 75-80 | 5-10 | 5-10 | Dim | Dim | 13,000 | 46,000 | 95-100 | 130-35 |
| Sarah Jennings, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat (o 28 Medi 2020 ymlaen) † | 90-95 | 45-50 | Dim | Dim | Dim | Dim | 37,000 | 19,000 | 130-135 | 65-70 |
| Charlotte Cantle, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat (hyd at 20 Medi 2020) †† | Amh | 35-40 | Amh | Dim | Amh | Dim | Amh | 15,000 | Amh | 50-55 |
| Louise Parry, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi (rhannu swydd â Kate Starkey) ††† | 45-50 | 45-50 | Dim | Dim | Dim | Dim | 11,000 | 39,000 | 55-60 | 80-85 |
| Kate Starkey, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi (rhannu swydd â Louise Parry) ††† | 45-50 | 45-50 | Dim | Dim | Dim | Dim | 9,000 | 35,000 | 50-55 | 80-85 |
| Dafydd Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebiadau †††† | 85-90 | 15-20 | Dim | Amh | Dim | Amh | 33,000 | 7,000 | 118-120 | 25-30 |
| Ashok Ahir, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebiadau (hyd at 25 Hydref 2020) ††††† | Amh | 40-45 | Amh | Dim | Amh | Dim | Amh | 17,000 | Amh | 60-65 |

**Nodiadau i'r tabl:**

2. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) a'r (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

† Ymunodd Sarah Jennings â'r Adran fel Dirprwy Gyfarwyddwr y Swyddfa Breifat ar yr 28ain o Fedi 2020. Roedd ei chyflog llawn amser yn 2020-21 yn amrywio o £90k i £95k

†† Roedd Charlotte Cantle ar fenthyg o Swyddfa'r Cabinet rhwng y 23ain o Fedi 2019 a'r 20fed o Fedi 2020. Roedd ei chyflog cyfwerth â llawn amser yn 2020-21 rhwng £80k i £85k.

††† Ymunodd Louise Parry a Kate Starkey yr Adran fel Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi ar y 10fed o Fehefin 2019. Mae eu cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2021-22 rhwng £70k a £75k (2020-21 £70k i 75k).

†††† Ymunodd Dafydd Jones â'r Adran fel Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfathrebiadau ar yr 11eg o Ionawr 2021. Roedd ei gyflog llawn amser yn 2020-21 yn amrywio o £80k i £85k.

††††† Gadawodd Ashok Ahir yr Adran ar y 25ain o Hydref 2020. Roedd ei gyflog llawn amser yn 2020-21 yn amrywio o £75k i £80k.

## Cyfarwyddwyr Anweithredol

| Taliadau Cydnabyddiaeth | Cyflog ac eithrio bonysau (gan gynnwys lwfansau (£'000) | | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Cyfanswm (£'000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 |
| Alison White, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio | 10-15 | 10-15 | Dim | Dim | 10-15 | 10-15 |
| Alun Evans CBE, Cyfarwyddwr Anweithredol * | 5-10 | 0-5 | Dim | Dim | 5-10 | 0-5 |

**Nodiadau i'r tabl:**

* Penodwyd Alun Evans yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar y 4ydd o 4 Ionawr 2021. Roedd ei gyflog cyfwerth â llawn amser yn 2020-21 yn amrywio o £5k i £10k.

## Buddion Pensiwn

| Uwch Reolwyr | Pensiwn cronedig a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2022 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2022 | CETV ar 31 Mawrth 2022 | CETV ar 31 Mawrth 2021 | Cynnydd/ gostyngiad gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Glynne Jones CBE, Cyfarwyddwr | 45 - 50 ynghyd â chyfandaliad o 90 - 95 | 0 - 2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 888 | 837 | 2 |
| Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Undebol a Chorfforaethol | 30 - 35 ynghyd â chyfandaliad o 70 - 75 | 0 - 2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 656 | 616 | 3 |
| Sarah Jennings, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat | 10-15 | 0-2.5 | 162 | 134 | 18 |
| Charlotte Cantle, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat (hyd at 20 Medi 2020) | Amh | Amh | Amh | 62 | Amh |
| Louise Parry, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi (rhannu swydd â Kate Starkey) | 15 - 20 ynghyd â chyfandaliad o 30 - 35 | 0 - 2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 261 | 244 | 3 |
| Kate Starkey, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi (rhannu swydd â Louise Parry) | 20 - 25 | 0 - 2.5 | 291 | 274 | 1 |
| Dafydd Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebiadau | 0-5 | 0-2.5 | 20 | 4 | 10 |
| Ashok Ahir, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebiadau (hyd at 25 Hydref 2020) | Amh | Amh | Amh | 51 | Amh |

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – sef Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alffa**, sy'n darparu buddion yn seiliedig ar gyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, roedd pob gwas sifil newydd, ynghyd â'r rhan fwyaf o'r bobl sydd eisoes mewn swydd, yn ymuno ag **alffa**. Cyn hynny, roedd gweision sifil yn cyfranogi ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan gynllun PCSPS bedair adran: 3 sy'n rhoi buddion ar sail cyflog terfynol (**clasurol**, **premiwm** neu **clasurol a mwy**) gydag oed pensiwn arferol o 60; ac un sy'n rhoi buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) gydag oed pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan swm a benderfynir drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau **clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos** ac **alffa** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau sy'n rhan o'r cynllun PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y cynllun PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai sydd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i **alffa** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu dileu'r gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir y bydd gan aelodau cymwys, maes o law, sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, hawl i wahanol fuddion pensiwn mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i gynllun **alffa** yn cael eu 'bancio', gyda'r rheini sydd â buddion cynt yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael cynllun **alffa**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu **alffa** – fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac **alffa**, y ffigur a nodir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu gyfraniad wedi'i ddiffinio, pensiwn (prynu arian) gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau'r cyflogai'n gysylltiedig â chyflog ac maent yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% ar gyfer aelodau'r cynllun **clasurol**, **premiwm**, **clasurol a mwy, nuvos** ac **alffa**. Mae'r buddion yn y cynllun **clasurol** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol pan fydd cyflogai'n ymddeol. Gyda'r cynllun **premiwm**, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **glasurol**, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae **clasurol a mwy** yn ei hanfod yn gynllun hybrid gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun **clasurol**, a buddion am wasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun **premiwm**. Gyda **nuvos**, mae'r aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy tra bo'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei gynyddu yn ôl deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae'r buddion yn **alffa** yn cronni

mewn ffordd debyg i **nuvos**, ond mae'r gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (cyfnewid) i gael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae cyfrif pensiwn y **bartneriaeth** yn drefniant pensiwn cyfraniadau galwedigaethol diffiniedig sy'n rhan o Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oed yr aelod). Nid oes raid i'r cyflogai gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol yn sgil salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw wedi cyrraedd oed pensiwn neu dros yr oedran hwnnw. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau cynlluniau **clasurol, premiwm** a **chlasurol a mwy**, a 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, a 65 oed neu Oed Pensiwn y Wladwriaeth, pa bynnag yw'r uchaf, ar gyfer aelodau cynllun **alffa**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu alffa – fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alffa, mae'r ffigur a ddyfynnir yn gyfystyr â gwerth cyfunol y buddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael yn www.civilservicepensionscheme.org.uk.

## Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV)

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth buddion y cynllun pensiwn wedi'i gyfalafu a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Buddion a gronnwyd gan yr aelod yw'r buddion a brisir ynghyd ag unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. CETV yw taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau y mae wedi eu cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a nodir yn ymwneud â buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth yn y cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

## Y gwir gynnydd yng ngwerth y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Lluosrifau Tâl

*(Mae'r adran hon wedi bod yn destun archwiliad)*

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a thâl y chwartel isaf, canolrif a chwartel uchaf gweithlu'r sefydliad.

Tâl bandiau'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn y Swyddfa ym mlwyddyn ariannol 2021-22 oedd £105k-£110k (2020-21, £105k-£110k) (Gweler y tabl cyfanswm tâl sengl). Roedd hyn 2.6 gwaith (2020-21, 2.7 gwaith) cydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu, sef £41,997 (2020-21, £39,386). Cydran cyflog y canolrif oedd £41,997.

Cynyddodd gweithrediad dyfarniad cyflog yr Adran yn 2021-22 dâl cyfartalog staff a lleihawyd y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr sy'n cael y tâl uchaf a'r gymhareb tâl canolrifol.

Yn 2021-22, ni chafodd unrhyw gyflogeion (2020-21, dim) gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf. Roedd y tâl yn amrywio o £8,300 i £106,000 (2020-21 £8,300 i £106,000).

Nid oedd unrhyw newid canrannol yng nghyflog a lwfans y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf. Bu newid o 10% mewn tâl perfformiad a bonysau sy'n daladwy i'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf.

Arhosodd tâl bandiau'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yr un fath ag yn 2020-21. Ni chawsant godiad cyflog.

Ar gyfer gweithwyr yr endid yn ei gyfanrwydd, y newid canrannol cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol o gyflog a lwfansau oedd 2% a'r newid canrannol mewn perfformiad, tâl a bonysau taladwy oedd -9.7%.

Dangosir y gymhareb rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf a thâl a buddion y cyflogai ar y 25ain ganradd a 75 canradd tâl a buddion cyflogeion yr endid ar gyfer y flwyddyn ariannol yn y tabl isod.

Y gydnabyddiaeth ariannol chwartel isaf (sy'n cynrychioli 25ain canradd y dosbarthiad llinol) oedd £30,769 (cydran cyflog hwn oedd £30,769) a'r tâl chwartel uchaf (sy'n cynrychioli 75ain canradd y dosbarthiad llinol) oedd £55,296 (elfen gyflog o roedd hyn yn £55,296).

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog, tâl ar wahân ar sail perfformiad a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Table to show the median, 25th percentile and 75th percentile remuneration and ratio against the band of the highest paid Director in the Wales Office.

| Disgrifiad | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Band o gyfanswm cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr sy'n cael y cyflog uchaf (£000) | £105k to £110k | £105k to £110k |
| Tâl canolrifol (£) | 41,997 | 39,386 |
| Cymhareb | 2.6 | 2.7 |
| Tâl 25ain canradd (£) | 30,769 | – |
| Cymhareb | 3.5 | – |
| Tâl 75ain canradd (£) | 55,296 | – |
| Cymhareb | 1.9 | – |

## Iawndal am golli swydd

*(yn amodol ar archwiliad)*

Ni adawodd yr un aelod o staff y Swyddfa o dan delerau Ymadael yn Wirfoddol yn 2021-22 na 2020-21.

## Gweinidogion

*(yn amodol ar archwiliad)*

Ni chafodd unrhyw daliadau diswyddo eu gwneud yn 2021-22 na 2020-21.

# Adroddiad Staff

## Costau Staff

*Mae'r adran hon a'r tablau cysylltiedig isod wedi bod yn destun archwiliad*

Dangosir gwariant y Swyddfa ar staff yn ystod 2021-22 yn y tabl isod:-

| | | | | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a Gyflo-gir yn Barhol a Secondeion I mewn | Eraill | Gweinidogion | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyfolgau wythnosol a misol | 2,506 | 80 | 68 | 2,654 | 2,629 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 227 | – | 8 | 235 | 230 |
| Costau penswim eraill | 539 | – | – | 539 | 548 |
| **Cyfanswm y Costau** | 3,272 | 80 | 76 | 3,428 | 3,407 |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig nas cyllidir ar gyfer sawl cyflogwr, lle nad yw'r Swyddfa'n gallu nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cyflawnwyd prisiad actiwaraidd llawn ar yr 31ain o Fawrth 2016. Mae'r manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2021-22, roedd cyfraniadau pensiwn cyflogwr o £539k (2020-21: £548k) yn daladwy i'r PCSPS ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% (2020-21: 26.6% i 30.3%) o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, nid pan fydd y costau'n codi mewn gwirionedd, ac yn adlewyrchu profiad y cynllun yn y gorffennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau pensiwn cyflogwyr o £0 (2020-21: £0) i un neu ragor o'r panel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran, ac maent yn amrywio o 8% i 14.75% (2020-21: 8.0% i 14.75%) o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3.0% o gyflog pensiynadwy.

Ar ben hynny, roedd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, sy'n cyfateb i 0.8% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS ar gyfer darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol ar ôl marwolaeth mewn gwaith ac ymddeol oherwydd iechyd gweithwyr yn y cynllun PCSPS.

Y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i ddarparwyr pensiwn y bartneriaeth yn ystod y cyfnod adrodd oedd Dim. (2021-22: £Dim).

Nid oedd unrhyw ymddeoliadau yn ystod 2021-22 (2020-21: Dim) ar sail iechyd.

## Nifer y staff

*(yn amodol ar archwiliad)*

Roedd cyfartaledd nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| Staff Parhaol | 43 | 47 |
| Eraill | 2 | 2 |
| Gweinidogion | 2 | 2 |
| Ymgynghorwyr Arbennig* | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | 49 | 53 |

* Dyma oedd y ffigur ar yr 31ain o Fawrth 2022.


Gweision sifil dros dro yw ymgynghorwyr arbennig. Er mwyn gwella effeithiolrwydd, cafodd y gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â chyfrifo chostau staff pob Ymgynghorydd Arbennig ar draws y Llywodraeth ei symud i Swyddfa'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2019, a chafodd y gyllideb gyffelyb ei throsglwyddo hefyd.

Caiff costau'r ymgynghorwyr arbennig eu riportio arnynt yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Swyddfa'r Cabinet. Mae'r ymgynghorwyr arbennig yn parhau i gael eu cyflogi gan yr Adran y mae'r Gweinidog a wnaeth eu cyflogi yn gyfrifol amdani.

Nid yw'r Swyddfa erioed wedi cyflogi staff yn uniongyrchol. Rydym yn parhau i gaffael gwasanaethau cyflogaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) sy'n neilltuo staff i ni.


Mae'r MoJ yn rhwym wrth Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil ac mae staff yn cael eu recriwtio ar ein rhan drwy gystadleuaeth deg ac agored. Yn y gorffennol rydym wedi bod yn llawer mwy dibynnol ar fenthyciadau gan adrannau eraill y Llywodraeth, ond erbyn hyn mae'r trefniant hwn yn berthnasol i lai na phum aelod o staff.

Ceir dadansoddiad misol o lefelau staff parhaol (wedi'i ddangos fel canran o'r niferoedd a ddyrennir i ni) yn y siart isod:




Roedd gan y Swyddfa 47 aelod o staff erbyn diwedd cyfnod adrodd blwyddyn ariannol 2021-22. Roedd y trosiant staff yn ystod y flwyddyn oddeutu 41%.

Dangosir dadansoddiad o'r staff yn ôl graddau'r gwasanaethau sifil yn y siart isod:



*Adrodd am gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a rhai eraill – pecynnau ymadael*

*(yn amodol ar archwiliad)*

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael y Gwasanaeth Sifil yn 2021-22 na 2020-21

*Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 (Offerynnau Statudol 328)*

Nid yw Rheoliadau Amser Cyfleuster Undebau Llafur yn berthnasol i'r Swyddfa gan nad ydym yn gyflogwr. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel y cyflogwr, yn darparu cynrychiolaeth undeb llafur i staff.

*Uwch Wasanaeth Sifil*

Ar yr 31ain o Fawrth 2022, roedd saith o bobl mewn 6 swydd uwch was sifil barhaol yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Mae'r niferoedd hyn yn cynnwys un cyfreithiwr sydd ar secondiad o Adran Gyfreithiol y Llywodraeth.


| Staff mewn swyddi ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 2022 | Mawrth 2021 |
|---|---:|---:|
| Canran menywod | 57% | 57% |
| Canran menywod ym Mand 2 ac uwch | 0% | 0% |
| Canran Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a ddatgelwyd | 0% | 0% |
| Canran y staff anabl a ddatgelwyd | 0% | 0% |

*Cydraddoldeb ac Amrywiaeth*

Caiff gwybodaeth am nodweddion personol ei chofnodi drwy system Adnoddau Dynol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, lle caiff staff eu hannog i wneud datganiadau personol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.


Mae'r siart isod yn dangos cyfraddau ymateb staff sydd wedi diweddaru eu cofnod AD ar gyfer pob nodwedd personol o'u gwirfodd, fel yr oedd ar yr 31ain O Fawrth 2022:

**Canran y staff sydd wedi datagan ar 31 mawrth 2022**





Mae'r siart isod yn dangos y proffil rhywedd, yn seiliedig ar ddata AD ar yr 31ain o Fawrth 2022:

**ProFfil Rhyw ar 31 Mawrth 2022**




Proffil Ethnigrwydd ar 31 Mawrth 2022




O ran Cyfeiriadedd Rhywiol, Anabledd a Chrefydd a Cred, mae ein data yn ymwneud â llai na phum aelod o staff ac felly  i amddiffyn eu data, ni gyhoeddir dadansoddiad pellach o'r data hwn.

Mae'r tabl isod yn dangos proffil oed y staff sy'n gweithio yn y Swyddfa:

Proffil oedran ar 31 Mawrth 2022




***Cyflogi pobl anabl***

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cymryd rhan yn y Cynllun Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd ac yn cynnig y Cynllun Gwarantu Cyfweliad (GIS) i ymgeiswyr sy'n ystyried eu hunain yn anabl.

Fel y cyflogwr, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn defnyddio cymwysiadau anonymeiddio fel rhan o'i broses recriwtio i leihau rhagfarn ddiarwybod.

*Materion Eraill sy'n ymwneud â Lles ym Maes Iechyd*

5.2 oedd nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gollwyd (AWDL) oherwydd salwch staff ar gyfer blwyddyn galendr 2021. Mae hyn islaw targed y Gwasanaeth Sifil (7.4) ac mae hefyd yn welliant ar ein cyfradd absenoldeb yn 2022 (6.9).

Mae'r Swyddfa'n cymryd rhan mewn digwyddiadau Lles sy'n cael eu trefnu ar y cyd â Grŵp Llywodraethu ehangach y DU, ac rydym wedi cynnig hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i'n staff.

*Hawliau Dynol a Gwrth-Gaethwasiaeth*

Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i barchu hawliau dynol ac mae wedi'i chynnwys yn Natganiad Atal Caethwasiaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

*Gwariant ar staff ymgynghorol a staff dros dro*

Roedd y gwariant ar ymgynghori yn 2021-22 yn Dim. (2020-21 £Dim).

Cyfanswm y gwariant ar staff dros dro yn 2021-22 oedd £79,623 (2020-21 £87,665). Defnyddiodd y Swyddfa staff dros dro i lenwi swyddi gwag.

*Penodiadau Oddi ar y Gyflogres*

Yn 2021-22 nid oedd gan y Swyddfa benodiadau oddi ar y gyflogres am fwy na £245 y diwrnod ac am gyfnod o chwe mis neu fwy. (2020-21 Dim).

*Arolwg Ymgysylltiad Staff*

Roedd ein mynegai ymgysylltu cyffredinol yn 68% yn 2021 o gymharu â 61% yn 2020. Mi wnaeth ein sgorau gynyddu ym mhob un o'r themâu gwaith allweddol, ac mi wnaethom sgorio'n uwch yn gyson na Meincnod y Gwasanaeth Sifil ym mhob maes.

*Yr Iaith Gymraeg*

Mae gan y Swyddfa ei Chynllun Iaith Gymraeg ei hun ac mae'n adrodd yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar berfformiad yn erbyn y targedau a bennir yn y Cynllun.

Rydym yn sicrhau bod cyfran resymol o staff yn cael eu recriwtio sydd â gallu dwyieithog. Mae'r staff hyn yn gallu ymateb i ymholiadau ffôn a gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg, pan fo angen.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn ein gwaith o ddydd i ddydd, ac yn darparu hyfforddiant ac arweiniad i staff yn unol â hynny.

Ar yr 31ain o Fawrth 2022: Roedd 5 aelod o staff wedi datgan eu bod yn gallu gwrando, darllen a siarad Cymraeg (2020-21 5). Roedd pedwar o'r pum aelod o staff hyn hefyd yn gallu ysgrifennu yn Gymraeg. (2021-21 4).

# Atebolrwydd Seneddol ac adroddiad archwilio

**Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei harchwilio.**

## Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol (SOPS)

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Cymru baratoi Datganiad Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau ategol.

Mae'r SoPS a'r nodiadau cysylltiedig wedi'u harchwilio, fel y nodir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol i'r Tŷ Cyffredin.

Mae'r SoPS yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario o'i gymharu ag Amcangyfrif y Cyflenwad. Cyflenwad yw'r sefyllfa ariannol (ar gyfer dibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (sydd wedi'i dynnu o'r Gronfa Gyfunol yn bennaf), y mae'r Senedd wedi rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn nodi cyflenwad, ac mae'r Senedd yn pleidleisio arno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Petai endid yn mynd dros y terfynau a osodwyd yn Amcangyfrif y Cyflenwad, sef y terfynau rheoli, bydd ei gyfrifon yn derbyn barn amodol.

Mae fformat y SoPS yn adlewyrchu Amcangyfrifon y Cyflenwad a gyhoeddwyd ar gov.uk, er mwyn galluogi tynnu cymhariaeth rhwng yr hyn mae'r Senedd yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r SoPS yn cynnwys tabl cryno, sy'n nodi perfformiad yn erbyn y terfynau rheoli mae'r Senedd wedi pleidleisio arnynt, yr arian a wariwyd (mae cyllidebau'n cael eu llunio ar sail croniadau ac felly ni fydd alldro yn cyd-fynd yn union â'r arian a wariwyd) a gweinyddu.

Mae'r nodiadau ategol yn nodi'r canlynol: Alldro fesul llinell Amcangyfrif, sy'n darparu dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoni'r alldro â'r gwariant gweithredu net yn y SOCNE, i gyd-fynd â'r SoPS i'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoni'r alldro â'r gofyniad arian parod net (nodyn 3); a, dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

## Crynodeb o Alldro Adnoddau a Chyfalaf 2021-22

| | | | | 2021-22 | | | 2021-22 | 2021-22 | | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Alldro | | | Amcangyfrif | Alldro v Amcangyfrif arbedion (gormodedd)) | | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| Math o Wariant | Nodyn SoPS | Pleidleisi-wyd | Heb ei bleidleisio | Cyfanswm | Pleidleisi-wyd | Heb ei bleidleisio | Cyfanswm | Heb ei bleidleisio | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | 5,964 | – | 5,964 | 6,363 | – | 6,363 | 399 | 399 | 4,682 |
| Cyfalaf | 1.2 | - | – | - | 30 | – | 30 | 30 | 30 | 73 |
| **Cyfanswm** | | 5,964 | – | 5,964 | 6,393 | – | 6,393 | 429 | 429 | 4,755 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | (303) | – | (303) | (249) | – | (249) | 54 | 54 | 8 |
| Cyfalaf | 1.2 | - | – | - | - | – | - | - | - | – |
| **Cyfanswm** | | (303) | – | (303) | (249) | – | (249) | 54 | 54 | 8 |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | | 5,661 | – | 5,661 | 6,114 | – | 6,114 | 453 | 453 | 4,690 |
| Cyfalaf | | - | – | - | 30 | – | 30 | 30 | 30 | 73 |
| **Cyfanswm Gwariant y Gyllideb** | | 5,661 | – | 5,661 | 6,144 | – | 6,144 | 483 | 483 | 4,763 |
| **Gwariant Anghyllidebol** | | 19,942,334 | – | 19,942,334 | 20,863,187 | – | 20,863,187 | 920,853 | 920,853 | 21,800,257 |
| **Cyfanswm y Gyllideb ac Anghyllidebol** | | 19,947,995 | – | 19,947,995 | 20,869,331 | – | 20,869,331 | 921,361 | 921,361 | 21,805,020 |

Y ffigurau yn y darnau sydd wedi'u hamlinellu gyda llinell drwchus yw'r terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd. Edrychwch ar lawlyfr Amcangyfrifon y Cyflenwad, sydd ar gael ar gov.uk, i gael rhagor o fanylion am y terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd.

## Gofyniad arian parod net 2021-22 holl ffigurau wedi'u cyflwyno mewn £000's

| Eitem | Nodyn SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o'igymharu agz Amcangyfrif: arbediad/ (dros ben) | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofyniad arain parod net | 3 | 19,948,361 | 20,869,471 | 921,110 | 21,804,789 |

## Costau gweinyddu 2021-22

| Math o Variant | Nodyn SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o'igymharu agz Amcangyfrif: arbediad/ (dros ben) | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau gweinyddu | 1.1 | 5,887 | 6,227 | 340 | 4,406 |

Er nad yw'n derfyn y pleidleisir arno ar wahân, bydd unrhyw achos o beidio â chydymffurfio â'r gyllideb weinyddu hefyd yn arwain at bleidleisio swm dros ben.

# Nodiadau i'r Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol 2021-22 (£000's)

## SOPS1. Manylion alldro, fesul Llinell Amcangyfrif

### SOPS1.1 Dadansoddiad o'r alldro fesul llinell Amcangyfrif

| | Adnoddau Alldro | | | | | | | Amcangyfrif | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweinyddu | | | Rhaglen | | | Cyfanswm | | | | | |
| Math o Wariant (Adnoddau) | Gros | Incwm | Net | Gros | Incwm | Net | | Cyfanswm | Trosglwyddiad | Cyfanswm yn cynnwys trosglwyddiadau | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif arbedion (dros ben) | Y Flwyddyn Flaenorol Alldro Cyfanswm 2020-21 |
| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL) | | | | | | | | | | | | |
| Gwariant a Bleidleisiwyd | | | | | | | | | | | | |
| A – Swyddfa Cymru | 5,986 | (99) | 5,887 | 77 | – | 77 | 5,964 | 6,363 | – | 6,363 | 399 | 4,682 |
| Cyfanswm y DEL a bleidleisiwyd | 5,986 | (99) | 5,887 | 77 | – | 77 | 5,964 | 6,363 | – | 6,363 | 399 | 4,682 |
| Cyfanswm y gwariant yn y DEL | 5,986 | (99) | 5,887 | 77 | – | 77 | 5,964 | 6,363 | – | 6,363 | 399 | 4,682 |
| Gwario mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | | | | | | | | | | | | |
| B – Darpariaethau ac Amhariadau | | | | (303) | – | (303) | (303) | (249) | – | (249) | 54 | 8 |
| Cyfanswm y AME a bleidleisiwyd | – | – | – | (303) | – | (303) | (303) | (249) | – | (249) | 54 | 8 |
| Cyfanswm y gwariant yn y AME | – | – | – | (303) | – | (303) | (303) | (249) | – | (249) | 54 | 8 |
| Gwariant Anghyllidebol | | | | | | | | | | | | |
| C - Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | – | – | – | 17,878,273 | – | 17,878,273 | 17,878,273 | 18,799,126 | – | 18,799,126 | 920,853 | 19,630,589 |
| D - Talu Cyfraddau Treth Incwm Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru | – | – | – | 2,064,061 | – | 2,064,061 | 2,064,061 | 2,064,061 | – | 2,064,061 | - | 2,169,668 |
| Cyfanswm y Gwariant Anghyllidebol | – | – | – | 19,942,334 | – | 19,942,334 | 19,942,334 | 20,863,187 | – | 20,863,187 | 920,853 | 21,800,257 |
| Cyfanswm Adnoddau | 5,986 | (99) | 5,887 | 19,942,108 | – | 19,942,108 | 19,947,995 | 20,869,301 | – | 20,869,301 | 921,306 | 21,804,947 |

## SOPS1.2 Dadansoddiad o'r alldro cyfalaf fesul llinell Amcangyfrif (£000's)

| | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif o'r arbedion (dros ben) | Y Flwyddyn Flaenorol Alldro 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Math o Wariant (Cyfalaf) | Gros | Incwm | Net | Cyfanswm | Trosglwyddiadau | Cyfanswm yn cynnwys trosglwyddiadau | | |
| **Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | |
| **Gwariant a Bleidleisiwyd** | | | | | | | | |
| A – Cyfalaf | 5,000 | (5,000) | - | 30 | - | 30 | 30 | 73 |
| **Cyfanswm y DEL a Bleidleisiwyd** | 5,000 | (5,000) | - | 30 | - | 30 | 30 | 73 |
| **Cyfanswm y gwariant yn y DEL** | 5,000 | (5,000) | - | 30 | - | 30 | 30 | 73 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | 5,000 | (5,000) | - | 30 | - | 30 | 30 | 73 |

Mae'r colofnau cyfanswm Amcangyfrif yn cynnwys trosglwyddiadau. Trosglwyddiadau yw ailddyrannu darpariaeth yn yr Amcangyfrifon heb fod angen awdurdod seneddol (am nad yw'r Senedd yn pleidleisio i lefel manyldeb o'r fath ac yn dirprwyo i Drysorlys EM), mae rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau yn Llawlyfr Amcangyfrifon y Cyflenwad, sydd ar gael ar gov.uk

Mae'r golofn alldro o'i gymharu ag amcangyfrif yn seiliedig ar y cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau. Mae'r cyfanswm amcangyfrif cyn trosglwyddiadau wedi cael ei gynnwys fel bod defnyddwyr yn gallu cysylltu'r amcangyfrif yn ôl â'r Amcangyfrifon a gyflwynwyd gerbron y Senedd.

## SOPS2. Cysoni'r alldro â'r gwariant gweithredu net

| Eitem | Cyfeirnod | Cyfanswm alldro £000 | Y Flwyddyn Flaenoro Cyfanswm Alldro 2020-21 I £000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm alldro adnoddau** | SOPS 1.1 | | |
| Cyllideb | | 5,661 | 4,690 |
| Anghyllidebol | | 19,942,334 | 21,800,257 |
| **Cyfanswm** | | 19,947,995 | 21,804,947 |
| Ychwanegu: Grant cyfalaf mewn nwyddau | | 5,000 | - |
| **Gwariant Gweithredu Net yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr** | SOCNE | 19,952,995 | 21,804,947 |

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r Datganiad Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol (SoPS), caiff alldro a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ond sy'n wahanol iddyn. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau â'r gwariant gweithredu net, ac yn cysylltu'r SoPS â'r datganiadau ariannol.

Cyllidebir ar gyfer grantiau cyfalaf fel CDEL ond cyfrifir amdanynt fel gwariant ar wyneb y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, ac felly maent yn gweithredu fel eitem gysoni rhwng gwariant Adnoddau a gwariant gweithredu net. Rhoddwyd £5 miliwn o grant cyfalaf mewn nwyddau i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ar ffurf trosglwyddo tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol.

# SOPS3 Cysoni'r Alldro Adnoddau Net â'r Gofyniad Arian Parod Net

| Eitem | Cyfeirnod | Cyfanswm alldro | Amcangyfrif | Alldro o'i gymharu ag arbediad/ (dros ben) |
|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfanswm alldro Adnoddau** | SOPS1.1 | 19,947,995 | 20,869,301 | 921,306 |
| **Cyfanswm alldro Cyfalaf** | SOPS1.2 | 0 | 30 | 30 |
| *Addasiadau i dynnu eitemau nad ydynt yn arian parod:* | | | | |
| Dibrisiant | | (49) | (75) | (26) |
| Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol | | 69 | 19 | (50) |
| Darpariaeth Adrannol heb ei Dyrannu | | | | |
| Addasiadau'r Cyfnod Blaenorol | | | | |
| Eitemau anariannol eraill | | (30) | (44) | (14) |
| *Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn bal-ansau gweithio:* | | | | |
| Croniadau cyfalaf | | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn stoc | | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy | | (65) | - | 65 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy | | 211 | - | (211) |
| Defnyddio darpariaethau | | 230 | 240 | 10 |
| Cyfanswm | | 366 | 140 | (226) |
| **Gofyniad arian parod net** | | 19,948,361 | 20,869,471 | 921,110 |

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r SoPS uchod, mae alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, ac nid ar sail arian parod.
Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau a chyfalaf â'r gofyniad arian parod net.

# SOPS4 Swm o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

## SOPS4.1 Dadansoddiad o'r Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Yn ychwanegol at incwm a gedwir gan yr adran mae'r incwm a ganlyn yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol.(derbyniadau arian parod wedi'u dangos mewn print italig).

| Eitem | Alldro | | Blaenorol Blwyddyn 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|
| | Croniadau | Sail arian parod | Croniadau | Sail arian parod |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Incwm y tu allan i ffiniau'r Amcangyfrif Blaendaliadau Etholiad y Cynulliad a Gollwyd | | | | |
| **Cyfanswm yr Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | – | – | – | – |

Nid yw incwm y Gronfa Gyfunol a ddangosir yn nodyn 4.1 yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gan Swyddfa Cymru pan oedd yn gweithredu fel asiant i'r Gronfa Gyfunol yn hytrach na phrif bartner. Y symiau a gasglwyd fel asiant i'r Gronfa Gyfunol (sydd fel arall wedi'u heithrio o'r datganiadau ariannol hyn) yw:

Dangosir yr incwm a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol yn y tabl isod

| | Alldro Cyfanswm | Y Flwyddyn Flaenorol Alldro 2020-21 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Benthyciadau i Fyfyrwyr | 37,300 | 28,244 |
| Benthyciad Pont Cleddau | 0 | 200 |
| Tai Cymru | 8 | 7 |
| Llog Banc | 7 | 59 |
| Arall | 103 | 0 |
| **Swm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | **37,418** | **28,510** |
| Swm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol | – | – |
| Taliadau i'r Gronfa Gyfunol | 37,418 | 28,510 |
| Balansau a ddelid ar ymddiriedaeth ddiwedd y flwyddyn | – | – |

Cyfanswm yr incwm a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth 2021 a 31 Mawrth 2022 oedd:

| | Alldro Cyfanswm | Y Flwyddyn Flaenorol Alldro 2020-21 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm o 2020-21 | | 28,510 |
| Incwm o 2021-22 | 37,418 | |
| | 37,418 | 28,510 |

## 3. Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol

### 3.1 Colledion a Thaliadau Arbennig

Nid yw Swyddfa Cymru wedi colli neu wedi gwneud taliadau arbennig yn 2021-22 (2020-21 Nil).

### 3.2 Taliadau Eraill

Nid yw Swyddfa Cymru wedi gwneud unrhyw daliadau sylweddol i mewn 2021-22 (2020-21 Nil).

### 3.3 Ffioedd a Thaliadau

Nid oedd gan Swyddfa Cymru unrhyw ffioedd a thaliadau yn 2021-22.  (2020-21 nil).

### 3.4 Rhwymedigaethau Digwyddiadol Pell

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol pell.



Glynne Jones CBE
Swyddog Cyfrifyddu
11 Gorffennaf 2022

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolywr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Cymru ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol gan yr Adran:

- Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022;
- Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Llif Arian Parod a Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Cyfrifyddu Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan y DU yw'r fframwaith adrodd cyllidol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr yr Adran fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022 ac o'i wariant net, am y flwyddyn ddaeth y ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys Em o dan y ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r Datganiad Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 ac yn dangos na ragorwyd ar y cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a adroddwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Y sail i'r farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (SARh DU), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 *Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig*. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu hegluro ymhellach yn adran *Cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol* yn fy adroddiad.

Mae'r safonau hynny yn gofyn fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwy'n annibynnol ar yr Adran yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio sydd wedi dod i law yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi casglu bod defnydd yr Adran o gyfrifo ar sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Adran i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ar gyfer yr Adran yn cael ei mabwysiadu o ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle'r oedd yn rhagweld y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ond nid y datganiadau ariannol a fy nhystysgrif archwilio. Y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicr arni.

Mewn cysylltiad â fy archwiliad ar y datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson gyda'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth sydd gennyf drwy'r archwiliad neu'n ymddangos mewn ffordd arall ei bod wedi ei chamddatgan.

Os byddaf yn adnabod anghysonderau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae gofyn i mi benderfynu a ydy hyn wedi arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi ei wneud, bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae gofyn i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion rwy'n adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o Swyddfa Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes dim gennyf i'w adrodd o ran y materion canlynol, rwyf yn eu hadrodd wrthych os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol gennyf ar gyfer fy archwiliad; neu

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan yr Adran, neu nad oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â nhw; neu

- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifo a'r adroddiadau; neu

- na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth ariannol a bennir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM neu nad yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu

- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu y cydymffurfiwyd â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo ar gyfer y datganiadau ariannol

AFel yr esbonir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r  Swyddog Cyfrifo, mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifo yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu'r Adran i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod y Swyddog Cyfrifo yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau arianno

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy nod yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed trwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyflwyno tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod  camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddigwydd oherwydd twyll neu wall a chânt eu hystyried yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

**I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll**

Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Mae'r graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, i'w gweld isod.

**Nodi ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll**

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiad perthnasol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, ystyriwyd y canlynol:

- natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu yr Adran.
- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr Adran a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Adran o ran:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a'r
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau'r Adran mewn perthynas â chydymffurfiaeth yr Adran â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus, Cyflenwi a Chyllid (Prif Amcangyfrifon) 2021.
- trafod ymhlith y tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli o fewn yr Adran ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cofnodion anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan SARh (DU), mae hefyd yn ofynnol i fi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o reolaethau'n cael eu diystyru gan reolwyr.

Cefais hefyd ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod yr Adran yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Adran yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau materol a datgeliadau yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Adran. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus, Cyflenwi a Chyllid (Prif Amcangyfrifon) 2021, deddfwriaeth pensiwn a deddfwriaeth treth.

**Ymateb archwilio i risgiau a nodwyd**

O ganlyniad i gyflawni'r uchod, roedd y gweithdrefnau a weithredais i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiadau ariannol a phrofi dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod fel rhai a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;

- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;

- darllen ac adolygu cofnodion cyfarfodydd y rhai fu'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol; ac

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol;

Cyfleais hefyd gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy nhystysgrif.

**Cyfrifoldebau archwilio eraill**

Mae'n ofynnol i fi gael tystiolaeth briodol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd ac na ragorwyd ar y cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd yw'r Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), a'r Gofynion Dim-Cyllideb (Adnoddau) ac Arian Parod Net.

Mae'n ofynnol i fi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a adroddwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoil. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Swyddfa Cymru yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

**Gareth Davies** **12 Gorffennaf 2022**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# 3 Datganiadau Ariannol

## Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchir ac a ddefnyddir ar sail croniadau. Mae hefyd yn cynnwys incwm cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill nad oes modd eto'u cydnabod yn incwm neu wariant.

| | Nodyn | 2021-22 Adran Graidd £000 | 2010-21 Adran Graidd £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3 | (99) | (117) |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | (99) | (117) |
| Costau Staff | 2 | 3,428 | 3,407 |
| Adeiladau, cynnal a chadw a chyfleustodau | 2 | 1,273 | 507 |
| Dibrisiant a thaliadau amhariad | 2 | 45 | 163 |
| Grantiau cyfalaf mewn nwyddau i Adrannau eraill y Llywodraeth | 2 | 5,000 | - |
| Gwariant gweithredu arall | 2 | 986 | 721 |
| Talu i Gronfa Gyfunol Cymru | 2 | 19,942,334 | 21,800,257 |
| Treuliau Arglwydd Raglawiaid | 2 | 28 | 9 |
| Llog NLF yn daladwy | | 2,419 | 2,474 |
| Llog NLF yn dderbyniadwy | | (2,419) | (2,474) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | 19,953,094 | 21,805,064 |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr Arall** | | 19,952,995 | 21,804,947 |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr Arall** | | | |
| **Eitemau na chânt eu hailgategoreiddio i'r costau gweithredu net:** | | | |
| (Enillion) / colledion net ar ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar | | (2) | 212 |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | | - | - |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | 19,952,993 | 21,805,159 |

Mae'r holl incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau sy'n parhau.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 86 i 104 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
## Ar 31 Mawrth 2022

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol Swyddfa Cymru. Mae'n cynnwys tair prif gydran: asedau a berchnogir neu a reolir; rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill; ac ecwiti, gweddill gwerth yr endid.

| | Nodyn | 31 Mawrth 2022 £000 | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 106 | 5,148 |
| Asedau ariannol | 7 | 67,609 | 70,085 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | 67,715 | 75,233 |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 8 | 2,855 | 2,868 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 5 | 28 | 80 |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | 2,883 | 2,948 |
| **Cyfanswm Asedau** | | **70,598** | **78,181** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 9 | (3,455) | (3,665) |
| Darpariaethau | 10 | - | (299) |
| ***Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol*** | | (3,455) | (3,964) |
| **Asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol net** | | **67,143** | **74,217** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 10 | - | - |
| Rhwymedigaethau ariannol | 9 | (67,609) | (70,085) |
| ***Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol*** | | (67,609) | (70,085) |
| **Asedau llai'r rhwymedigaethau** | | **(466)** | **4,132** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | (470) | 527 |
| Y gronfa ailbrisio wrth gefn | | 4 | 3,605 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **(466)** | **4,132** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 86 i 104 yn rhan o'r cyfrifon hyn.



**Glynne Jones CBE**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**11 Gorffennaf 2022**

## Datganiad Llifau Arian
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Mae'r Datganiad Llifau Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn yr adran yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'r datganiad yn dangos sut y bydd yr adran yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod drwy gategoreiddio llifau arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu.

Mae swm y llifau arian parod net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau gwasanaeth ac i ba raddau y mae'r gweithrediadau hyn yn cael eu hariannu drwy gyfrwng incwm derbynwyr gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr adran. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli i ba raddau y mae'r llifau arian i mewn ac allan wedi'u gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at ddarparu gwasanaeth cyhoeddus yr adran yn y dyfodol.

| | | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Gwariant gweithredu net | SOCNE | (19,952,995) | (21,804,947) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | 2 | 5,010 | 208 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 8 | 13 | 15 |
| *Llai: Symudiadau yn y symiau derbyniadwy sy'n berthnasol i eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr* [1] | 8 | 52 | 47 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill | 9 | (2,686) | (2,361) |
| *Llai: Symudiadau yn y symiau taladwy sy'n berthnasol i eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr* [1] | 9 | 2,475 | 2,327 |
| *Defnydd o Ddarpariaethau* | 10 | (230) | |
| ***All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu*** | | (19,948,361) | (21,804,711) |
| **Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | - | (78) |
| Ad-dalu benthyciadau gan gyrff eraill | 8 | 2,417 | 2,362 |
| Llog sy'n dderbyniadwy gan yr NLF | SOCNE | 2,419 | 2,474 |
| ***Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi*** | | 4,836 | 4,758 |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – Blwyddyn Gyfredol [2] | | 19,948,309 | 21,804,832 |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – Blwyddyn flaenorol | | - | - |
| Blaendaliadau o'r Gronfa Wrth Gefn | | - | 4,656,557 |
| Ad-daliadau i'r Gronfa Wrth Gefn | | - | (4,656,557) |
| Benthyciadau a dderbyniwyd gan y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol | 9 | (2,417) | (2,362) |
| Ad-dalu benthyciadau gan yr NLF [3] | SOCNE | (2,419) | (2,474) |
| *Ariannu net* | | 19,943,473 | 21,799,996 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod cyn eu haddasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | 5 | (52) | 43 |
| Derbyniadau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol sydd y tu allan i gwmpas gweithgareddau'r Adran | | 37,418 | 28,510 |
| Taliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol [4] | | (37,418) | (28,510) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod ar ôl eu haddasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | 5 | (52) | 43 |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | 5 | 80 | 37 |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 5 | 28 | 80 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 86 i 104 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

1. Mae'r symudiadau'n cynnwys: balansau adrannol gyda'r Gronfa Gyfunol: a symiau taladwy sy'n gysylltiedig ag ariannu – benthyciadau'r NLF (prifswm a llog), dyledwyr cyfalaf, lesau cyllid a PFI a threfniadau consesiynau gwasanaeth arall.
2. Dyma'r swm a dderbyniwyd o'r Gronfa Gyfunol yng nghyswllt y flwyddyn gyfredol.
3. Mae hyn yn cynnwys benthyciadau a ad-dalwyd gan endidau ar gyfer eu trosglwyddo ymlaen i'r NLF a llog a dderbyniwyd gan endidau i'w trosglwyddo i'r NLF.
4. Arian parod a dalwyd drosodd i'r Gronfa Gyfunol dan unrhyw gategori.

## Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan Swyddfa Cymru wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd cyffredinol wrth gefn' (h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny sy'n adlewyrchu cyfraniad o'r Gronfa Gyfunol). Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn adlewyrchu'r newid yng ngwerthoedd yr asedau nad ydynt wedi cael eu cydnabod yn incwm nac yn wariant. Mae'r Gronfa Gyffredinol yn adlewyrchu cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau adran, i'r graddau nad yw'r cyfanswm wedi'i gynrychioli gan gronfeydd cadw eraill ac eitemau ariannu.

| | Nodyn | Cronfa Gyffredinol £000 | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £000 | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2020** | | 612 | 3,858 | 4,470 |
| **Cyllido Seneddol Net** | | | | |
| - Tynnwyd i lawr | | 21,804,832 | - | 21,804,832 |
| - Tybiwyd | 9 | 37 | - | 37 |
| Cyflenwad heb ei Wario a dynnwyd i lawr sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 9 | (80) | - | (80) |
| CFERs sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | | – | – | – |
| Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | SOCNE | (21,804,947) | - | (21,804,947) |
| **Taliadau nad ydynt yn arian parod** | | | | |
| - Taliadau i'r Archwilydd | 2 | 32 | - | 32 |
| **Symudiadau Eraill yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| - Eiddo, Offer a Chyfarpar | | - | (212) | (212) |
| - Arall | | - | - | 0 |
| **Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| - Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | 41 | (41) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | 527 | 3,605 | 4,132 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2021** | | 527 | 3,605 | 4,132 |
| **Cyllido Seneddol Net** | | | | |
| - Tynnwyd i lawr | SCF | 19,948,309 | - | 19,948,309 |
| - Tybiwyd | 9 | 80 | - | 80 |
| Cyflenwad heb ei Wario a dynnwyd i lawr sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 9 | (28) | - | (28) |
| Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | SOCNE | (19,952,995) | - | (19,952,995) |
| **Taliadau nad ydynt yn arian parod** | | | | |
| Taliadau i'r Archwilydd | 2 | 34 | - | 34 |
| **Symudiadau Eraill yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| - Eiddo, Offer a Chyfarpar | | - | 2 | 2 |
| - Arall | | | - | - |
| **Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| - Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | 3,603 | (3,603) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | (470) | 4 | (466) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 86 i 104 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 1a) Datganiad polisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail y gwaith paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi'n unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2021-22 (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd yn y FReM yn dilyn Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer y sector cyhoeddus. Lle mae FReM yn caniatáu dewis rhwng polisïau cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y credir ei fod yn fwyaf addas i amgylchiadau penodol Swyddfa Cymru er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Mae'r polisïau penodol sydd wedi'u mabwysiadu gan Swyddfa Cymru wedi'u disgrifio isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau y credir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon hyn.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r FReM hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Cymru baratoi un datganiad sylfaenol ychwanegol. Mae'r Datganiad Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol a'i adroddiad nodiadau ategol yn alldro yn erbyn yr Amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net.

Arian cyfred gweithredol a chyflwyniadol Swyddfa Cymru yw'r bunt sterling (£).

### 1.2 Busnes hyfyw

Mae'r cyfrifon ar gyfer 2021-22 wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol, sef y cyfnod yr ystyrir ei fod yn 12 mis o gymeradwyo'r cyfrifon hyn, hyd at fis Gorffennaf 2023. Mae gan yr Adran sail statudol i'w swyddogaeth a chyllid cysylltiedig ac nid oes unrhyw reswm pam na fyddai hyn yn parhau. Yn gyffredin ag adrannau eraill y llywodraeth, mae cyllid ar gyfer rhwymedigaethau'r Adran yn y dyfodol i'w dalu gan grantiau Cyflenwi ac Incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan y Senedd. Cymeradwywyd y cyllid mwyaf diweddar hyd at 31 Mawrth 2023 ar 12 Mai 2022. Ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25, y lefelau ariannu disgwyliedig yw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 21. Am y rhesymau hyn, ystyrir ei bod yn briodol mabwysiadu busnes gweithredol sail ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn

### 1.3 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol sydd wedi'i addasu i roi cyfrif am ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar ac asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol.

### 1.4 Segmentau gweithredu

Ystyrir bod gan Swyddfa Cymru un swyddogaeth, ac o safbwynt adroddiadau ariannol IFRS fe'i hystyrir i fod yn segment gweithredu sengl.

## 1.5 Eiddo, offer a chyfarpar

*Y sail brisio*

Mae asedau a ystyrir i fod yn eiddo, offer a chyfarpar (PPE) yn cael eu cyflwyno ar eu gwerth teg. Pan gânt eu cydnabod i ddechrau, fe fesurir asedau PPE ar sail cost gan gynnwys unrhyw gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â nhw i gyflwr gweithio.

Nid oes gan y Swyddfa unrhyw asedau sydd yn dir ac yn adeiladau.

*Dull prisio*

Mae asedau nad ydynt yn eiddo yn cael eu cynnwys ar eu cost prynu ac yn cael eu hailddatgan, os ydynt yn berthnasol, ar bob dyddiad adrodd gan ddefnyddio Mynegai Prisiau Cynhyrchwyr y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

*Ailbrisio*

Pan fydd swm cario ased yn cynyddu yn sgil ailbrisio, cydnabyddir y cynnydd hwnnw yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i'r graddau ei fod yn gwrthdroi gostyngiad yng ngwerth yr un ased wrth ei ailbrisio a gydnabuwyd gynt yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Credydir unrhyw gynnydd sy'n weddill yn uniongyrchol i'r Cronfeydd Ailbrisio yn ecwiti Trethdalwyr.

Pan fydd swm cario ased yn gostwng (heblaw o ganlyniad i leihad parhaol), caiff y gostyngiad ei gydnabod yn y Gronfa Ailbrisio i'r graddau bod gweddill yn bodoli ar gyfer yr ased hwnnw. Priodolir unrhyw ostyngiad pellach sy'n fwy na gwargedau'r ailbrisio i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Bob blwyddyn bydd y gwahaniaeth rhwng dibrisiad wedi'i seilio ar ailbrisiad o swm cario'r ased a nodwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a dibrisiad wedi'i seilio ar gost wreiddiol yr ased yn cael ei drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio i'r Gronfa Gyffredinol.

*Trothwy cyfalafu – asedau unigol*

Trothwy cyfalafu Swyddfa Cymru ar gyfer asedau unigol yw £1,000 (gan gynnwys TAW).

*Trothwy cyfalafu – grwpiau o asedau*

Mae gan Swyddfa Cymru nifer fach o asedau ar gyfer dodrefn a ffitiadau sydd wedi'u cyfalafu.

Mae Swyddfa Cymru yn cymhwyso trothwy cyfalafu o £10,000 mil (gan gynnwys TAW) ar gyfer grwpiau o asedau.

### *Dibrisiant*

Codir am ddibrisiant ar sail llinell syth ar gyfraddau sydd wedi'u cyfrifo fel eu bod yn dileu gwerth yr asedau llai amcangyfrif o'u gwerth gweddilliol yn gyson dros gyfnod eu hoes fuddiol amcangyfrifedig neu, yn achos asedau ar les, dros gyfnod y les neu'r cyfnod sy'n oblygedig yn yr amserlen ad-dalu. Mae oes fuddiol asedau neu gategorïau o asedau'n cael eu hadolygu'n flynyddol a thrafodir unrhyw newidiadau â'r awdurdodau perthnasol i sicrhau bod goblygiadau o ran cyllidebu wedi'u hystyried yn briodol. Os cytunir ar newid yn oes fuddiol rhyw ased, caiff yr ased ei ddibrisio ar sail llinell syth dros weddill ei oes fel y mae wedi'i hasesu. Bydd dibrisiant yn dechrau yn y mis ar ôl caffael ased nad yw'n gyfredol yn achos tir, adeiladau ac anheddau ac o fewn y mis yn achos pob math arall o ased nad yw'n gyfredol.

Mae oes fuddiol asedau wedi'i hamcangyfrif o fewn yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Grwpiau o asedau | Amrywiol - gan ddibynnu ar y math o asedau |
| Technoleg gwybodaeth | Y byrraf o'r cyfnod sy'n weddill ar y les neu 3 i 15 mlynedd |
| Offer a chyfarpar | Y byrraf o'r cyfnod sy'n weddill ar y les neu 3 i 20 mlynedd |
| Dodrefn a ffitiadau | Y byrraf o'r cyfnod sy'n weddill ar y les neu 5 i 20 mlynedd |
| Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Heb ei ddibrisio |

Adolygir y gwerthoedd cario ar gyfer amhariad os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn dangos efallai na fydd modd adennill y gwerth cario. Os penderfynir bod ased wedi'i amharu, fe ostyngir gwerth yr ased i'w swm adenilladwy.

### *Cael gwared ag asedau nad ydynt yn gyfredol*

Pennir enillion neu golledion ar ôl cael gwared ag asedau nad ydynt yn gyfredol drwy gymharu'r enillion â'r swm cario, ac maent yn cael eu cydnabod o fewn costau Gweinyddol neu Raglenni, fel sy'n briodol, yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr..

Pan werthir asedau sydd wedi'u hailbrisio, trosglwyddir y symiau sydd yn y Gronfa Ailbrisio i'r Gronfa Gyffredinol.

## 1.6 Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu prisio ar gost hanesyddol o fewn eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol ac nid ydynt yn cael eu dibrisio neu eu hamorteiddio. Rhoddir gorau i ddynodi ased yn ased sy'n cael ei adeiladu pan fydd yn barod i'w ddefnyddio. Wedyn caiff ei werth cario ei symud o asedau sy'n cael eu hadeiladu a'i drosglwyddo i'r categori asedau priodol. Codir dibrisiant neu amorteiddiad ar yr ased wedyn yn unol â'r polisi cyfrifyddu perthnasol.

Caiff gwariant ei gyfalafu pan ellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddod ag ased i gyflwr gweithio. Os ystyrir na ellir priodoli gwariant i'r ased yna caiff ei gynnwys yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr.

## 1.7 Prydlesi

### *Prydlesi cyllid*

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw brydlesi cyllid.

### *Prydlesi gweithredol*

Mae prydlesi lle mae bron iawn yr holl risgiau a manteision yn cael eu cadw gan y lesydd yn cael eu galw'n prydlesi gweithredol. Caiff rhent prydlesi gweithredol eu cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

### *Trefniadau sy'n cynnwys les*

Wrth benderfynu p'un a yw Swyddfa Cymru yn barti i les, caiff contractau nad ydynt yn ymddangos i fod yn les yn gyfreithiol, ond sydd efallai yn cynnwys les oddi fewn iddynt, er enghraifft trefniadau allanoli a chontractau cymryd-neu-dalu, eu hasesu yn unol â meini prawf IFRIC (International Financial Reporting Interpretations Committee) 4 'Determining Whether an Arrangement Contains a Lease'. Ystyrir bod y contract yn les os yw'r gallu i gwblhau'r trefniant yn ddibynnol ar ddefnyddio ased neu asedau penodol ac y mae'r trefniant yn cynnwys hawl i ddefnyddio'r ased. Yna caiff y trefniant ei asesu o dan IAS 17 i bennu p'un a yw'n brydles cyllid ynteu'n brydles weithredol.

## 1.8 Buddsoddiadau

### *Y Gronfa Benthyciadau Gwladol (NLF)*

Fe ystyrir bod blaensymiau o'r Gronfa Benthyciadau Gwladol yn fuddsoddiadau, a chânt eu dadlennu ar gost wedi'i hamorteiddio. Mae balansau'r cyfrifon hyn yn cynrychioli benthyciadau gan yr NLF a fenthycwyd yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu Canolbarth Cymru gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Yna cawsant eu pasio i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig (DBRW) yn y 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) gan gafodd y DBRW ei ddiddymu yn 1998. Yn dilyn diddymu'r WDA yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu'r prif symiau a'r llog, ac mae'n gost sydd wedi'i gynnwys yng Nghronfa Gyfunol Cymru. Caiff y symiau a geir gan Swyddfa Cymru eu trosglwyddo i'r NLF. Caiff balansau benthyciadau sy'n weddill eu cynnwys yn y Symiau Masnach a Symiau Taladwy Eraill a Rhwymedigaethau Ariannol.

Dan adran 122a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (GOWA) gall Llywodraeth Cymru fenthyg hyd at £1biliwn ar gyfer gwariant cyfalaf.

## 1.9 Buddion cyflogeion

### *Croniadau absenoldeb cyflogeion*

Dan IAS 19 'Buddion Cyflogeion', croniadau absenoldeb cyflogeion yw gwyliau blynyddol ac absenoldeb fflecsi nas cymerwyd. Ni chaiff bonysau perfformiad eu cronni gan nad yw'r broses werthuso flynyddol sy'n pennu tâl ar sail perfformiad wedi'i chadarnhau adeg paratoi'r Cyfrifon hyn.

### *Pensiynau*

Mae cyflogeion presennol a blaenorol yn dod o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Nid yw'r cynlluniau sydd â buddion diffiniedig wedi'u hariannu.

Mae'r Adran yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae cyflogeion yn ei wasanaethu drwy dalu symiau i'r PCSPS sydd wedi'u cyfrifo ar sail gronnol. Mae'r atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn cael ei godi ar y PCSPS. O ran y cynlluniau sydd â chyfraniadau diffiniedig, mae'r adran yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

### *Costau ymadael cynnar*

Nid yw Swyddfa Cymru yn cyflogi neb yn uniongyrchol. Mae'r holl staff naill ai'n staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu'n staff Llywodraeth Cymru a chyfrifoldeb yr Adrannau hyn yw talu costau ychwanegol unrhyw fuddion sydd y tu hwnt i PCSPS staff sy'n ymddeol yn gynnar. Mewn amgylchiadau penodol pan fo Swyddfa Cymru wedi cytuno i dalu'r costau, telir y costau ymadael cynnar yn llawn pan ddaw'r cytundeb yn rhwymol. Mae'r llifoedd arian amcangyfrifedig sydd wedi'u haddasu yn ôl risg yn cael eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt Trysorlys EM mewn termau real os yn berthnasol.

## 1.10 Incwm gweithredu

Mae incwm gweithredu yn cynnwys incwm a neilltuwyd mewn cymorth i wrthbwyso gwariant ac incwm cysylltiedig sy'n cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol fel Derbyniadau Ychwanegol (CFER).

Refeniw yr Adran yw incwm o renti a geir gan Adrannau eraill y Llywodraeth ar gyfer gofodau a rennir yn ein swyddfeydd yn Llundain a Chaerdydd.

Caiff yr incwm o renti uchod ei gydnabod yn unol ag IAS 17 (prydlesi) yn hytrach nag IFRS 15 yn unol â gofynion IFRS.

## 1.11 Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol (CFER)

Caiff balansau CFER eu cyfrifo ar sail croniadau oni nodir fel arall. Yn bennaf, mae'r rhain yn ymwneud â symiau a gafwyd yn wreiddiol gan gyrff datganoledig penodol yng Nghymru sydd wedi'u dynodi gan y Trysorlys dan Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Caiff y symiau hyn eu talu gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol

a chânt eu cynnwys yng Nghronfa Gyfunol Cymru. Mae Swyddfa Cymru hefyd yn cael symiau o arian drwy adennill adnau a gollwyd yn sgil etholiadau'r Cynulliad. Mae Swyddfa Cymru yn talu'r symiau a geir i Gronfa Gyfunol y Deyrnas Unedig.

### 1.12 Gwariant ar Weinyddu a Rhaglenni

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys gwariant gweinyddol ar gyfer costau rhedeg Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghyd â chostau rhaglenni ar gyfer treuliau'r Arglwydd Raglawiaid, a'r grant sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru dan Adran 118 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

### 1.13 Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fo rhwymedigaeth gyfreithlon neu ffeithiol ar Swyddfa Cymru ar y pryd yn sgil digwyddiadau'r gorffennol, ac y mae'n debyg y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy ar gyfer swm y rhwymedigaeth.

Mae darpariaethau yn adlewyrchu'r amcangyfrif gorau ar gyfer y gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Os yw effaith y disgowntio yn sylweddol, fe gyfrifir y darpariaethau ar eu gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd real a osodwyd gan Drysorlys EM.

### 1.14 Treth Ar Werth (TAW)

Priodolir TAW nad oes modd ei hadennill i'r categori gwariant perthnasol neu fe'i chynhwysir yng nghostau prynu cyfalaf asedau nad ydynt yn gyfredol. Pan fo treth allbwn wedi'i chodi neu lle y gellir adennill treth mewnbwn, mae'r symiau wedi'u datgan heb gynnwys TAW.

### 1.15 Offerynnau ariannol

Mae IFRS 9 yn gofyn bod endid yn cydnabod ased ariannol neu rwymedigaeth ariannol yn ei Ddatganiad o'r Sefyllfa Ariannol pan ddaw'n barti i ddarpariaethau cytundebol yr offeryn. Cydnabyddir asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sy'n codi yn sgil contractau ar gyfer prynu a gwerthu eitemau anariannol (megis nwyddau neu wasanaethau), a wneir yn unol â gofynion prynu, gwerthu neu ddefnyddio arferol Swyddfa Cymru, ar yr adeg ac i'r graddau y bydd hynny'n digwydd. Cydnabyddir pob ased ac ymrwymiad ariannol arall pan ddaw Swyddfa Cymru yn barti i ddarpariaethau'r contract ar gyfer derbyn neu wneud taliadau. Caiff rhwymedigaethau ariannol eu datgydnabod pan gaiff y contract perthnasol ei setlo, ei werthu, ei ganslo neu pan ddaw i ben.

#### *Asedau ariannol*

##### *Benthyciadau a symiau derbyniadwy*

Mae benthyciadau a symiau derbyniadwy yn cynnwys symiau masnach derbyniadwy, symiau derbyniadwy eraill a benthyciadau sydd â thaliadau penodedig neu bendant sydd heb eu rhestru mewn marchnad weithredol. Caiff benthyciadau a symiau derbyniadwy

eu cydnabod i ddechrau ar eu gwerth teg ac yna eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio dull y gyfradd llog effeithiol heb gynnwys unrhyw amhariad. Cydnabyddir unrhyw log drwy gymhwyso'r gyfradd llog effeithiol. Mae'r gyfradd llog effeithiol yn ffordd o gyfrifo cost ased ariannol wedi'i hamorteiddio ac o ddyrannu refeniw neu draul y llog dros y cyfnod perthnasol gan ddefnyddio'r amcangyfrif o lifau arian parod yn y dyfodol.

Mae IFRS 9 yn gofyn bod endid yn cynhyrchu model amhariad colled disgwyliedig ar gyfer offerynnau ariannol a ddelir. O dan y FReM, mae balansau ag adrannau craidd y llywodraeth ganolog, Cronfeydd Trysorlys y Llywodraeth (gan gynnwys y Cronfeydd Benthyciadau Cenedlaethol) wedi'u heithrio rhag cydnabod amhariadau.

Y prif offeryn ariannol yw'r benthyciadau gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol. Nid oes lwfans colled; dim ond pan fo disgwyliad rhesymol y byddant yn cael eu gwasanaethu a'u had-dalu ar y dyddiadau dyledus y gellir rhoi'r benthyciadau hyn fel benthyciadau NLF gan nad yw'n gyfreithiol i'r NLF wneud colled (a5 (3) Deddf Benthyciadau Cenedlaethol 1968).

Mae Swyddfa Cymru, sy'n gweithredu fel Adran Noddi, yn darparu llythyr gwarant wedi'i lofnodi gan ei Hysgrifennydd Parhaol, i Gyfrifydd y Trysorlys yn Nhrysorlys Ei Mawrhydi (HMT), yn cefnogi'r holl fenthyciadau NLF a roddwyd i Lywodraeth Cymru ac yn cadarnhau y bydd yr NLF yn cael ei had-dalu yn llawn gan Swyddfa Cymru petai Llywodraeth Cymru yn methu â gwneud hynny. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu y bydd Swyddfa Cymru yn ad-dalu benthyciadau'r NLF o'u Hamcangyfrif.

*Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod*

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod sydd wedi'u cofnodi yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad o Lifau Arian Parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, arian sydd ar gadw ac at alwad mewn banciau, buddsoddiadau byrdymor hylifol iawn eraill sydd â chyfnodau aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai, a gorddrafftiau banc.

### *Rhwymedigaethau ariannol*

*Symiau masnach a symiau taladwy eraill*

Caiff rhwymedigaethau ariannol o fewn masnach a symiau taladwy eraill eu cydnabod ar eu gwerth teg, sydd fel arfer yr un fath â'r swm ar yr anfoneb wreiddiol.

*Benthyciadau a benthycion eraill*

Caiff benthyciadau a benthycion eraill eu cydnabod i ddechrau ar eu gwerth teg ac yna rhoddir y costau am drafodion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol ar ben hynny.

## 1.16 Amcangyfrifon a rhagdybiaethau cyfrifyddu sylweddol

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch y dyfodol. Trwy ddiffiniad, mae amcangyfrifon yn annhebygol o fod yr un fath â'r gwir ganlyniadau. Mae amcangyfrifon yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac maent wedi'u seilio ar brofiad hanesyddol a ffactorau perthnasol eraill, gan gynnwys disgwyliadau am ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sydd â risg arwyddocaol o achosi addasiad sylweddol i symiau cario'r asedau a'r rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf yn cael eu trafod isod.

*Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau*

Mae'r darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau a nodir yn nodyn 11 yn adlewyrchu penderfyniadau ynghylch y tebygolrwydd y bydd buddion economaidd yn cael eu trosglwyddo yn y dyfodol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol. Pan fernir ei bod yn debygol y bydd rhwymedigaeth yn crisialu a lle bo modd meintioli'r effaith gyda sicrwydd rhesymol, cydnabyddir darpariaeth. Pan fernir bod y tebygolrwydd y bydd rhwymedigaethau posibl yn crisialu yn bosib, datgelir rhwymedigaeth wrth gefn..

*Cyfrifyddu prydlesi*

Mae angen gwneud penderfyniad ar y dechrau wrth ddosbarthu prydlesi i benderfynu a ydynt yn brydlesi gweithredu neu'n brydlesi cyllid. Pan fo les wedi'i chymryd am dir ac adeiladau gyda'i gilydd, ceir cyfalafu'r adeiladau a'r tir yn brydlesi cyllid ar wahân os ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer prydles cyllid. Os nad yw'r taliadau les wedi'u rhannu rhwng tir ac adeiladau yng nghontract y les, fe'u rhennir ar sail gwerthoedd y tir a'r adeiladau ar y farchnad ar ddechrau'r les.

## 1.17 Y gallu i gymhwyso safonau cyfrifyddu newydd sydd ar ddod

Efallai y bydd y safonau, y dehongliadau a'r diwygiadau newydd canlynol, sydd wedi'u mabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd, ond sydd ddim eto yn weithredol, yn cael effaith ar gyfrifon Swyddfa Cymru yn y dyfodol:-

*IFRS 16*

*Prydlesi IFRS 16*

Mae IFRS 16 yn disodli IAS 17 'Prydlesi' ac yn gyffredinol, mae'n weithredol ar gyfer cyfnodau sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2019 neu ar ôl hynny. Mae oedi wedi bod wrth weithredu IFRS 16 yn y sector gyhoeddus; mae rhaid i adrannau'r Llywodraeth fabwysiadu IFRS 16 o'r 1af o Ebrill 2022 yn unol â'r FReM.

Mae IFRS 16 yn golygu newid sylweddol ar gyfer cyfrifyddu prydlesi drwy gael gwared â'r gwahaniaeth rhwng prydlesi gweithredu (oddi ar y datganiad ar gyfer cyfrifyddu'r sefyllfa ariannol) a phrydlesi cyllid (ar y datganiad ar gyfer cyfrifyddu'r sefyllfa ariannol) a chyflwyno model cyfrifyddu sengl ar gyfer prydlesi.

Mae IFRS 16 yn gofyn bod pob les yn cael ei dynodi'n brydles cyllid ac eithrio prydlesi gwerth isel a phrydlesi tymor byr, h.y. y rhai hynny sydd am lai na 12 mis. Bydd hyn yn arwain at gydnabod ased hawl i ddefnyddio, wedi'i fesur ar werth presennol taliadau prydles yn y dyfodol, a rhwymedigaeth gyfatebol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol (SoFP).

Bydd y Swyddfa'n mabwysiadu IFRS 16 ar y sail dal i fyny gronnol fel y'i mandadwyd yn y FReM, ac felly bydd yr effaith gronnol ar ganlyniadau blynyddoedd blaenorol yn cael

ei chydnabod o fewn ecwiti ar ddechrau'r cyfnod. O'r herwydd, ni fydd gwybodaeth gymharol y flwyddyn flaenorol yn cael ei hailddatgan. O dan Ddatganiadau Ariannol 145, bydd y rheolau 'tad-cu' a orchmynnir yn y FReM ar gyfer y trawsnewidiad cychwynnol i IFRS 16, ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth les yn cael eu cydnabod ar gyfer pob prydles berthnasol nas cydnabuwyd yn flaenorol fel prydlesi cyllid at ddibenion cyfrifyddu o dan IAS 17. Mae'r ased hawl i ddefnyddio yn cael ei fesur i ddechrau ar gost (gan ddefnyddio'r model mesur costau), sy'n cynnwys swm cychwynnol rhwymedigaeth y les wedi'i haddasu ar gyfer taliadau a wnaed eisoes, costau uniongyrchol cychwynnol, rhagdaliadau neu gymhellion, a chostau sy'n ymwneud ag adfer ar ddiwedd cyfnod y les.

Mae'r diffiniad o gontract yn cael ei ehangu i gynnwys cytundebau o fewn Llywodraeth y DU lle mae'n bosibl na ellir gorfodi diffyg perfformiad drwy'r gyfraith Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, cytundebau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU).

*Effaith y safon newydd*

Mi wnaeth y Swyddfa adnabod dau gytundeb o fewn y Llywodraeth sy'n bodloni'r diffiniad uchod o brydles. Y cytundebau yw Memorandwm Telerau Galwedigaethau (MOTOs) gydag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA) ar gyfer Tŷ Gwydyr (Swyddfa Llundain) a gyda HMRC ar gyfer gofod yn swyddfa Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd.

Ar ddyddiad cymhwyso IFRS 16, nid oes gan y Swyddfa unrhyw fwriad i arfer y cymalau torri yn y cytundebau hyn. Mae'r penderfyniadau a wneir ar feddiannaeth yn y dyfodol yn ymwneud â ffactorau sydd y tu allan i'n rheolaeth, ac felly nid yw'n bosibl ar hyn o bryd ystyried y posibilrwydd o adael yr adeiladau yn y dyfodol.

Rydym wedi asesu effaith amcangyfrifedig IFRS 16 yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol (SoFP) ar 1 Ebrill 2022 ac yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE) ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023. Gweler tablau 1 a 2.

Mae'r ffigyrau yn y tablau ar gyfer prydlesi a gychwynnwyd ar 1 Ebrill 2022 gyda gwerthoedd asedau gweddilliol a chyfnodau les ar y dyddiad hwnnw. Mi wnaeth y Swyddfa gynhwyso cyfradd fenthyca fewnol ganolog Trysorlys EM sydd, wrth drosglwyddo i IFRS 16, yn 0.95% ar gyfer y Swyddfa.

*Tabl 1*

*Effaith amcangyfrifedig ar y SoFP yn deillio o IFRS 16*

| Disgrifiad | 1 Ebrill 202<br>£,000<br>Amcangyfrifiad |
|---|---:|
| Asedau hawl i ddefnyddio a gychwynnwyd ar 1 Ebrill 2022 (NBV) | 5,000 |
| **Cyfanswm** | **5,000** |
| Rhwymedigaethau les a gychwynnwyd ar 1 Ebrill 2022 | 5,000 |
| **Cyfanswm** | **5,000** |

*Tabl 2*

*Effaith amcangyfrifedig ar y SoCNE yn deillio o IFRS 16*

| Disgrifiad | 2021 -22 £,000 Amcangyfrifiad | 2022 -23 £,000 Amcangyfrifiad | Cynnydd/ Gostyngiad a ddisgwylir £,000 Amcangyfrifiad |
|---|---:|---:|---:|
| Dibrisiad ased | 0 | 318 | 318 |
| Llog ar rwymedigaeth les wedi ei ddisgowntio | 0 | 47 | 47 |
| Taliadau rhent IAS 17 | 356 | 0 | (356) |
| **Cyfanswm** | **356** | **365** | **(9)** |

## *IFRS 17*

Mae contractau yswiriant IFRS 17 yn disodli IFRS 4 gyda'r un enw. Bydd y safon newydd yn cymhwyso gofynion mwy safonol a thrylwyr ar gyfrifo ar gyfer contractau yswiriant. Mae'r safon newydd yn gosod disgwyliadau cliriach o ran cydnabod, dosbarthu a mesur asedau a rhwymedigaethau mewn perthynas â chontractau yswiriant. Nid oes disgwyl i IFRS 17 ddod i rym tan 2025, ac mae Trysorlys EM eisoes yn ystyried ei gymhwyso i'r sector cyhoeddus. Disgwylir y bydd IFRS 17 yn cael ei gymhwyso yn llywodraeth ganolog o 2025-26.

Ni fydd IFRS 17 yn cael unrhyw effaith ar gyfrifon Swyddfa Cymru yn y dyfodol.

## 2. Gwariant

| | 31 Mawrth 2022 £000 | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| ***Costau Staff:** | | |
| Cyflogau Wythnosol a Misol | 2,654 | 2,629 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 235 | 230 |
| Costau Pensiwn Eraill | 539 | 548 |
| | | |
| **Nwyddau a Gwasanaethau:** | | |
| Adeiladau, cynnal a chadw a chyfleustodau | 1,273 | 507 |
| ** Cyfathrebu, cyflenwadau swyddfa a gwasanaethau | 56 | 158 |
| Rhentu dan brydlesi gweithredu: tir ac adeiladau | 587 | 223 |
| Rhentu dan brydlesi gweithredu: arall (offer, peiriannau, cerbydau ac ati) | 53 | 28 |
| Gwasanaethau TG a thelathrebu (trefniadau consesiwn nad ydynt yn wasanaethau) | 32 | 48 |
| Gwasanaethau eraill sy'n cael eu contractio allan | 13 | 15 |
| Gwasanaethau proffesiynol | 28 | 19 |
| Teithio a chynhaliaeth | 60 | 20 |
| Hyfforddiant a chostau eraill sy'n gysylltiedig â staff | 19 | 5 |
| Ffioedd a thaliadau banc | 3 | 3 |
| Gwariant arall ar weinyddu | 9 | 3 |
| Digwyddiadau a Chynadleddau | 7 | - |
| Dyrannu gorbenion | 154 | 154 |
| Treuliau Arglwydd Raglawiaid | 28 | 9 |
| | | |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod** | | |
| Dibrisiant | 49 | 163 |
| Ailbrisio | (4) | 5 |
| Dileu Gwerth Eiddo, Offer a Chyfarpar | - | 5 |
| ***Grantiau cyfalaf mewn nwyddau i Adrannau eraill y Llywodraeth | 5,000 | - |
| ****Taliadau a threuliau archwilwyr | 34 | 32 |
| Darpariaethau wedi eu hysgrifennu yn ôl | (69) | (56) |
| Darpariaethau a ddarparwyd yn y flwyddyn | - | 59 |
| | | |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | | |
| Talu i Gronfa Gyfunol Cymru | 19,942,334 | 21,800,257 |
| | | |
| **Cyfanswm Gwariant Gweithredu** | 19,953,094 | 21,805,064 |

* Mae dadansoddiad pellach o gostau staff wedi'i leoli yn yr Adroddiad Atebolrwydd (tudalen 60 ).

** Mae cyfathrebu, cyflenwadau swyddfa a chostau gwasanaethau ar gyfer 2020-21 yn cynnwys costau ar gyfer ymgyrchoedd cyfathrebu pontio COVID-19 a'r UE yng Nghymru.

*** Mae'r grant cyfalaf mewn nwyddau yn ymwneud â throsglwyddo Tŷ Gwydyr Swyddfa Llundain i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth. Nid yw trosglwyddo asedau yn cael unrhyw effaith ar gyllideb Swyddfa Cymru, gydag ochr arall y trosglwyddiad yn cael ei thrin fel gwarediad cyfalaf (incwm). Gweler SOPS 1.2 a Nodyn 2 SOPS.

**** Ni brynodd Swyddfa Cymru unrhyw wasanaethau heblaw archwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2020-21 nil).

## 3. Incwm

| | 31 Mawrth 2022<br>£000 | 31 Mawrth 2021<br>£000 |
|---|---:|---:|
| **Incwm** | | |
| Incwm rhent | 99 | 117 |
| **Cyfanswm Incwm** | 99 | 117 |

## 4. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Tir ar Rydd-ddaliad | Adeiladau Rhydd-ddaliad | Technoleg Gwybodaeth | Offer a Chyfarpar | Dodrefn a Ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2021-22** | | | | | | |
| **Cost neu brisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 2,000 | 3,000 | 35 | 118 | 297 | 5,450 |
| Ychwanegiadau | - | - | – | - | - | - |
| Gwarediadau | (2,000) | (3,000) | – | (28) | (82) | (5,110) |
| Ailbrisio | - | - | – | 10 | 7 | 17 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | - | - | 35 | 100 | 222 | 357 |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | – | – | (13) | (39) | (250) | (302) |
| Priodolwyd yn ystod y flwyddyn | – | – | (5) | (20) | (24) | (49) |
| Gwarediadau | – | – | - | 28 | 82 | 110 |
| Ailbrisio | – | – | - | (4) | (6) | (10) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | – | – | (18) | (35) | (198) | (251) |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2022** | - | - | 17 | 65 | 24 | 106 |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 1 Ebrill 2021** | 2,000 | 3,000 | 22 | 79 | 47 | 5,148 |
| **Mae'r holl asedau'n eiddo i Swyddfa Cymru** | - | - | 17 | 65 | 24 | 106 |

### *Trosglwyddo Asedau Rhydd-ddaliadol*

Yn 2020, cyhoeddodd Trysorlys EM y byddai holl eiddo rhydd-ddaliadol y llywodraeth yn trosglwyddo perchnogaeth i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA). Cwblhawyd y trosglwyddiad ar 1 Ebrill 2021 pan drosglwyddodd Swyddfa Cymru ei Swyddfa (tir ac adeiladau) yn Llundain i'r GPA.

Cwblhawyd y trosglwyddiad am ddim ystyriaeth.

## 4.a Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Tir ar Rydd-ddaliad | Adeiladau Rhydd-ddaliad | Technoleg Gwybodaeth | Offer a Chyfarpar | Dodrefn a Ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2020-21** | | | | | | |
| **Cost neu brisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 3,251 | 2,079 | 35 | 232 | 296 | 5,893 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | 78 | - | 78 |
| Gwarediadau | - | - | - | (183) | - | (183) |
| Ailbrisiadau | (1,251) | 921 | - | (9) | 1 | (338) |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | 2,000 | 3,000 | 35 | 118 | 297 | 5,450 |
| | | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | - | - | (8) | (204) | (226) | (438) |
| Priodolwyd yn ystod y flwyddyn | - | (118) | (5) | (16) | (24) | (163) |
| Gwarediadau | - | - | - | 178 | - | 178 |
| Ailbrisio | - | 118 | - | 3 | - | 121 |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | – | – | (13) | (39) | (250) | (302) |
| | | | | | | |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2021** | 2,000 | 3,000 | 22 | 79 | 47 | 5,148 |
| | | | | | | |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 01 Ebrill 2020** | 3,251 | 2,079 | 27 | 28 | 70 | 5,455 |
| | | | | | | |
| **Mae'r holl asedau'n eiddo i Swyddfa Cymru** | 2,000 | 3,000 | 23 | 79 | 47 | 5,148 |

Mae prisiadau proffesiynol o dir ac adeiladau, sydd i gyd yn ymwneud â Tŷ Gwydyr, yn cael eu cynnal gan Syrfewyr Siartredig Cymwysedig sy'n annibynnol ar y swyddfa. Yn 2020-21 fel rhan o drosglwyddo'r llywodraeth ar draws yr eiddo rhydd-ddaliol i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA), comisiynodd GPA Montague Evans (ME) i gynnal prisiad corfforol Tŷ Gwydyr ar 31 Mawrth 2021. Mewn blynyddoedd blaenorol y prisiad Roedd Asiantaeth y Swyddfa (VOA) wedi gwneud y prisiad. Roedd y fethodoleg prisio a wnaed gennyf fi yn wahanol i'r VOA gyda'r rhaniad tir ac adeiladu yn cael ei asesu fel 40% i 60% o'i gymharu â 61% i 39%. Mae hyn wedi arwain at leihau tir ac adeiladu yn cynyddu o ran gwerth ar 31 Mawrth 2021. Mae sicrwydd dros y prisiad yn cael ei ddarparu gan y GPA a'u harchwilwyr allanol.

Bydd pob ased ar wahân i dir ac adeiladau ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu'n cael eu hailbrisio ar bob dyddiad adrodd gan ddefnyddio mynegai Prisiau'r Cynhyrchwyr a baratoir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## 5. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2021 | 80 | 37 |
| Newid net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian | (52) | 43 |
| **Balans ar 21 Mawrth 2022** | 28 | 80 |

Roedd pob balans yn cael ei ddal yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

## 6. Offerynnau Ariannol

Gan fod gofynion arian parod yr adran yn cael eu bodloni drwy'r broses Amcangyfrifon, nid yw offerynnau ariannol yn chwarae cymaint o rôl wrth greu a rheoli risg ag y byddent mewn corff tebyg o ran maint heb fod yn y sector cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig yr Adran ac o ganlyniad nid yw'r Adran fel arfer yn agored i lawer o risgiau credyd, hylifedd neu risgiau'r farchnad.

## 7. Buddsoddiadau a Benthyciadau mewn Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill

| | Benthyciadau a ariennir drwy Gronfa'r Benthyciadau Gwladol |
|---|---|
| | £000 |
| **Cost neu brisiant** | |
| **Ar 1 Ebrill 2020** | 72,502 |
| Benthyciadau sy'n ad-daladwy o fewn 12 mis a drosglwyddwyd i symiau derbyniadwy | (2,417) |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | 70,085 |
| Benthyciadau sy'n ad-daladwy o fewn 12 mis a drosglwyddwyd i symiau derbyniadwy | (2,476) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **67,609** |

Mae Adran 122 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi y gall y Trysorlys roi i'r Ysgrifennydd Gwladol o Gronfa'r Benthyciadau Gwladol y cyfryw symiau y mae ar yr Ysgrifennydd Gwladol eu hangen ar gyfer gwneud benthyciadau dan adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 8. Symiau Masnach Derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | - | 75 |
| Symiau TAW derbyniadwy | - | 40 |
| Adneuon a blaendaliadau | 26 | 19 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 96 | 18 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | - | 35 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF - llog derbyniadwy | 257 | 264 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF - cyfalaf | 2,476 | 2,417 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy** | 2,855 | 2,868 |

Nid oes symiau yn dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 9. Symiau Masnach Taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Trethi a nawdd cymdeithasol arall | 117 | 118 |
| TAW yn daladwy | 3 | - |
| Symiau masnach taladwy | 1 | 14 |
| Symiau taladwy eraill | 99 | 279 |
| Croniadau | 474 | 493 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF - cyfalaf | 2,476 | 2,417 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF - llog yn daladwy | 257 | 264 |
| Symiau a ddarparwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer y cyflenwad ond nad oeddent wedi'u gwario erbyn diwedd y flwyddyn | 28 | 80 |
| **Cyfanswm symiau taladwy** | 3,445 | 3,665 |

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | |
| Benthyciadau NLF | 67,609 | 70,085 |
| **Cyfanswm symiau taladwy** | 67,609 | 70,085 |

## 10. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau ac Arwystlon

| | Costau Dadfeilio Lesddaliad | Costau Les Beichus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | 61 | 235 | 296 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 59 | – | 59 |
| Darpariaeth a ysgrifennwyd yn ôl | - | (56) | 56 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2021** | **120** | **179** | **299** |
| | | | |
| Darpariaeth a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn | (88) | (142) | (230) |
| Darpariaeth a ysgrifennwyd yn ôl | (32) | (37) | (69) |
| **Balans ar 31 Mawth 2022** | **–** | **–** | **–** |

Roedd y darpariaethau dadfeiliad lesddaliad a les beichus ar gyfer y symiau posibl a oedd yn daladwy yn y dyfodol o ganlyniad i adael ein les yn Caspian Point Caerdydd i adleoli i Hyb newydd Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd.

Yn haf 2021, symudodd y Swyddfa i Hyb Caerdydd a defnyddiwyd y darpariaethau.

### 10.1 Dadansoddiad o amseru disgwyliedig llifau wedi'u disgowntio

| | Dadfeiliad Prydlesi 2021-22 | Costau Les Beichus 2021-22 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | - | - |
| Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | – | – |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | – | – |
| **Balans ar 31 Mawth 2022** | **-** | **-** |

| | Dadfeiliad Prydlesi 2020-21 | Costau Les Beichus 2020-21 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 120 | 179 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | – | – |
| **Balans ar 31 Mawth 2021** | **120** | **179** |

## 11 Rhwymedigaethau Wrth Gefn o dan IAS 37

Mae'r Swyddfa wedi symud i Ganolfan Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd yn ddiweddar am gyfnod amhenodol, ac ar hyn o bryd ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau dadfeilio yn y dyfodol o amgylch y brydles pe baem yn dewis gadael. Fodd bynnag, mae posibilrwydd y gallai costau godi yn y dyfodol a bydd hyn yn destun adolygiad blynyddol wrth symud ymlaen.

## 12. Cyfalaf ac Ymrwymiadau eraill

### 12.1 Ymrwymiadau dan Brydlesi Gweithredu

Rhoddir cyfanswm y taliadau isaf yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Mae rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredu yn cynnwys:** | | |
| **Adeiladau:** | | |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 356 | 90 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 1,426 | 1 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 3,875 | - |
| **Cyfanswm** | 5,657 | 91 |

Mae'r prydlesau adeiladu yn ymwneud â swyddfeydd yn Llundain a Chaerdydd.

Mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i brydlesau gweithredu newydd yn dilyn trosglwyddo perchnogaeth ein Swyddfa yn Llundain i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth a adleoli ein Swyddfa Caerdydd o Hyb Caspian Caerdydd i Hwb newydd Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd..

### 12.2 Prydlesi Cyllid

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw brydlesau cyllid.

## 13. Ymrwymiadau Cyfalaf

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw ymrwymiadau cyfalaf.

## 14. Trafodion partïon cysylltiedig

*Adrannau Cysylltiedig a chyrff eraill y Llywodraeth ganolog*

Mae Swyddfa Cymru yn ariannu Llywodraeth Cymru. Ystyrir bod Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig y mae Swyddfa Cymru wedi cael trafodion perthnasol amrywiol ag ef yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal, mae Swyddfa Cymru wedi cael nifer o drafodion sylweddol ag adrannau eraill y llywodraeth, yn bennaf y Weinyddiaeth Gyfiawnder, HMRC ac Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth.

Nid oes yr un gweinidog, aelod o'r bwrdd, rheolwr allweddol na pharti cysylltiedig arall wedi gwneud unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Adran yn ystod y flwyddyn. Mae'r holl iawndaliadau ar gyfer uwch reolwyr yn cael eu datgelu'n llawn yn yr Adroddiad Tâl.

## 15. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 'Events After the reporting Period', ystyrir digwyddiadau ar ôl y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol hyd at y dyddiad pan awdurdodir y Cyfrifon i'w cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifyddu. Dehonglir bod hyn ar yr un dyddiad ag yr ardystir y Cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid oedd materion perthnasol i sôn amdanynt.

Ar y 6ed o Orffennaf, ymddiswyddodd y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Ar y 7fed o Orffennaf 2022, penodwyd y Gwir Anrhydeddus Syr Robert Buckland KBE QC AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

# Atodiad 1: Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus

TABL 1

## Gwariant Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru 2016-17 i 2022-23

| | 2016-17 Alldro £000 | 2017-18 Alldro £000 | 2018-19 Alldro £000 | 2019-20 Alldro £000 | 2020-21 Alldro £000 | 2021-22 Cynlluniau £000 | 2021-22 Alldro [7] £000 | 2022-23 Cynlluniau £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Swyddfa Cymru | | | | | | | | |
| Gwariant ar adnoddau o fewn Costau Gweinyddu | 4,350 | 4,503 | 4,450 | 4,486 | 4,406 | 6,227 | 5,887 | 5,521 |
| Gwariant arall ar adnoddau | 163 | 178 | 183 | 195 | 276 | 136 | 77 | 136 |
| **Adnoddau Swyddfa Cymru [2]** | 4,513 | 4,681 | 4,633 | 4,681 | 4,682 | 6,363 | 5,964 | 5,657 |
| Cyfalaf Swyddfa Cymru | 0 | 73 | 17 | 45 | 73 | 30 | 0 | 30 |
| **Adnoddau Swyddfa Cymru + DEL Cyfalaf [2]** | 4,513 | 4,754 | 4,650 | 4,726 | 4,755 | 6,393 | 5,964 | 5,687 |
| *llai dibrisiant ac amhariad* | *-109* | *-126* | *-141* | *-157* | *-163* | *-75* | *-49* | *-407* |
| **DEL Swyddfa Cymru [3]** | 4,404 | 4,628 | 4,509 | 4,569 | 4,592 | 6,318 | 5,915 | 5,280 |

## Gwariant Llywodraeth Cymru (Bloc Cymru) [6]

| | 2016-17 Alldro £000 | 2017-18 Alldro £000 | 2018-19 Alldro £000 | 2019-20 Alldro £000 | 2020-21 Alldro £000 | 2021-22 Cynlluniau £000 | 2021-22 Alldro [7] £000 | 2022-23 Cynlluniau £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau [6] | 13,325,208 | 14,001,757 | 14,010,896 | 12,858,683 | 18,623,377 | 18,087,431 | 16,238,852 | 17,055,817 |
| Cyfalaf | 1,449,083 | 1,821,285 | 2,036,807 | 2,131,160 | 3,297,143 | 3,164,964 | 3,032,646 | 2,982,296 |
| **Cyfanswm Adnoddau a Chyfalaf** | 14,774,291 | 15,823,042 | 16,047,703 | 14,989,843 | 21,920,520 | 21,252,395 | 19,271,498 | 20,038,113 |
| *llai dibrisiant ac amhariad* | *-253,397* | *-708,262* | *-703,761* | *-768,478* | *-1,057,423* | *-1,582,490* | *183,221* | *-1,782,731* |
| **DEL Llywodraeth Cymru [3] [5]** | 14,520,894 | 15,114,780 | 15,343,942 | 14,221,365 | 20,863,097 | 19,669,905 | 19,454,719 | 18,255,382 |

(1) Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigurau.
(2) Gan gynnwys dibrisiant ac amhariadau.
(3) Adnoddau + cyfalaf - dibrisiant ac amhariadau (gan gynnwys amhariadau Benthyciadau Myfyrwyr).
(4) Yn ôl confensiwn, mynegir cyllidebau Terfyn Gwariant Adrannol fel adnoddau a chyfalaf llai dibrisiant a namau. Felly ni fydd yr adnoddau a rhifau cyfalaf yn y tabl hwn yn cyfyngu ar y terfyn gwariant adrannol: y gwahaniaeth yn ddibrisiant a namau.
(5) Mae ffigurau DEL ar gyfer blynyddoedd alldro wedi cael eu haddasu i adlewyrchu newidiadau cyllidebu dilynol.
(6) O Adolygiad Gwariant 2015, nid yw gwariant Swyddfa Cymru bellach yn rhan o floc Cymru.
(7) Mae data alldro Swyddfa Cymru yn cynrychioli alldro terfynol a bydd yn cyd-fynd â'r cyfrifon a gyhoeddir mewn mannau eraill yn y ddogfen hon. Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos canlyniad dros dro gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau eu cyfrifon eto.
(8) O 2018-19 ymlaen, caiff cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru ei haddasu i lawr mewn perthynas â datganoli treth, gyda Llywodraeth Cymru yn lle cadw refeniw o drethi datganoledig.

## TABL 2

## Grant arian parod a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2020-21: Darpariaeth ac Alldro Terfynol

| | Darpariaeth Wreiddiol £000 | Darpariaeth Derfynol £000 | Alldro Terfynol £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a Ddosberthwyd fel DEL [2] | 17,805,901 | 23,272,427 | 21,920,520 |
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | 1,021,289 | 1,219,795 | 1,029,077 |
| Gwariant a Gyllidir gan Drethi Cymru | 2,455,467 | 2,374,312 | 2,411,897 |
| Gwariant a Ariennir gan Benthyca Cyfalaf | 125,000 | 125,000 | 0 |
| Ardrethi Annomestig | 1,136,000 | 804,000 | 699,021 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **22,543,657** | **27,795,534** | **26,060,515** |
| **Llai:** | | | |
| *Gwariant Nas Dyfarnwyd (non-voted):* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd LA | 88,800 | 88,800 | 88,800 |
| Arall Nas Dyfarnwyd | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| *Trafodiadau Deddf Cymru 2014:* | | | |
| Incwm o drethi Cymru: | | | |
| Treth Incwm | 2,169,668 | 2,169,668 | 2,169,668 |
| Treth Trafodiadau Tir | 254,008 | 176,457 | 210,510 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 34,153 | 28,187 | 31,719 |
| Ad-dalu prifswm benthyciadau | -2,362 | -2,362 | -2,362 |
| Benthyca Cyfalaf | 125,000 | 125,000 | 0 |
| *Nad yw'n arian parod:* | | | |
| Adnoddau wedi'u Clustnodi Anariannol | 688,713 | 1,537,013 | 1,057,423 |
| AME Anariannol | 333,950 | 483,364 | 116,281 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (TME) NAS DYFARNWYD** | **3,698,008** | **4,612,205** | **3,678,117** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (TME) A DDYFARNWYD** | **18,845,649** | **23,183,329** | **22,382,398** |
| **Derbyniadau a ddyfarnwyd** | | | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | -1,087,533 | -1,279,682 | -1,279,682 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | -1,327,527 | -1,112,494 | -1,112,494 |
| **Addasiadau Amseru** | | | |
| Cynnydd/Costyngiad mewn Dyledwyr a Creditors | 0 | 0 | -232,813 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 0 | 0 | -138,761 |
| Symudiadau mewn balans ar gronfa gyfunol | 0 | 0 | 11,941 |
| **Grant Arian Barod yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru [3]** | **16,430,589** | **20,791,153** | **19,630,589** |
| *Cyfradd Treth Incwm Cymru* | *2,169,668* | *2,169,668* | *2,169,668* |
| ***Cyfanswm y gofyniad arian parod gan gynnwys Cyfradd Treth Incwm Cymru*** | ***18,600,257*** | ***22,960,821*** | ***21,800,257*** |

Nodiadau
(1) Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigurau.
(2) DEL Adnoddau a chyfalaf yn cynnwys dibrisiant.
(3) Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Adran 118 (2)
(4) Mae pob eitem sy'n ffurfio'r cyfrifiad hwn yn cyfeirio at wariant a gafwyd gan/incwm a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

## TABL 3

## Grant arian parod a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2021-22: Darpariaeth ac Alldro Dros Dro

| | Darpariaeth Wreiddiol £000 | Darpariaeth Derfynol £000 | Alldro dros dro £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel DEL [2] | 20,367,193 | 21,252,395 | 19,271,498 |
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | 1,146,810 | 1,429,806 | 1,117,147 |
| Gwariant a Gyllidir gan Drethi Cymru | 2,325,370 | 2,474,236 | 2,476,653 |
| Gwariant a Ariennir gan Benthyca Cyfalaf | 150,000 | 113,000 | 0 |
| Ardrethi Annomestig | 1,101,000 | 721,500 | 636,805 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **25,090,373** | **25,990,937** | **23,502,103** |
| **Llai:** | | | |
| *Gwariant Nas Dyfarnwyd (non-voted):* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd ALI | 88,800 | 88,800 | 88,800 |
| Arall Nas Dyfarnwyd | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| *Trafodiadau Deddf Cymru 2014:* | | | |
| Incwm o drethi Cymru: | | | |
| Treth Incwm | 2,064,061 | 2,064,061 | 2,064,061 |
| Treth Trafodiadau Tir | 230,998 | 367,246 | 367,246 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 32,728 | 45,346 | 45,346 |
| Ad-dalu prifswm benthyciadau | -2,417 | -2,417 | -2,417 |
| Benthyca Cyfalaf | 150,000 | 113,000 | 0 |
| *Nad yw'n arian parod:* | | | |
| Adnoddau wedi'u Clustnodi Anariannol | 1,519,960 | 1,582,490 | -183,221 |
| AME Anariannol | 366,605 | 583,519 | 136,697 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (TME) NAS DYFARNWYD** | **4,456,813** | **4,848,123** | **2,522,590** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (TME) A DDYFARNWYD** | **20,633,560** | **21,142,814** | **20,979,513** |
| **Derbyniadau a ddyfarnwyd** | | | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | -1,313,819 | -1,412,088 | -1,412,088 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | -1,069,958 | -1,040,053 | -1,040,053 |
| **Addasiadau amseru** | | | |
| Cynnydd / Gostyngiad mewn Dyledwyr a Chredydwyr | 0 | 108,453 | -649,099 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | 0 |
| **Grant Arian Parod sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru** | | **18,799,126** | **17,878,273** |
| *Cyfradd Treth Incwm Cymru* | *2,064,061* | *2,064,061* | *2,064,061* |
| ***Cyfanswm y gofyniad arian parod gan gynnwys Cyfradd Treth Incwm Cymru*** | ***20,313,844*** | ***20,863,187*** | ***19,942,334*** |

Nodiadau
(1) Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigurau.
(2) DEL Adnoddau a chyfalaf yn cynnwys dibrisiant.
(3) Mae'r holl eitemau sy'n ffurfio'r cyfrifiad hwn yn cyfeirio at Expenditure a gafwyd gan / incwm a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.
(4) Mae'r ddarpariaeth derfynol ar gyfer y Grant Arian Parod yn adlewyrchu dymuniad Llywodraeth Cymru i gario ymlaen £ 660.218m o gyllid DEL yn 2021-22 ar ben eu hwylustod presennol i drosglwyddo cyllid rhwng blynyddoedd ariannol. Caniatawyd hyn i gydnabod yr amgylchiadau eithriadol a gynhaliwyd yn 2020-21.

## TABL 4
## Cyfrifo'r Grant Arian Parod sy'n Daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru 2022-23

| | 2022-23<br>£000 |
|---|---|
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel DEL (Grant Bloc) [2] | 20,038,113 |
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | 1,272,584 |
| Gwariant a Gyllidir gan Drethi Cymru | 2,887,313 |
| Gwariant a Gyllidir drwy Fenthyg Cyfalaf | 150,000 |
| Gwariant a Gyllidir gan Ardrethi Annomestig | 1,030,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **25,378,010** |
| **Llai:** | |
| *Gwariant Nas Dyfarnwyd (non-voted):* | |
| Benthyca â Chymorth gan Awdurdodau Lleol Cymru | 88,800 |
| Costau casglu ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac Ardrethi Annomestig | 6,078 |
| *Trafodiadau Deddf Cymru 2016:* | |
| Incwm o drethi Cymru: | |
| Treth Incwm | 2,477,747 |
| Treth Trafodiadau Tir | 380,542 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 35,188 |
| Ad-dalu prifswm benthyciadau | -6,164 |
| Benthyca Cyfalaf | 150,000 |
| Adnoddau heb fod yn Arian Parod | 1,782,731 |
| AME Anariannol | 599,441 |
| *Is-gyfanswm* | *5,514,363* |
| **GWARIANT CYFLENWAD CYFANSWM** | **19,863,647** |
| **Llai derbyniadau** | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | 1,065,765 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | 2,338,106 |
| **Grant Arian Parod sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru** | **16,459,776** |
| *Cyfradd Treth Incwm Cymru* | *2,477,747* |
| ***Cyfanswm y gofyniad arian parod gan gynnwys Cyfradd Treth Incwm Cymru*** | ***18,937,523*** |

**Nodiadau**
(1) Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigurau.
(2) DEL Adnoddau a chyfalaf yn cynnwys dibrisiant.
(3) Mae pob eitem sy'n ffurfio'r cyfrifiad hwn yn cyfeirio at wariant a gafwyd gan/incwm a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

ISBN 978-1-5286-3485-4
E02761218